# Datganiad Cyfrifon

## 2020 - 2021

Cyhoeddwyd yn amodol ar Archwiliad

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**CYNNWYS**


| **Adran** | | **Tudalen(au)** |
|---|---|---|
| **1** | Adroddiad Naratif | 1 - 7 |
| **2** | Datganiad o'r Cyfrifoldebau dros y Datganiad o'r Cyfrifon | 8 |
| **3** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 9 - 34 |
| **4** | Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin (i ddilyn ar ôl yr achwiliad) | |
| **5** | **Datganiadau Cyllidol** | 35 |
| **5.1** | Dadansoddiad Gwariant a Chyllid | 36 |
| **5.2** | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 37 |
| **5.3** | Datganiad am y Symudiadau yng Nghronfeydd | 38 |
| **5.4** | Y Fantolen | 39 |
| **5.5** | Y Datganiad Llif Arian | 40 |
| **6** | Nodiadau i'r Cyfrifon | 41 - 116 |
| **7** | Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 117 - 118 |
| **8** | Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant y CRT | 119 - 121 |
| **9** | Cyfrif Cronfa'r Degwm Dyfed | 122 |
| **10** | Cronfeydd Ymddiriedolaethau | 122 |
| **11** | Gofal Cymdeithasol/Gwasanaethau Plant - Cyfrifon Cleientiaid a'r Staff | 123 |
| **12** | Geirfa | 124 - 128 |

## 1 ADRODDIAD NARATIF

Mae'r Datganiad Cyfrifon canlynol yn dwyn at ei gilydd, ar ffurf gryno, drafodion ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn 2020/21.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn dangos Cyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn 2020/21. Fe'u lluniwyd yn unol a'r Côd Ymarfer 2020/21 ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Côd).

**1.1** Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

**Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

**Datganiad am y Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod**

**Y Fantolen**

**Y Datganiad Llif Arian**

Ceir manylion am bob un o'r datganiadau ariannol hyn yn Adran 5.

**Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai**

Ceir manylion am y datganiadau ariannol hyn yn Adrannau 7 ac 8.

**Cronfa'r Degwm Dyfed a Chronfeydd Ymddiriedolaethau Eraill**

Ceir manylion am y cronfeydd hyn yn Adrannau 9 i 11.

Mae'r cyfrifon yn cael eu hategu gan y Datganiad o Bolisïau Cyfrifydda (Nodyn 6.1 – Nodiadau i'r Cyfrifon).

## 1.2.1 Cyllideb Refeniw

Mae prif gydrannau cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 a sut y maent yn cymharu â'r union incwm a gwariant wedi'u nodi isod:

| Gwasanaeth | Cyllideb Gweithio | | | | Gweithredol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant | Incwm | Net na ellir ei reoli | Net | Gwariant | Incwm | Net na ellir ei reoli | Net | Amrywiad am y Flwyddyn |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Prif Weithredwr | 31,858 | (12,420) | (4,862) | 14,576 | 33,261 | (14,090) | (4,862) | 14,309 | (267) |
| Cymunedau | 154,670 | (63,617) | 19,316 | 110,369 | 181,576 | (90,130) | 19,316 | 110,762 | 393 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 81,926 | (51,327) | (3,637) | 26,962 | 76,821 | (46,656) | (3,637) | 26,528 | (434) |
| Addysg a Phlant | 190,129 | (38,397) | 29,660 | 181,392 | 207,310 | (56,461) | 29,660 | 180,509 | (883) |
| Amgylchedd | 130,643 | (86,649) | 16,898 | 60,892 | 134,580 | (90,829) | 16,898 | 60,649 | (243) |
| **Gwariant Adrannau** | **589,226** | **(252,410)** | **57,375** | **394,191** | **633,548** | **(298,166)** | **57,375** | **392,757** | **(1,434)** |
| Llog Net ac Addasiadau Cyfrifyddu | | | | | | | | | |
| Cyfalaf | | | | (14,084) | | | | (16,043) | (1,959) |
| Newidiadau i'r gronfa bensiwn | | | | (17,900) | | | | (17,900) | 0 |
| Absenoldebau Cronedig | | | | (1,152) | | | | (1,152) | 0 |
| **Ardollau a Chyfraniadau:** | | | | | | | | | |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | | | 138 | | | | 138 | 0 |
| Awdurdod Tân | | | | 10,400 | | | | 10,400 | 0 |
| **Gwariant Net** | | | | **371,593** | | | | **368,200** | **(3,393)** |
| Cyfraniadau i/(o) Weddillion Cyffredinol | | | | 0 | | | | 814 | 814 |
| I/(o'r) Cronfeydd Adrannol | | | | 0 | | | | 913 | 913 |
| Trosglwyddiad i Gronfa'r Fargen Ddinesig | | | | 0 | | | | 2,000 | 2,000 |
| **Cyllideb Net** | | | | **371,593** | | | | **371,927** | **334** |
| Grant Cynnal Refeniw | | | | (215,250) | | | | (215,250) | 0 |
| Ardrethi Annonmestig | | | | (58,909) | | | | (58,909) | 0 |
| Treth Y Cyngor | | | | (97,434) | | | | (96,906) | 528 |
| Grant Caledi Treth Gyngor Llywodraeth Cymru | | | | 0 | | | | (862) | (862) |
| | | | | 0 | | | | 0 | 0 |

Cymeradwywyd cyllideb refeniw 2020/21 gan y Cyngor Sir ar 3 Mawrth 2020, pan na ellid rhagweld nac amcangyfrif effaith COVID19 ar wasanaethau yn rhesymol. Amlinellir mesurau cymorth ariannol ychwanegol ym mharagraff 1.2.2 isod.

Roedd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, gan ystyried yr holl lifoedd ariannol ychwanegol hyn, yn dangos tanwariant o £1,434,000 ar lefel adran. Nid yw hyn yn cynnwys y tanwariant ar ysgolion gan fod hyn wedi'i gynnwys yn y mudiad wrth gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol (gweler nodyn 6.22).

Cofnododd Adran y Prif Weithredwr danwariant o £267,000. Roedd tanwariant oherwydd swyddi gwag, costau cyfleustodau is oherwydd llai o ddefnydd o adeiladau a gostyngiad mewn treuliau aelodau, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiadau mewn incwm gosodiadau masnachol a'r angen i neilltuo cyllid ar gyfer cynnal y system Gyflogres Adnoddau Dynol graidd ar gwmwl yn y dyfodol.

Profodd yr Adran Gymunedau bwysau eithriadol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol yng nghyllidebau Pobl Hŷn a chafodd colled incwm yn y gwasanaethau Hamdden a Diwylliant eu talu gan Gynllun Caledi COVID19 Llywodraeth Cymru. Roedd alldro cyffredinol yr adran yn orwariant net o £393,000, yn bennaf oherwydd y galw ychwanegol am gyllidebau Iechyd Meddwl.

Profodd cyllidebau'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol ddefnydd uwch na'r arfer o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a mwy o ddarpariaeth ar gyfer drwgddyled, wedi'i gwrthbwyso gan arbedion o swyddi gwag staff a grantiau gweinyddu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Cafwyd tanwariant o £883,000 o ran cyllideb yr Adran Addysg. Mae hyn yn bennaf oherwydd swyddi gwag, llai o deithio gan staff a defnyddio grantiau ychwanegol i gefnogi gwariant craidd yn ogystal â llai o leoliadau y tu allan i'r sir.

Mae Adran yr Amgylchedd yn adrodd tanwariant o £243,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol, yn bennaf oherwydd tanwariant cyffredinol o ganlyniad i gyfyngiadau COVID19, er enghraifft cludiant i ysgolion, a chyllid grant ychwanegol nad yw'n gysylltiedig â COVID19 gan Lywodraeth Cymru a thrwy hynny'n disodli cyllidebau craidd.

Mae'r amrywiannau hyn, ynghyd â'r arbedion ar gostau cyllido cyfalaf yn is na'r amcangyfrif ar y Dreth Gyngor yn golygu bod yr Awdurdod wedi trosglwyddo £814,000 i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

| CYFRIF REFENIW TAI | Cyllideb Gweithio | | | Gweithredol | | | Amrywiad am y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant | Incwm | Net | Gwariant | Incwm | Net | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 49,329 | (43,917) | 5,412 | 45,264 | (43,455) | 1,809 | (3,603) |
| Trosglwyddiadau i/(o'r) Balansau CRT | 0 | 0 | (5,412) | 0 | 0 | (1,809) | 3,603 |

Roedd tanwariant o £3,603,000 o ran y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn.

Y prif amrywiadau oedd:

- gostyngiad o £1,752,000 mewn Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw gan y gwnaed gwaith brys a deddfwriaethol yn unig oherwydd cyfyngiadau COVID19 am gyfnodau estynedig.
- gostyngiad mewn costau Goruchwylio a Rheoli ac ad-daliadau £1,598,000
- gostyngiad yn y cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf £144,000
- costau cyllido cyfalaf o £842,000 yn llai na'r hyn a gyllidwyd o ganlyniad i ostyngiad mewn benthyg ac yn y cyfraddau llog
- incwm rhent, taliadau am wasanaeth a llog ar falansau arian parod yn is oherwydd nifer uwch o unedau gwag a'r amser cynyddol y mae'n ei gymryd i gael unedau gwag yn barod £1,067,000.
- mwy o incwm ar gyfer hawliadau yswiriant, taliadau grant ac incwm arall £346k

### 1.2.2 <u>Cyllid COVID19</u>

Rhoddwyd ystod ddigynsail o fesurau cymorth ariannol gwahanol ar raddfa fwy nag erioed gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys y canlynol:

- Ad-daliad ariannol uniongyrchol i Awdurdodau Lleol drwy'r Gronfa Galedi Frys, naill ai ar gyfer gwariant ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau neu am golli incwm oherwydd bod gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm wedi'u lleihau neu eu cau. Mae'r grantiau hyn o natur prifswm.
- Arian grant sy'n seiliedig ar fformiwla i Awdurdodau Lleol ar gyfer straen ariannol cydnabyddedig fel casglu llai o'r Dreth Gyngor a grantiau unwaith yn unig i gefnogi gweithgareddau dal i fyny ym maes Addysg. Mae'r grantiau hyn o natur prifswm.
- Grantiau neu ostyngiadau i drydydd partïon, megis dinasyddion sy'n hunanynysu neu fusnesau nad ydynt yn gallu gweithredu oherwydd cyfyngiadau COVID19, lle bernir bod yr Awdurdod wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r grantiau hyn o natur asiant.

Mae gwerth y ffrydiau cyllido ychwanegol hyn yn sylweddol iawn, fel y crynhoir yn y tabl canlynol:

**Prifswm**

| 2020/21 | Gwariant | Incwm Llywodraeth Cymru | Incwm Cyrff Cyhoeddus Eraill |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| COVID19 - Hawliadau Caledi | 23,107 | (23,107) | |
| COVID19 - Colli Incwm | | (9,704) | |
| Trawsnewid Digidol | | (1,536) | |
| Cyfraniad Strategaethau Arbedion | | (1,535) | |
| Costau Gweinyddol a Llys y Dreth Gyngor | | (285) | |
| Gweinyddu Grantiau Busnes | | (846) | |
| Gweinyddu Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr | | (10) | |
| Cost Uwch Cymorth y Dreth Gyngor | | (713) | |
| Grant y Dreth Gyngor | | (1,724) | |
| Cronfa Economi Gylchol - Grant Refeniw Ychwanegol (Ymateb ac Adferiad COVID19) | | (230) | |
| Gwasanaethau Addysg a Phlant | 4,827 | (4,533) | (294) |
| Ysbyty Maes | 1,767 | | (1,767) |
| Profi Olrhain Diogelu | 1,179 | | (1,119) |
| Grant Glanhau Ychwanegol | 46 | (46) | |
| Gorchuddion Wyneb i Ddisgyblion | 114 | | (114) |
| Grant Cymorth COVID19 Fforwm Lleol Cymru Gydnerth | 120 | (120) | |
| Parseli Gwarchod | 283 | (283) | |
| **CYFANSWM** | **31,443** | **(44,672)** | **(3,294)** |

**Asiantaeth**

| 2020/21 | Gwariant | Incwm Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Grantiau i Fusnesau | 38,690 | (38,690) |
| Grant Cyfyngiadau Busnes | 23,900 | (23,900) |
| Grantiau'r Cyfnod Atal Byr | 6,173 | (6,173) |
| Grant Dewisol | 2,294 | (2,294) |
| Grant Dewisol y Cyfnod Atal Byr | 907 | (907) |
| Grantiau Llawrydd | 820 | (820) |
| Grantiau Cychwyn Busnes | 273 | (273) |
| Grant Hunanynysu | 309 | (309) |
| Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2020-21 | 20,374 | (20,374) |
| Cynllun Talu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (Cyfran 1 £500 yr un) | 3,151 | (3,151) |
| Cydnabyddiaeth ariannol i'r GIG a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (Cyfran 2 £735 yr un) | 5,415 | (5,415) |
| COVID19 - Cynllun Gwella Tal Salwch Stadudol - Gofal Cymdeithasol | 222 | (222) |
| Cynghorau Tref a Chymuned - Colli Incwm | 40 | (40) |
| **CYFANSWM** | **102,568** | **(102,568)** |

## 1.3 Arian Wrth Gefn

Yn yr amgylchedd o newid a her sy'n wynebu Llywodraeth Leol heddiw, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal lefel resymol o arian wrth gefn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd y symiau wrth gefn fel a ganlyn:

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | | |
| A ddelir gan ysgolion yn unol â Rheoliadau Rheoli Ysgolion Lleol (RHYLL) | 7,266 | |
| Ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwariant newydd | 12,034 | 19,300 |
| Cyfrif Refeniw Tai | | 19,444 |
| | | **38,744** |

Yn ogystal â'r arian wrth gefn cyffredinol mae gan yr Awdurdod £114.805 miliwn o arian wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer dibenion penodol.

## 1.4 Benthyca

Ni chafwyd benthyciadau newydd o Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (BBGC) yn 2020/21.

Ar 31 Mawrth 2021, cyfanswm yr arian a fenthycwyd i'r Awdurdod oedd £414miliwn, a oedd yn llai na therfyn awdurdodedig yr Awdurdod, sef £569 miliwn. Cynhwysir fwy o fanylion yn Nodyn 6.46 i'r Cyfrifon.

Mae gweithdrefnau a therfynau'r Awdurdod ar gyfer benthyciadau wedi'u hamlinellu ym Mholisi a Strategaeth Rheoli y Trysorlys, sy'n cael ei gymeradwyo bob blwyddyn.

## 1.5 Cronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau yn clustogi'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol i gyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ôl cyflogaeth ac ar gyfer ariannu budd-daliadau yn unol â darpariaethau statudol. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiynau o £560m yn dangos diffyg sylweddol yn yr adnoddau y mae'r Awdurdod wedi'u neilltuo i dalu'r buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a gweithwyr presennol. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd arian wedi cael ei neilltuo erbyn yr adeg y bydd yn rhaid talu'r budd-daliadau.

## 1.6 Yr Hinsawdd Economaidd Bresennol

Mae'n ofynnol i'r datganiadau cyfrifyddu adlewyrchu'r amgylchiadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae holl asedau'r Awdurdod yn cael eu hailbrisio ar sail gylchol ac mewn llawer o achosion felly mae'r prisiad cyfredol (a wnaethpwyd diwethaf ym mlynyddoedd y gorffennol) yn debygol o adlewyrchu gwerth presennol yr asedau ar y farchnad neu'n adlewyrchiad teg ohono. Mae'r rhan fwyaf o asedau'n cael eu dal ar gyfer darparu gwasanaethau ac felly nid yw unrhyw newidiadau yn amodau'r farchnad gwerthiannau masnachol yn effeithio ar werthoedd yn y cyfrifon hyn.

Mae'n ofynnol fod y datganiadau cyfrifon yn adlewyrchu'r amodau sydd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod pandemig COVID19 wedi effeithio'n sylweddol ar bron pob maes gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, mae graddfa a chyflymder cyflwyno brechlynnau cenedlaethol, a'r cynlluniau i lacio'r cyfyngiadau, yn llawer mwy cadarnhaol. Mae'r lefel ddigynsail o gymorth ariannol ychwanegol a ddarperir i Awdurdodau Lleol drwy gynllun caledi Llywodraeth Cymru wedi lliniaru'r mwyafrif llethol o gostau ychwanegol ac mae'r un peth yn wir am ostyngiadau mewn incwm masnachol.

Fodd bynnag, mae'r mesur hwn a chymorth ariannol ehangach y sector cyhoeddus fel y Cynllun Cadw Swyddi wedi'u hariannu drwy fenthyca gan y llywodraeth ar lefel Trysorlys y DU. Dim ond i ddigwyddiadau hanesyddol fel yr Ail Ryfel Byd y gellir cymharu'r cynnydd yn nyled Llywodraeth y DU. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd cymorth ariannol yn parhau yn y tymor byr, ond bydd angen mesurau cyllidol a gwariant i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol dros y degawdau sydd i ddod.

Yn y cyd-destun hwn, cadwyd ein sefyllfa ariannol gyffredinol ar lefel ddarbodus, gyda chynnydd bach yn lefel y balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod hefyd gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a gedwir at ddibenion penodol, boed hynny er mwyn mynd i'r afael â rhwymedigaethau nawr neu yn y dyfodol, e.e. cronfeydd yswiriant neu ar gyfer ariannu cynlluniau cyfalaf penodol. Mae'r Awdurdod wedi gallu ychwanegu at y balansau hyn ar ddiwedd y flwyddyn i ddarparu adnoddau ychwanegol tuag at weithgareddau adfer a lliniaru risg.

## 1.7 Cyfalaf

Yn 2020/21 gwariodd yr Awdurdod tua £84.8 miliwn ar brosiectau cyfalaf. Cyllidwyd y gwariant hwn â chyfuniad o fenthyciadau, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill, arian wrth gefn a chyllido refeniw uniongyrchol.

Gwariwyd £27.1 miliwn ar Dai ac mae’r meysydd gwario wedi’u nodi isod:

| | |
|---|---|
| **Sector Cyhoeddus** | |
| Adnewyddu ac ailddatblygu'r Stoc Dai a phwrcasu stoc tai ychwanegol. | £26.0m |
| **Sector Preifat** | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | £0.8m |
| Gwelliannau eraill | £0.3m |

Mae’r prif feysydd gwariant ar wasanaethau heblaw gwasanaethau Tai fel a ganlyn:

| | **£'m** | |
|---|---|---|
| Addysg a Gwasanaethau Plant | 14.3 | Ysgolion Newydd, Adnewyddiadau a Gwelliannau i ysgolion presennol a Phrosiectau Gwasanaethau Plant a Theulu |
| Hamdden | 3.7 | Hawliau Tramwy, Chwaraeon a Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant a Llyfrgelloedd. |
| Seilwaith | 19.1 | Ffyrdd, Pontydd, Llwybrau Beicio, Diogelwch ar y Ffyrdd, Meysydd Parcio ac amddiffyn yr arfordir a llifogydd |
| Fflyd | 0.1 | Cerbydau Newydd |
| Datblygu Economaidd | 12.0 | Prosiectau Corfforol Adfywio Ledled y Sir, Datblygiadau Cymunedol, Cyd Fentrau a Phrosiectau Rhanbarthol/Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 0.7 | Cartrefi Gofal a Datblygiadau Dysgu yr Anabl |
| Corfforaethol | 6.0 | Mân Waith Cyfalaf a Datblygiadau Strategaeth TGCh |
| Ysbyty COVID19 | 1.8 | Ysbytai Enfys ar draws y Sir |

## 1.8 Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon ar gael oddi wrth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

## 2 DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU DROS Y DATGANIAD CYFRIFON

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol mewn modd priodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog hwnnnw.
- Rheoli ei faterion mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol**

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o'i Gyfrifon sydd, yn unol â'r arferion cyfrifo priodol fel y'u pennwyd yn Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Côd Ymarfer").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

- Wedi dewis polisïau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- Wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, amserol a chyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol er atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**Ardystio'r Cyfrifon**

Yr wyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon a welir ar dudalennau 35 i 123 yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin ar 31ain Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2021.

Chris Moore FCCA
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Dyddiad: 2 Gorffennaf 2021

## 3 ATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Crynodeb Gweithredol Sicrwydd**

*Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol.*

*Mae'n bwysig bod Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwerthusiad a chasgliad ac yn rhoi barn glir ynghylch a yw'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn addas i'r diben.*

*I alluogi'r farn hon cynhaliodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adolygiad o'n trefniadau yn erbyn y safonau a fabwysiadwyd (gweler 3.3 isod)*

**Tabl - Darn o'r Adroddiad Archwilio Mewnol:**

| **Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| **Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad** | **Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd** |
| Derbyniol | Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt<br>Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion<br>Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |

Mae'r Canllawiau Drafft ynghylch Darpariaethau Hunanasesu sy'n cael eu datblygu yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn disgwyl i'r Cyngor roi ystyriaeth i'r egwyddorion hyn wrth ystyried effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

### 3.1 Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau yr ymgymerir â'i waith yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid iddo sicrhau hefyd y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus yn hyn o beth.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ei waith, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod yn manylu ar y modd y mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu drwy ei Gyfansoddiad sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Weithrediaeth, Aelodau'r Awdurdod, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau, gan ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol.

Ffurfiwyd **Grŵp Llywodraethu Corfforaethol** sy'n cynnwys swyddogion allweddol a 2 Aelod o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn darparu gwybodaeth a monitro'r camau a gymerir o ran materion sy'n effeithio ar Lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys y **Côd Llywodraethu Corfforaethol**, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mehefin 2012 a'i ddiweddaru

gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2016, ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Gwahoddir Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fel sylwedydd yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Côd Llywodraethu Corfforaethol yn cydnabod polisïau a phrosesau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / SOLACE **'Delivering Good Governance in Local Government**' (Nodiadau canllaw ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru Rhifyn 2016 - Cyhoeddwyd Medi 2016). Mae'r fframwaith hwn yn clustnodi 7 prif egwyddor llywodraethu da sy'n ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â gwahanol elfennau'r Fframwaith Llywodraethu.

## 3.2 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor yn credu mai Llywodraethu Corfforaethol yw "gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol." Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Awdurdod ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Awdurdod i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system Rheoli Mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg i lefel resymol. Ei nod yw clustnodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod. Mae'n asesu tebygolrwydd ac effaith y risgiau a glustnodwyd ac yn rheoli risgiau unigol yn briodol.

## 3.3 Yr Amgylchedd Llywodraethu

Mae Fframwaith Llywodraethu CIPFA/SOLACE yn pennu 7 egwyddor graidd ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. 'Saith egwyddor CIPFA' yw:

1. **Uniondeb a Gwerthoedd** - *Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith.*
2. **Bod yn Agored ac Ymgysylltu -** *Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid***.**
3. **Gwneud gwahaniaeth** - *Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy***.**
4. **Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud** - *Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl.*
5. **Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi** - *Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion.*
6. **Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid** - *Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref***.**
7. **Tryloywder ac atebolrwydd da** - *Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.*

Ers 2018/19 lluniodd y Cyngor Amcan Llesiant ynghylch Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau ac mae'r 7 egwyddor uchod yn is-benawdau yn y cynllun gweithredu.

Mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â'r 7 egwyddor graidd fel a ganlyn:

**3.3.1 <u>Uniondeb a Gwerthoedd</u>** - *Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith.*

**3.3.1.1 Y Pwyllgor Safonau**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n goruchwylio safonau ymddygiad yr Aelodau, yn trefnu hyfforddiant i Aelodau'r Cyngor ac i Aelodau'r Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned ynghylch y Côd Ymddygiad. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau am ollyngiadau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd lle bo Aelodau wedi nodi buddiannau personol neu ragfarnol yn y mater dan sylw. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ar weithgareddau'r Pwyllgor Safonau.

Ni chyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru unrhyw gwynion a oedd yn honni bod unrhyw un o Gynghorwyr Cyngor Sir Caerfyrddin wedi torri'r Côd Ymddygiad yn ystod 2020/21 at Banel Dyfarnu Cymru nac at y Pwyllgor Safonau.

Mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn goruchwylio'r Polisi a'r Weithdrefn Datgelu Camarfer.

**3.3.1.2 Gwerthoedd Craidd**

Cafodd Gwerthoedd Craidd y Cyngor eu sefydlu ar y cyd â'r staff, yr aelodau etholedig, yr uwch-reolwyr a'r undebau llafur. Maent yn rhoi sail i flaenoriaethau o ran y gwasanaeth ac yn ganllaw i ddatblygu gwasanaethau cynhwysol sy'n ymateb i anghenion cwsmeriaid, gan gefnogi a gwerthfawrogi ein staff ar yr un pryd. Mae ein gwerthoedd yn ategu ac yn arwain ein ffordd o weithio, ein ffordd o wella a'n ffordd o wneud penderfyniadau yn ein cymuned:

1. **Gweithio fel un tîm -** Rydym yn cydnabod y gallwn wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ar gyfer ein cymunedau drwy gydweithio a chreu cysylltiadau adeiladol.
2. **Canolbwyntio ar ein cwsmeriaid -** Rydym yn gweithio i wella bywydau pobl yn ein cymunedau a dyma ein pwyslais a'n prif ddiben.
3. **Gwrando er mwyn gwella -** Byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau, ein partneriaid a'n holl randdeiliaid ac yn gwrando arnynt i lywio ein cynlluniau gwella.
4. **Ymdrechu i ragori -** Byddwn yn wyliadwrus ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni hyd eithaf ein gallu a'n bod bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r hyn a wnawn**.**
5. **Ymddwyn ag Uniondeb -** Byddwn yn meddwl am yr hyn sy'n iawn i'w wneud wrth ystyried y dewisiadau mewn sefyllfa waith.
6. **Cymryd cyfrifoldeb personol -** Byddwn ni i gyd yn ystyried sut yr ydym yn cefnogi'r gwerthoedd hyn a'u rhoi ar waith er mwyn iddynt ategu ac arwain ein ffordd o weithio.

I ategu'r gwaith a wnaed ynghylch y Gwerthoedd Craidd rydym wedi cyflwyno cyfres o Safonau Ymddygiad ac wedi datblygu modiwl e-ddysgu sydd ar gael ar ‘Dysgu@Cymru’ yr Awdurdod. Mae'r modiwl hwn yn parhau i gael ei gyflwyno i'n holl staff er mwyn sicrhau bod ein Gwerthoedd Craidd yn cael eu sefydlu ym mhob rhan o'r Awdurdod.

**3.3.1.3 Y Cyfansoddiad**

Pan gafodd llywodraeth leol ei moderneiddio yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000, mabwysiadodd yr Awdurdod fath newydd ar Gyfansoddiad ar y ffurf a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ers hynny, mae’r cyfansoddiad hwnnw wedi’i adolygu’n rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion yr Awdurdod a’i reoleiddwyr o ran tryloywder y llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor. Yn ei hanfod, mae'r ddogfen yn egluro sut y mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y mae'n gwneud penderfyniadau. Mae 8 rhan i'r cyfansoddiad, sef:

1. *Crynodeb ac Eglurhad – golwg gyffredinol gryno ar y Cyngor a'i gyrff gwneud penderfyniadau.*
2. *Yr Erthyglau – disgrifiad manylach o'r Cyngor a'i rannau cyfansoddol.*
3. *Swyddogaethau/Pwerau Dirprwyedig - Mae'r rhan hon yn egluro pa aelodau sy'n gyfrifol am ba benderfyniadau. Nodir yn benodol a yw penderfyniadau'n rhai y caiff y Cyngor yn unig, neu'r Bwrdd Gweithredol yn unig, eu gwneud a nodir pa benderfyniadau a ddirprwywyd i swyddogion yn unol â Chynllun Dirprwyo.*
4. *Y Rheolau Gweithdrefn - yn cynnwys y rheolau ynghylch cynnal cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau (a elwir yn gyffredin yn **"Rheolau Sefydlog"**), y rheolau ynghylch trafodion y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu, y rheolau ynghylch mynediad i wybodaeth, **y Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, Rheolau'r Weithdrefn Ariannol a'r Rheolau Cyflogi Swyddogion.***
5. *Codau a Phrotocolau - Mae'r **Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau,** sy'n ddogfen statudol, ymhlith y Codau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhan hon. Yn hyn o beth, mae rheolau caeth iawn ynghylch ymddygiad aelodau o ran eu rôl yn Gynghorwyr a'u rôl o ran gwneud penderfyniadau. Yn benodol, os oes gan aelodau fuddiant personol a rhagfarnol mewn unrhyw fater a drafodir mewn cyfarfodydd mae'n rhaid iddynt ddatgelu'r buddiant a gadael y cyfarfod (oni bai iddynt gael gollyngiad i gymryd rhan yn y cyfarfod).*
6. *a) Cynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig. Mae hwn yn pennu Proffiliau Swyddi a Manylebau Person yr Aelodau, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau, ynghyd â nodi manylion y taliadau y mae gan yr aelodau hawl i'w derbyn. O ran taliadau i'r Aelodau, roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sef y corff a sefydlwyd i bennu taliadau Aelodau (a elwir bellach yn 'gyflogau') wedi defnyddio'i bwerau newydd, o 1af Ebrill 2012, i bennu'r union symiau a delir yn hytrach na phennu'r taliadau mwyaf y gellid eu gwneud. Diben y pennu hwn oedd sicrhau taliadau mwy cyson ledled Cymru.*
6. *b) Strwythurau Rheoli.*
7. *Enwau a Chyfeiriadau'r Cynghorwyr.*
8. *Aelodaeth Ddwyieithog y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau.*

Mae'r Cyfansoddiad yn ddogfen fyw ac mae'r Cyngor yn cael adroddiadau ynghylch newidiadau unigol iddo ac yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch fel y bo'r angen, ar ôl i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad eu hystyried.

Y newid mwyaf a wnaeth yr Awdurdod i'w Gyfansoddiad yn ystod 2020/21 oedd defnyddio'r hyblygrwydd a roddwyd i awdurdodau lleol yn ystod y pandemig COVID19 i gynnal eu cyfarfodydd ffurfiol yn gyfan gwbl ar-lein. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn mynychu Pwyllgorau Craffu. Disgwylir i Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol fynychu'r Pwyllgor(au) Craffu sy'n berthnasol i'w portffolios i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau.

### 3.3.1.4 Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol

Fel y nodir yn Adran 3.1, ffurfiwyd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i gydlynu trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, eu rheoli ac adrodd yn eu cylch. Roedd y Grŵp yn cynnwys:

- Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Adnoddau
- Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Rheolwr Busnes

- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (yn sylwedydd)
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151)
- Y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (Y Swyddog Monitro)
- Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
- Pennaeth TG a Pholisi Corfforaethol
- Rheolwr Polisi Corfforaethol
- Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)
- Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
- Rheolwr y Gwasanaethau Pobl
- Dirprwyon enwebedig a ganiateir

Mae'r Grŵp yn gyfrifol am ddiweddaru'r Côd Llywodraethu ac am lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i'w cymeradwyo gan:

- yr Arweinydd
- y Prif Weithredwr
- y Pwyllgor Archwilio yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Yn ogystal, mae'r Grŵp bellach yn goruchwylio gwaith y Grŵp Rheoli Gwybodaeth.

**3.3.1.5 Y Swyddog Monitro**

Mae'r Swyddog Monitro (Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith) yn gyfrifol am ddiweddaru'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf ac anghenion llywodraethu'r Awdurdod. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r darpariaethau ar bob lefel o weithgareddau'r Awdurdod. Yn Brif Swyddog Cyfreithiol, a chyda chefnogaeth y tîm cyfreithiol mewnol, caiff y Swyddog Monitro fynd i holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol a Thîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro mewn sefyllfa dda i fod yn flaenweithgar o ran helpu'r Aelodau a'r Swyddogion, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, i gydymffurfio â'r gyfraith a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun. Y Swyddog Monitro yw'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am yr Uned Gwasanaethau Democrataidd ac ef/hi hefyd sy'n gyfrifol am y cofnod swyddogol o'r broses benderfyniadau democrataidd, ac am ei gyhoeddi.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr fel Pennaeth y Gwasanaeth Taledig a'r Swyddog Adran 151 yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd yn adrodd i'r Cyngor neu i'r Bwrdd Gweithredol os bydd o'r farn y bydd unrhyw gynnig sydd gerbron yn arwain at dorri'r gyfraith.

Mae Rhwydwaith Cymru Gyfan o Swyddogion Monitro sy'n cwrdd bob tri mis i drafod pynciau amserol ac i rannu'r arfer gorau, ac mae'r Swyddog Monitro'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

**3.3.2** **<u>Bod yn agored ac ymgysylltu</u>** - *Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid.*

**3.3.2.1 Ymgynghori ac Ymgysylltu â Dinasyddion a Defnyddwyr Gwasanaethau**

Mae gan yr Awdurdod ddull sydd wedi'i sefydlu ers tro ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae nifer o grwpiau rhwydwaith yn cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau o'r fforwm ieuenctid i'r rhwydwaith heneiddio'n dda yn ogystal â fforymau yr ydym yn ymgysylltu â nhw i geisio barn y rhai â nodweddion gwarchodedig penodedig fel y'u cydnabyddir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei holl ymgyngoriadau cyfredol ar wefan y Cyngor

Hefyd mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd helaeth o ***Arolwg Cenedlaethol Cymru,*** sef arolwg blynyddol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y canlyniadau i helpu'r Awdurdod i hunanasesu ei wasanaethau ac maent yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweddarlledu holl gyfarfodydd y Cyngor Llawn er mis Mai 2013, cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio er mis Tachwedd 2014, a chyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol er mis Medi 2015. Ers mis Hydref 2020, mae’r Cyngor hefyd wedi bod yn gweddarlledu cyfarfodydd rhithwir ei Bwyllgorau Craffu.

Mae’r Awdurdod fel arfer yn ymgynghori’n helaeth ynghylch ei Gyllideb bob blwyddyn, sy’n cynnwys seminarau, digwyddiadau Golwg Sir Gâr ar gyfer pobl ifanc, arolygon ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol, a chyfarfodydd rhanddeiliaid â Chynghorau Tref a Chymuned ac Undebau. Roedd yn rhaid bwrw ymlaen â hyn mewn ffordd wahanol yn ystod 2020/21 o ganlyniad i gyhoeddi’r gyllideb yn hwyr a chyfyngiadau’r pandemig ond cafwyd sesiynau ymgynghori rhithwir ac arolwg ar-lein. Ystyrir canlyniadau'r ymgyngoriadau ac fe'u cyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Sir yn rhan o Adroddiad Strategaeth y Gyllideb.

#### 3.3.2.2 Ymdrin â chwynion

Mae gan yr Awdurdod ***Weithdrefn ar gyfer ymdrin â Chwynion a Chanmoliaeth gan Gwsmeriaid*** ac mae ystadegau a dadansoddiad o'r cwynion sydd wedi dod i law yn cael eu cyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau. Mae'r Weithdrefn Gwynion yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol Llywodraeth Cymru, a chafodd ei hadolygu a'i diwygio yn 2016/17.

Bydd Polisi Cwynion newydd yn disodli hyn yn 2021/22, sy’n seiliedig ar fodel Cymru-Gyfan ac wedi’i gyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Cwynion o dan bwerau a gynhwysir yn Adran 36 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Mae gan yr Awdurdod Dîm Cwynion canolog ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau sy'n sicrhau y cydymffurfir â’r gofynion a nodwn yn ein Gweithdrefn ac yn sicrhau cysondeb ar draws yr Awdurdod cyfan. Yn ystod 2017/18, cytunwyd y byddai Cwynion ynghylch Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael eu rheoli gan yr Adran Cymunedau.

Darperir adroddiadau blynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a darperir adroddiadau mwy manwl i'r adrannau pan fo'r angen, er mwyn monitro tueddiadau, clustnodi problemau a gwella gwasanaethau ar sail profiadau'r cwsmeriaid. Fodd bynnag, bydd y Polisi Cwynion newydd yn cyflwyno gofyniad manylach o ran adrodd.

Ymchwiliodd ac ymatebodd yr Awdurdod i 673 o gwynion yn ystod 2020/21 o gymharu â 912 yn ystod 2019/20 (mae'r ffigur uwch yn 2019/20 i'w briodoli'n bennaf i faterion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Gwastraff). Rhoddwyd sylw i 643 o geisiadau am gymorth ac ymholiadau eraill a ailgyfeiriwyd.

#### 3.3.2.3 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion y cyhoedd ynghylch ymddygiad Aelodau a chamweinyddu. Cyhoeddir ei adroddiad yn flynyddol.

Cyflwynir Adroddiadau Adran 16 yr Ombwdsmon (h.y. adroddiadau er budd y cyhoedd) i'r Cyngor Sir fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Ni chyflwynwyd unrhyw Adroddiadau Budd y Cyhoedd yn erbyn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn 2020/21.

#### 3.3.2.4 Sicrhau Cyfathrebu Allanol Effeithiol

Mae'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn yr Awdurdod yn hyrwyddo gwaith y Cyngor ac yn cefnogi ymgysylltu'n rhagweithiol ag aelodau'r cyhoedd, gan eu helpu i gael gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor.

Ar gyfartaledd, roedd 8,107 o bobl wedi ymweld â gwefan yr Awdurdod bob dydd yn 2020/21. Ers cyflwyno cyfrif Fy Hwb (am wasanaethau a thaliadau ar-lein), mae 78,163 o drigolion wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Derbyniwyd dros 4,000 math o adborth ar y system ar-lein sy'n ein galluogi i wella'r wefan yn barhaus ar sail awgrymiadau gan y cyhoedd a staff. Rydym yn ychwanegu mwy o wasanaethau ar-lein ac yn adolygu'r e-ffurflenni presennol i sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio.

Mae'r Hwb yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli yn cynnig apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a chyngor galw heibio i 8,000 o breswylwyr y mis ar gyfartaledd, yn ogystal â rhoi cyngor a mynediad i gymorth hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd yn rhaid bwrw ymlaen â hyn mewn ffordd wahanol yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau COVID19 a’r ffaith bod yn rhaid cau’r sefydliadau. Bu modd i gwsmeriaid gysylltu ar-lein a dros y ffôn, a chynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir. Mae'r defnydd cynyddol o'r Cyfryngau Cymdeithasol gyda mwy na 13,000 o ddilynwyr ar y brif dudalen Facebook ac oddeutu 9,500 yn dilyn ein prif gyfrif Twitter yn caniatáu ymgysylltu agored a sgyrsiau ag aelodau o'r cyhoedd. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ffordd wych o hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor.

Mae'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol a'r Timau Rheoli Adrannol i gynllunio cyfathrebu'n rhagweithiol, gan helpu meysydd gwasanaeth i ymgysylltu â'r bobl iawn, ar yr adeg iawn, yn y modd iawn.

**3.3.3** **Gwneud gwahaniaeth** - *Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy.*

#### 3.3.3.1 Y Pwrpas a'r Weledigaeth

Mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o gydweithio â phartneriaid allweddol ac mae'n aelod statudol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol ledled Sir Gaerfyrddin i weithredu ar y cyd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dasg o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.
www.ysirgaragarem.cymru

- Ym mis Mai 2018 cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gynllun Llesiant sy'n pennu ei amcanion lleol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
- Nid bwriad Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yw mynd i'r afael â'r gwasanaethau craidd a darpariaeth y partneriaid unigol, yn hytrach eu bwriad yw gwella ac ychwanegu gwerth drwy weithredu ar y cyd. Mae'n rhaid i bob un o bartneriaid statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub, a Chyfoeth Naturiol Cymru) gyhoeddi eu Hamcanion Llesiant eu hunain.

Ar gyfer 2018/19, lluniwyd Strategaeth Gorfforaethol Newydd a oedd yn cyfuno pedwar cynllun yn un.

- Fe'i cyflwynwyd yn lle Strategaeth Gorfforaethol 2015-20
- Roedd yn ymgorffori ein Hamcanion Gwella yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009
- Roedd yn pennu ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Am y tro cyntaf yng Nghymru, ceir gweledigaeth a rennir a set o nodau i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Bwriad ein Hamcanion Llesiant yw cyfrannu cymaint â phosibl at y rhain.
- Roedd yn cynnwys prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin am y 5 mlynedd nesaf, fel y nodir yn *'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'*

Rydym yn adolygu'r strategaeth, ei chynlluniau gwella a'r amcanion llesiant yn flynyddol ac yn sicrhau bod y cynlluniau gweithredu a'r targedau sy'n cefnogi'r amcanion yn gyfredol. Diweddarwyd y Strategaeth Gorfforaethol ym mis Mehefin 2019 ac, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, bydd hefyd yn cael ei diweddaru ym mis Ebrill 2021

### 3.3.3.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn ôl y gyfraith:-

i. Mae'n <u>rhaid</u> i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: ' ... *bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'*

ii. Mae'n <u>rhaid</u> i ni arddangos 5 ffordd o weithio:

- Tymor Hir
- Integredig
- Cynhwysol
- Cydweithredol
- Ataliol

iii. Mae'n <u>rhaid</u> i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus weithio tuag at y canlynol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i ni gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant, sy'n mwyhau ein cyfraniad i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol hyn.

Rhestr o Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin 2020/21:

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw
3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad pob dysgwr
4. Sicrhau bod pob person ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a'u bod yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfa cynhyrchiol
5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi
6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)
9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin
12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol
13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth
14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru
15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Cafodd ein Datganiad Llesiant Statudol ei gynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol Newydd. Mae hwn yn pennu ein trefniadau llywodraethu i gefnogi ein deilliannau cynlluniedig.

**Datganiad Llesiant**

i. Rydym yn teimlo bod ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni ein Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd ac yn rhoi sylw i lesiant mewn ffordd systematig.

ii. Mae'r Amcanion Llesiant hyn wedi deillio o adborth sylweddol yn sgil ymgynghori ac amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth gwahanol ynghylch angen, data perfformiad ac adborth rheoleiddiol. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn cynnwys pob math o bobl sydd â diddordeb yn eu cyflawni.

iii. Mae'r camau a gymerwn i gyflawni'r Amcanion Llesiant (ein cynlluniau gweithredu) yn ceisio sicrhau y defnyddir cymaint ag sy'n bosibl ar ddulliau tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol.

iv. Mae gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb penodol dros y Ddeddf yn gyffredinol. Hefyd bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n ddeiliad portffolio gyfrifoldeb dros Amcanion Llesiant/KIOP perthnasol.

v. I sicrhau ein bod yn cymryd y camau gweithredu hyn byddwn yn defnyddio ein dangosfwrdd System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), a ddatblygwyd yn fewnol. Caiff pob cynllun gweithredu ei fonitro ac adroddir yn ei gylch yn chwarterol i'r timau rheoli adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd adroddir ynghylch cynnydd i'r Pwyllgorau Craffu. Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol am ei Amcanion Llesiant ac yn diwygio'r amcanion os bydd angen.

vi. Caiff cynnwys y cynlluniau gweithredu, er mwyn cyflawni'r Amcanion Llesiant, ei ariannu'n ddigonol ac mae'n rhan annatod o fusnes Gwasanaethau. I gyflawni'r amcanion hyn bydd gwasanaethau yn 'uno' ac yn cydweithio, yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn cynnwys dinasyddion o bob math yn llawn.

vii. Mae ein hamcanion yn rhai tymor hir ond bydd ein cynlluniau gweithredu yn cynnwys cerrig milltir a fydd yn galluogi monitro a sicrhau cynnydd.

viii. I sicrhau bod modd cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac i gyrraedd disgwyliadau'r Ddeddf, byddwn yn addasu trefniadau craffu, cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, a rheoli perfformiad.

**Ble mae angen i newid ddigwydd mewn Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r Ddeddf yn nodi….. *'set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus (SPF1 Para. 47). Mae cymhwyso gofynion y Ddeddf i'r gweithgareddau hyn yn debygol o sicrhau'n fwyaf effeithiol y math o newid sy'n ofynnol'.*

1. Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaethau
2. Cynllunio Ariannol
3. Rheoli Asedau
4. Cynllunio'r Gweithlu
5. Caffael
6. Rheoli Risg
7. Rheoli Perfformiad

**3.3.3.3 Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd a'r Cynllun Pum Mlynedd**

Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 cafodd yr Arweinydd blaenorol ei ailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 24 Mai 2017.

Mae Gweinyddiaeth yr Awdurdod yn glymblaid rhwng Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol ac mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys 10 aelod, sef 7 sedd i Plaid a 3 sedd i'r Grŵp Annibynnol. Mae'r swydd Arweinydd yn cael ei rhoi i Plaid a'r swydd Dirprwy Arweinydd yn cael ei rhoi i'r Grŵp Annibynnol.

Ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol ei gynllun 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'. Mae'r cynllun yn nodi bron i 100 o gynlluniau, gwasanaethau neu brosiectau â blaenoriaeth y mae'r Bwrdd Gweithredol am eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod yn cynnwys y prosiectau a'r rhaglenni allweddol yn y cynllun hwn.

**3.3.4** <u>**Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud**</u> - *Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl.*

**3.3.4.1 Rheoli Perfformiad/Y Swyddogaeth Graffu**

Mae Amcanion Llesiant y Strategaeth Gorfforaethol yn nodi'r prif gamau a gymerir i gyflawni'r amcanion. Cefnogir y camau hyn gan gamau gweithredu manwl a thargedau a nodir yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaethau ac Adrannau. Caiff y camau gweithredu a'r targedau eu monitro ar System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) y Cyngor. Mae hyn yn galluogi swyddogion cyfrifol i ddiweddaru cynnydd bob chwarter a gall hyn gael ei fonitro a'i gymeradwyo gan Benaethiaid Gwasanaeth a'i adolygu gan Dimau Rheoli Adrannol. Bob chwarter, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn archwilio perfformiad ar 'Ddangosfyrddau'.

Mae’r pwyllgorau craffu yn cael adroddiadau Rheoli Perfformiad ddwywaith y flwyddyn (ar gyfer chwarter 1 a chwarter 3) yn ogystal â’r adroddiad diwedd blwyddyn. Caiff adroddiadau eu paratoi i ymateb i feysydd portffolio penodol pob pwyllor. Ceir adroddiadau perfformiad atodol a manylach ar absenoldeb salwch a llesiant yn chwarter 2 a chwarter 4.

Mae Dangosfyrddau PIMS yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddadansoddi gwybodeg o ran perfformiad meysydd gwasanaeth amrywiol.

Mae’r Awdurdod yn bartner yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau’r Cygnor yn cael Adroddiad Perfformiad Blynyddol gan Gadeirydd presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cofnodion cymeradwy cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau er mwyn iddo eu hystyried ac mae sylwadau'n cael eu cyflwyno yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3.3.5 <u>Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi</u>** - *Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion.*

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol Cymru ym mis Mai 2017, cafodd Cyngor Sir Caerfyrddin 30 o gynghorwyr sir newydd, ac mae pecyn hyfforddiant, datblygu a sefydlu cynhwysfawr yn cael ei ddarparu iddynt ac i aelodau sy'n dychwelyd. Caiff y rhaglen datblygu a hyfforddiant i'r Aelodau ei hadnewyddu bob blwyddyn.

**3.3.5.1 Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Pwyllgor statudol yw hwn ac iddo gylch gwaith sy'n cynnwys hybu a chefnogi llywodraethu da. Mae agwedd bwysig ar y nod hwnnw'n cael ei sicrhau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau a thrwy benodi Cadeirydd y Pwyllgor yn Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau.

**3.3.5.2 Rheoli ein Gweithlu**

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin tua 8,000 o weithwyr ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

Cefnogir ein staff gan yr Is-adran Rheoli Pobl, sy’n cynnal ystod o Bolisïau a Gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu rheoli’n deg ac mewn modd cyson. Mae'r Prif Bolisïau a Gweithdrefnau yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Recriwtio a Dethol Staff gan gynnwys recriwtio diogel
- Gweithdrefn Sefydlu
- Polisi Datgelu Camarfer
- Polisïau Achwyniadau a Disgyblu a Chanllawiau ynghylch Safonau Ymddygiad
- Côd Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion
- Polisi Ad-drefnu
- Strategaeth ar gyfer Pobl
- Polisi Tâl
- Polisi Gweithio Ystwyth

Caiff ein staff eu hannog i ddatblygu ac mae hyn yn gydnaws â’n hamcanion fel sefydliad a achredwyd gan gynllun ***Buddsoddwyr mewn Pobl***. Ategir datblygiad ein gweithlu gan y canlynol:

- Proses Arfarnu
- Strategaeth Dysgu a Datblygu
- Annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Cynllunio Gweithlu Effeithiol
- Strategaeth ar gyfer Pobl

Mae rheoli presenoldeb a chefnogi llesiant staff yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae fframwaith a pholisi cadarn ar waith o ran rheoli presenoldeb ac mae'r swyddogaeth Iechyd Galwedigaethol yn cynnig cymorth a chyngor ar lesiant gyda'r nod o gadw pobl mewn gwaith, rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch byw'n iach, rheoli straen ac iechyd meddwl yn y gweithle. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig COVID19, pan roddwyd mwy o gefnogaeth i staff drwy fentrau llesiant a pholisïau penodol ynghylch COVID19.

Yn dilyn gweithredu'r Cytundeb Statws Unffurf yn 2011/12, mae'r swyddogaeth Tâl a Buddion yn yr Is-adran Rheoli Pobl yn cadw golwg gyffredinol ar y strwythur cyflogau a graddau ac yn rhoi cyngor i reolwyr ynghylch gwerthuso swyddi a buddion yn ogystal â chynnal archwiliad cyflog cyfartal bob blwyddyn. Nid yw'r archwiliad diweddaraf yn awgrymu bod unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu yn y strwythurau cyflogau nac yn y lwfansau a dalwyd. Fel rheol, mae'r gwahaniaethau mewn cyflog yn ganlyniad i rannu'r rhywiau yn ôl y mathau o swyddi yn hytrach na gweithredu lwfansau.

Hefyd, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Polisi Tâl erbyn mis Ebrill bob blwyddyn, fel sy'n ofynnol dan Adran 38 o'r Ddeddf Lleoliaeth. Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio'r rhai sy'n gweithio yn ysgolion yr awdurdod lleol). Cytunir ar y Polisi Tâl gan y Cyngor Llawn a chaiff ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae’r Cyngor yn parhau i gefnogi ei weithwyr sy’n derbyn y tâl lleiaf drwy sicrhau y telir yr hyn sy’n cyfateb i gyfradd fesul awr y Living Wage Foundation.

Mae’r pandemig COVID19 wedi cyflymu symudiad at weithio ystwyth, yn enwedig gweithio gartref, a bwriedir i hyn lywio sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei weithlu yn y dyfodol drwy ffyrdd newydd o weithio. Yn benodol, mae’r Cyngor yn awyddus i gefnogi nod Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi 30% o’i weithlu i weithio gartref neu’n fwy ystwyth yn y dyfodol. Bydd hyn yn effeithio ar y gofynion o ran swyddfeydd ac yn cyfrannu at yr agenda amgylcheddol drwy leihau’r angen i deithio. Bydd Polisi Teithio’r Staff yn cael ei adolygu i adlewyrchu’r symudiad at ffyrdd newydd o weithio.

Mae ein Polisi Datgelu Camarfer yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr i roi gwybod am bryderon difrifol a allai fod er budd y cyhoedd. Mae dysgu ar-lein, hyrwyddo'r polisi a monitro cwynion datgelu camarfer yn parhau i sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol ohono. Bydd system sefydlu ar-lein yn rhoi'r wybodaeth hon i weithwyr newydd yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Cyflwynwyd hyn ddechrau 2020. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr bellach yn gallu cael gwybodaeth ar-lein bellach felly bydd rhoi gwybodaeth am y mathau hyn o bolisïau allweddol yn dod yn fwy cynhwysol wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r fewnrwyd ar-lein.

### 3.3.5.3 Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion

Mae'r Cynllun Dirprwyo yn rhestru'r penderfyniadau a ddirprwyir i swyddogion, boed hynny gan y Cyngor neu gan y Bwrdd Gweithredol. Wrth arfer y pwerau a ddirprwyir iddynt, rhaid i'r swyddogion gydymffurfio â'r gofynion statudol a Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor, ymysg gofynion eraill. Rhaid i unrhyw benderfyniadau arwyddocaol gael eu cofnodi a gallant gael eu 'galw i mewn'. Mae penderfyniadau gweithredol arwyddocaol gan swyddogion yn cael eu cyhoeddi.

Roedd y dirprwyaethau yn y Cyfansoddiad yn berthnasol iawn ddechrau 2020/21 pan oedd yn amhosibl cynnull cyfarfodydd wyneb yn wyneb ffurfiol yr Awdurdod oherwydd goblygiadau'r pandemig coronafeirws – pethau fel yr angen i wneud penderfyniadau'n gyflym a'r anallu i gydymffurfio â'r amserlenni statudol a bennwyd ar gyfer cynnull cyfarfodydd ffurfiol o'r aelodau, y rheolau a oedd yn gwahardd cynnal cyfarfodydd yn gyfan gwbl rithwir, yr angen i rai aelodau hunanwarchod a oedd yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau'r cworwm yr oedd ei angen ar gyfer cyfarfodydd, a'r neges i aros gartref – felly, roedd yn rhaid defnyddio'r dirprwyaethau brys yn y Cyfansoddiad i ganiatáu i swyddogion wneud rhai penderfyniadau hanfodol. Sicrhawyd bod y cyfnod hwn o wneud penderfyniadau dirprwyedig brys gan swyddogion mor fyr â phosibl, a chyn gynted ag y cafodd y rheolau ynghylch cynnal cyfarfodydd democrataidd eu llacio dros dro er mwyn caniatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn gyfan gwbl ar-lein, ailgydiodd yr Awdurdod mewn cyfarfodydd democrataidd, er bod hynny ar-lein. Cafodd y penderfyniadau a wnaed gan swyddogion yn ystod y cyfnod brys byr eu cyhoeddi.

**3.3.6** **<u>Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid</u>** - *Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.*

**3.3.6.1 Rheoli Risg**

Mae gan yr Awdurdod Grŵp Llywio Rheoli Risg sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol, i'r Pwyllgor Archwilio ac i Dîm Rheoli y Prif Swyddogion. Caiff y Grŵp Llywio Rheoli Risg ei gadeirio gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol. Ar y grŵp mae Aelod Penodedig Rheoli Risg sy'n Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau), a Swyddogion Penodedig Rheoli Risg Adrannol.

Nod yr Awdurdod yw sicrhau bod rheolaeth dda ar risg yn dod yn rhan annatod o'i holl brosesau. Mae adran benodol yn Adroddiadau'r Pwyllgorau ar gyfer trafod ac egluro unrhyw oblygiadau o safbwynt Rheoli Risg.

Caiff Risgiau Corfforaethol, Gwasanaethau a Phrosiectau eu cofnodi ar Gofrestr Risgiau. Rydym yn defnyddio ***"Meddalwedd ar y we ar gyfer Cofrestru Risgiau"***, sy'n caniatáu i adrannau fewnbynnu, cyrchu, diweddaru a rheoli gwybodaeth ynghylch Risgiau Gwasanaethau a Phrosiectau. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg yn ystod 2018/19, lle gwnaed cynigion ar gyfer gwelliant i gryfhau'r trefniadau sydd ar waith. Mae cynllun gweithredu wedi'i gwblhau i roi'r gwelliannau ar waith.

**3.3.6.2 Y Grŵp Llywio Rheoli Risg**

Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn archwilio'r modd y gellir datblygu Rheoli Risg a sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob tri mis ac yn cael ei gefnogi gan waith ei Is-grwpiau h.y. Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd, Risgiau'r Fflyd Gerbydau, a Chynlluniau Wrth Gefn.

**3.3.6.3 Pwyllgorau Craffu**

Mae'r Swyddogaeth Graffu yn chwarae rhan werthfawr iawn o ran sicrhau gwell perfformiad a herio. Mae'n amlwg fod y rôl Graffu o ran y "Grwpiau Gorchwyl a Gorffen" wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygu polisïau.

Mae gan yr Awdurdod system ddatblygedig iawn o reoli perfformiad. Mae'r Pwyllgorau Craffu'n cael adroddiad Chwarter 1 a Chwarter 3 ac Adroddiad Blynyddol am berfformiad, sy'n cynnwys diweddariad am yr holl Ddangosyddion Perfformiad a'r Camau Gweithredu Allweddol sydd yn y Strategaeth Corfforaethol.

Mae gan unrhyw 3 Aelod o’r Cyngor y grym cyfansoddiadol i 'alw i mewn' unrhyw benderfyniadau gweithredol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau swyddogaethol eu hunain, boed gan y Bwrdd Gweithredol cyfan neu gan aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol yn eu meysydd portffolio eu hunain. Er mwyn caniatáu 'galw i mewn', ni fydd unrhyw benderfyniad y mae'r Bwrdd Gweithredol neu Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ei wneud yn dod i rym tan 5 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad a'i ddosbarthu i’r Aelodau'r drwy e-bost.

Yn unol â'r fformiwla a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol 2011, Aelodau o'r Wrthblaid yw Cadeiryddion dau o bum Pwyllgor Craffu yr Awdurdod.

Ym mis Hydref 2020, diweddarodd yr Awdurdod Reolau’r Weithdrefn Graffu er mwyn newid rolau Aelodau’r Bwrdd Gweithredol mewn Pwyllgorau Craffu a’i gwneud yn ofynnol iddynt fynychu’r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau. Croesawyd y newid hwn gan Aelodau’r Bwrdd Gweithredol.

Eto, yn sgil y pandemig, mae cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu wedi cael eu gweddarlledu ers mis Tachwedd 2020.

**3.3.6.4 Gweinyddiaeth Ariannol (Swyddog Adran 151)**

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw’r swyddog sy’n gyfrifol am weinyddu busnes yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae’n gyffredinol gyfrifol am weinyddiaeth ariannol y Cyngor Sir.

Mae’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi cyhoeddi ***"Statement on the Role of the Chief Financial Officer in Local Government”***. Mae’r datganiad yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau’r Prif Swyddog Ariannol. Mae’n nodi 5 prif egwyddor (gweler isod) sy’n diffinio’r gweithgareddau craidd a’r ymddygiad sydd i'w disgwyl gan y Prif Swyddog Ariannol mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a’r trefniadau y mae angen eu gwneud i ategu’r rheini. Drwy benodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydymffurfio’n llwyr â’r Datganiad.

**Egwyddor 1** - Mae’r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol yn aelod allweddol o’r Tîm Arweinyddiaeth, gan ei helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth ac i ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion strategol yr Awdurdod a’u cyflawni, a hynny mewn modd cynaliadwy ac er budd y cyhoedd.
**Egwyddor 2** - Rhaid i’r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol ymwneud yn weithgar â’r holl benderfyniadau busnes o bwys, a gallu dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r goblygiadau, y cyfleoedd a'r risgiau sy’n bodoli nawr a’r rhai tymor hir, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strategaeth ariannol gyffredinol yr Awdurdod.
**Egwyddor 3** - Rhaid i’r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain gwaith yr Awdurdod cyfan o ran hyrwyddo a chyflawni rheolaeth ariannol dda er mwyn diogelu arian cyhoeddus bob amser a sicrhau y’i defnyddir yn briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
**Egwyddor 4** - Rhaid i’r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol arwain a chyfarwyddo swyddogaeth ariannol sydd â’r adnoddau i'w gwneud yn addas i’r pwrpas.
**Egwyddor 5** - Rhaid i’r Prif Swyddog Ariannol mewn Awdurdod Lleol feddu ar gymwysterau proffesiynol a phrofiad addas.

Mae Is-adran y Gwasanaethau Ariannol yn rhoi cymorth i Adrannau ac yn cydgysylltu a chefnogi’r broses ar gyfer paratoi’r gyllideb a monitro ariannol.

Yn ei waith, mae'r Awdurdod yn dilyn cyfres benodol o Reolau o ran Gweithdrefnau Ariannol a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau sy'n cael eu cynnal gan Adran y Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

**3.3.6.5 Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed**

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu a benodwyd yn statudol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cynnwys tri Aelod o'r Cyngor Sir ynghyd â dirprwy sydd wedi'i enwebu i wasanaethu yn absenoldeb Aelod. Mae'r cyfrifoldebau canlynol gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn:

- Adolygu perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed, penderfynu ar gyfeiriad strategol pob mater sy'n ymwneud â buddsoddi'r Gronfa a monitro pob agwedd ar y swyddogaeth fuddsoddi.
- Penderfynu ar faterion Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Yn ystod 2020/21 cafodd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn gefnogaeth gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Is-adran y Gwasanaethau Ariannol ac Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol oedd y Swyddog Adran 151.

Mae Polisi Llywodraethu'r Gronfa yn manylu ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau Lleol, a sefydlwyd yn 2015/16 o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, rôl oruchwylio neu graffu. Y bwriad yw iddo gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion a bennwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a chan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r telerau wedi cael eu hadolygu; bydd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn 2021/22.

Wedi i Lywodraeth Ei Mawrhydi gymeradwyo Cronfa Fuddsoddi Cymru ym mis Tachwedd 2016, ac yn sgil sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, cynhaliwyd proses gaffael helaeth i benodi Gweithredwr Trydydd Parti a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i reoli buddsoddiadau'r 8 Cronfa Bensiwn yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru benodi Link Asset Services yn weithredwr. Ers hynny, mae Link Asset Services wedi bod yn datblygu cynnig buddsoddi cychwynnol yr Is-gronfa Partneriaeth a'r cais Prosbectws i'w gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei ddewis fel Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol, ac i roi'r penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar waith.

Ar gyfer 2020/21 mae'r Awdurdod wedi llunio Datganiad Cyfrifon ar wahân ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed ac felly mae modd cael mwy o wybodaeth am lywodraethu a gweithgarwch y Gronfa a Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn y ddogfen hon.

**3.3.6.6 Y Fargen Ddinesig**

Ar 29 Awst 2018 llofnododd Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas a Sir Abertawe Gytundeb i Sefydlu Cyd-bwyllgor ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor ar 30 Awst 2018. Sir Gaerfyrddin yw'r Corff Atebol ar gyfer swyddogaeth y Fargen Ddinesig.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys arweinwyr y pedwar Awdurdod rhanbarthol ac un aelod cyfetholedig heb bleidlais yr un o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae Cyd-bwyllgor Craffu wedi'i ffurfio hefyd, ac mae'r swyddogaeth graffu'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Mae portffolio o naw rhaglen a phrosiect wedi'i gymeradwyo o dan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, ac mae tri ohonynt yn cael eu cyflawni'n rhanbarthol. O dan y portffolio, bydd Sir Gaerfyrddin yn cyflawni dwy raglen leol o fewn ei hardal gyfansoddol, sef Pentre Awel (y datblygiad Gwyddor Bywyd a Llesiant) ac Yr Egin (clwstwr creadigol a digidol), ac mae'r ddwy ohonynt wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r rhaglenni lleol, Sir Gaerfyrddin yw'r arweinydd cyflawni ar gyfer dwy raglen ranbarthol, sef y fenter Sgiliau a Thalentau a'r rhaglen Seilwaith Digidol. Bydd y rhain yn cael eu cyflawni ar y cyd â'r tri awdurdod cyfansoddol arall o dan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r rhaglen Seilwaith Digidol wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau yn mynd drwy strwythur llywodraethu'r Fargen Ddinesig er mwyn ei chyflwyno i'r llywodraethau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd Adolygiad Swyddog Cyfrifyddu o dan gyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu, fel y diffinnir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Roedd cwmpas yr adolygiad wedi'i gyfyngu i'r Achos Busnes Portffolio a gyflwynwyd a'i atodiadau, fersiwn 1.1, dyddiedig 20 Awst 2020. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i gyd-fynd â'r Model Pum Achos. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar yr Achos Busnes Portffolio, nid ar rannau cyfansoddol y portffolio a'u hachosion busnes cyfatebol.

Arweinydd yr achos busnes, a'r gwrthbarti ar gyfer yr adolygiad, oedd Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd yr Adolygiad yn safbwynt ar y cyd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ei llofnodi gan y llywodraethau a'r partneriaid rhanbarthol ym mis Mawrth 2017.

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi 15 argymhelliad lefel uchel. Bwriadwyd i'r rhain gryfhau'r Achos Busnes Portffolio, helpu i liniaru risgiau a gwella'r siawns y bydd prosiectau yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. O'r 15 argymhelliad, roedd 13 wedi'u cwblhau ar 31 Mawrth 2021, a bydd yr argymhellion sy'n weddill yn cael eu cyflawni gan Fwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru.

**3.3.6.7 ERW**

Y sefyllfa bresennol o ran Consortiwm ERW yw bod yr Awdurdod hwn (CSC) a thri awdurdod lleol arall, sef Sir Benfro, Powys ac Abertawe, wedi ymrwymo i ERW tan fis Medi 2021. Yn ogystal, mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymrwymo i ddarparu rhai gwasanaethau i ysgolion yng Ngheredigion a Chastell-nedd Port Talbot, sydd wedi tynnu'n ôl o'r Consortiwm yn ffurfiol.

Mae Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Sir Benfro yn datblygu Fframwaith Partneriaeth newydd a fydd yn cymryd lle ERW, a bydd y fframwaith hwn yn cyflawni'r dyheadau a'r amcanion a oedd yn cael eu darparu gan ERW gynt.

Gan y bydd y fframwaith yn cynnwys tri awdurdod lleol, nid chwech, mae'n bosibl iawn y bydd costau dileu swyddi sylweddol (mae 44 aelod o staff yn gweithio i ERW ar hyn o bryd), er y gobeithir y bydd dros hanner y nifer hwn yn cael eu hadleoli o fewn y trefniant cydweithredol newydd, ac y bydd nifer bach sydd ar secondiad ar hyn o bryd yn dychwelyd i'w swyddi parhaol. Amcangyfrifir y bydd y costau dileu swyddi posibl oddeutu £1.4 miliwn, a byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu gan chwe aelod gwreiddiol ERW.

**3.3.7** **<u>Tryloywder ac atebolrwydd da</u>** *Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol*

**3.3.7.1 Y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Safonau a Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol ac mae’r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol.

Mae'r Pwyllgor Safonau (y mae mwyafrif ei aelodau yn Aelodau Allanol) yn hybu safonau uchel o ymddygiad ar gyfer Aelodau yn ogystal â chadw golwg gyffredinol ar y prosesau sydd gan yr Awdurdod i ymdrin â chwynion a'i weithdrefn Datgelu Camarfer.

Hefyd mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (5 Aelod Etholedig) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd penodedig statudol. Mae cylch gwaith y Pwyllgor, fel y'i pennwyd gan yr Awdurdod, yn cynnwys sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'r Aelodau, penodi Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau, a hybu a chefnogi llywodraethu da.

Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi cael adroddiad ar y newidiadau yn y dyfodol sy’n effeithio’r pwyllgor, yn unol â’r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**3.3.7.2 Archwilio Mewnol**

Mae’r adolygiad o effeithiolrwydd y system Rheoli Mewnol a’r trefniadau Llywodraethu yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, sy’n rhoi sicrwydd i’r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflawni ei waith yn unol â'r safonau a nodwyd yn ***Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)*** a sefydlwyd yn 2013. Y rhain yw'r safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn llunio adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried. Mae fformat yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â gofynion y Côd Ymarfer.

*Y farn gyffredinol yw bod yr Awdurdod yn gweithredu amgylchedd rheoli 'Derbyniol'. Ceir trefniadau Llywodraethu clir sydd â chyfrifoldebau Rheoli a Strwythurau Pwyllgorau pendant ar waith. Mae Rheoli Risg a'r fframwaith rheoli yn gadarn ar y cyfan ac yn cael eu gweithredu'n eithaf cyson. Mae gan yr Awdurdod Gyfansoddiad sefydledig, ac mae wedi datblygu Polisïau a chymeradwyo Rheolau Gweithdrefn Ariannol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl staff ac aelodau. Mae gwaith sicrwydd digonol wedi ei gyflawni i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod. Lle bo gwendidau wedi eu clustnodi drwy adolygiadau, mae Archwilio Mewnol wedi gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau unioni priodol ac amserlen ar gyfer gwella.*

Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol effeithiol. Caiff y ***Cynlluniau Archwilio Strategol a Blynyddol*** eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn a rhoddir adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio drwy’r flwyddyn ynghylch y cynnydd a wnaed ac unrhyw wendidau sylweddol a glustnodwyd.

Mae’r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, yn ogystal â bod yn gyfrifol am ddarparu’r Gwasanaethau Archwilio Mewnol, yn gyfrifol am reolaeth weithredol Refeniw a Budd-daliadau, a Risg a Chaffael. Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn yr adolygiadau archwilio ar gyfer y meysydd gweithredol, mae protocol wedi'i baratoi ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2018.

Daeth y Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym o 1 Ebrill 2013 gan ei gwneud yn ofynnol i asesiad allanol gael ei gynnal ynghylch pob gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'n rhaid i'r asesiad hwnnw gael ei wneud gan adolygydd annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Roedd y ddau ddull posibl o gynnal asesiadau allanol a amlinellwyd yn y Safonau yn cynnwys naill ai asesiad allanol llawn neu hunanasesiad mewnol sy'n cael ei ddilysu gan adolygydd allanol. Dewisodd Cyngor Sir Caerfyrddin fabwysiadu'r dull hunanasesu a gaiff ei ddilysu gan aseswr allanol profiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas a'r wybodaeth angenrheidiol o ran rhoi'r PSIAS ar waith, fel y cytunwyd â Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Diben yr asesiad allanol yw helpu i wella'r modd y darperir y gwasanaeth archwilio i sefydliad. Bwriedir i'r asesiad fod yn broses gefnogol sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu ac sy'n helpu i wella gwerth y swyddogaeth archwilio i'r Awdurdod yn y pen draw. Daeth yr hunanasesiad a'r asesiad allanol i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol.

Yn ogystal â’r gwaith a gynlluniwyd, mae'r Uned Archwilio Mewnol yn ymchwilio i dwyll ac yn rhagweithio i ganfod twyll.

Mae ymatebion o ran y cynllun gweithredu i adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu mewnbynnu ar System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad y Cyngor (PIMS) ac mae'r cynnydd yn cael ei ddiweddaru bob chwarter gan swyddogion cyfrifol.

### 3.3.7.3 Rheoleiddwyr Allanol

Mae'r gwasanaethau yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gan reoleiddwyr allanol, megis Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru gynt). Mae'r adroddiadau dilynol yn cael sylw yn unol â hynny.

Bob blwyddyn, mae Archwilio Cymru, sef Archwilydd Allanol yr Awdurdod, yn gwneud gwaith i gyflawni’r dyletswyddau canlynol:

- **Archwilio Cyfrifon** Bob blwyddyn, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- **Gwerth am arian** Mae’n rhaid i’r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae’n eu defnyddio, ac mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- **Gwelliant parhaus** Mae’n rhaid i’r Cyngor hefyd roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw’r Cyngor yn debygol o gyflawni’r gofynion hyn (neu a yw wedi eu cyflawni).
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy** Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Rydym hefyd yn cynnal cofnod o adroddiadau rheoleiddiol ac argymhellion. Mae'r argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella mewn adolygiadau rheoleiddiol allanol yn cael eu cofnodi yn System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad y Cyngor a rhoddir adroddiad ar gynnydd bob chwarter ar y dangosfyrddau. Rhoddir Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio.

Rhoddodd Archwilio Cymru dystysgrif cydymffurfio am ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 o dan Fesur 2009.

**3.3.7.4 Asedau Gwybodaeth**

Pennaeth y Gwasanaethau TGCh a Pholisi y Cyngor yw ***Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr Awdurdod***. Mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth yr Awdurdod a'i chadw'n ddiogel. Darperir cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w hystyried i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Mae amryw o fesurau diogelu ar waith i warchod rhag colli neu ryddhau gwybodaeth bersonol. Mae'r mesurau diogelu hyn yn cynnwys gweithdrefnau a pholisïau perthnasol sy'n cael eu rhannu â staff, amgryptio gliniaduron, cyfryngau storio cofau a dyfeisiau eraill. Mae'r Awdurdod yn cyflogi:

- Swyddog Diogelwch Digidol sy'n cynghori ynghylch diogelu data. Hefyd cyflogir swyddogion ymgynghorol ac ymgynghorwyr allanol o bryd i'w gilydd i brofi trefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch.
- Swyddog Diogelu Data sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y cydymffurfir â hwy.

Caiff y mesurau diogelu hyn eu hadolygu'n barhaus ac maent yn cynnwys atebion technegol ynghyd â hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â thrin data personol ynghylch gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

**3.3.7.5 Adolygu Effeithiolrwydd**

Cynhelir adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd ein trefniadau Llywodraethu (gan gynnwys y system Rheoli Mewnol) a hynny gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol drwy ei waith. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys her barhaus y fframwaith llywodraethu. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw'r fframwaith a ddefnyddir i geisio'r sicrwydd hwn, drwy fonitro'r camau gweithredu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus.

Mae'r adolygiad yn cael gwybodaeth i'w lywio gan reolwyr yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a hefyd gan sylwadau'r Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru).

Er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r fframwaith llywodraethu gofynnir am dystiolaeth a datganiadau sicrwydd gan y canlynol:

- Y Cyngor
- Yr Arweinyddiaeth / Y Bwrdd Gweithredol
- Aelodau'r Bwrdd Gweithredol
- Y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
- Y Pwyllgor Archwilio / y Pwyllgorau Craffu / y Grŵp Llywio Rheoli Risg
- Y Pwyllgor Safonau
- Archwilio Mewnol
- Archwilio Allanol

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**3.3.7.6 Y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn cwrdd - ar-lein yn ystod cyfnod y pandemig - bob mis ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch swyddogaethau'r Cyngor. Cyhoeddir ei agendâu o leiaf 3 diwrnod cyfan cyn y cyfarfodydd, ac mae ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd (yn amodol ar eithriadau) ac yn cael eu gweddarlledu. Cyhoeddir ei gofnodion ac maent ar gael i'r cyhoedd. Mae grŵp ffyrdd newydd o weithio wedi'i sefydlu i adolygu'r ffordd ymlaen.

Ers 1 Medi 2019 mae holl gyfarfodydd democrataidd yr Awdurdod yn ddi-bapur.

**3.3.7.7 Yr Arweinyddiaeth / Y Bwrdd Gweithredol**

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau ynghylch swyddogaethau'r weithrediaeth o fewn y fframwaith polisi a chyllideb a bennir gan y Cyngor. Cyhoeddir yr Agenda o leiaf 3 diwrnod cyfan cyn ei gyfarfodydd ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus (yn amodol ar eithriadau statudol) ac yn cael eu gweddarlledu. Cyhoeddir ei gofnodion a gall ei benderfyniadau gael eu 'galw i mewn' gan unrhyw 3 Aelod o'r Cyngor (gweler paragraff 3.3.6.3).

Mae'r Awdurdod fel arfer yn cwrdd â'r Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned ddwywaith y flwyddyn mewn Fforwm ffurfiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID19, cynhaliwyd un cyfarfod rhithwir yn 2020/21 fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch pennu'r gyllideb.

Yn ystod 2019/20 cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Gweithredol bach newydd, sef 10 plentyn ysgol lleol a fyddai'n cysgodi eu cymheiriaid "hŷn". Nod y fenter oedd sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol gyfleoedd gwaith da, cymunedau cefnogol, a lleoedd gwych i'w mwynhau wrth iddynt ddod yn oedolion a magu eu teuluoedd eu hunain.

**3.3.7.8 Aelodau'r Bwrdd Gweithredol**

Mae gan Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol bwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u meysydd portffolio eu hunain. Cyhoeddir eu penderfyniadau a gallant gael eu 'galw i mewn' gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol (gweler paragraff 3.3.6.3).

**3.3.7.9 Y Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd annibynnol i'r Awdurdod ynghylch pa mor effeithiol yw'r Rheoli Mewnol a'r Fframwaith Rheoli Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol hefyd am gymeradwyo Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod.

O dan ***Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2011*** mae'n orfodol fod gan Awdurdodau Lleol Bwyllgor Archwilio. Yn ôl y Mesur mae'n rhaid cael Aelod Allanol annibynnol â Phleidlais ar y Pwyllgor Archwilio.

Mae Proffiliau Swyddi ar gael ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn Aelod o Grŵp yr Wrthblaid. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021 ac mae Pennod 2 o'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i enw, aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Archwilio. Mae'r newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio wedi'u rhannu a byddant yn dod i rym fel a ganlyn.

Mae'r newid o ran ailenwi Pwyllgorau Archwilio yn dod i rym ar 1af Ebrill 2021. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer ailenwi Pwyllgorau Archwilio yn 'Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio' ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol, sef y swyddogaethau hynny a nodir ym Mhennod 1 o Ran 6 y Ddeddf ac:

(a) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
(b) llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol

Bydd newidiadau pellach yn dod i rym ar 5ed Mai 2022 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn bersonau lleyg ac i berson lleyg gael ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor. Bydd trefniadau ar gyfer penodi'r aelodau lleyg yn cael eu gwneud yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bydd y newidiadau angenrheidiol i gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu gwneud yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 19eg Mai 2021 ac eto yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

## 3.4 Llywodraethu Corfforaethol yn ystod Pandemig COVID19

Fel arfer, mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Bwrdd Gweithredol, Aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol a phwyllgorau eraill, i wneud penderfyniadau allweddol. Er bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi darparu ar gyfer mynychu cyfarfodydd o'r fath o bell, roedd yn ofynnol i o leiaf 30% o'r aelodau fod yn bresennol yn bersonol yn y cyfarfod. Cafodd y gofyniad hwn ei lacio gan Reoliadau ym mis Mai 2020, pan ellid cynnal cyfarfodydd yn gyfan gwbl ar-lein.

Felly, roedd yn rhaid rhoi trefniadau brys ar waith er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym hyd nes y deddfwyd ynghylch llacio'r gofynion. Ar 18fed Mawrth 2020, penderfynwyd atal y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd democrataidd er mwyn diogelu'r aelodau a'r staff ac ar 19eg Mawrth 2020 penderfynwyd cau holl adeiladau'r Cyngor i'r cyhoedd am yr un rheswm. Yn dilyn y cyhoeddiad gan y Prif Weinidog am y cyfyngiadau symud ledled y wlad ar 23ain Mawrth 2020, cafodd pob cyfarfod democrataidd arall ei atal.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, yn sgil y pandemig cynyddol mabwysiadodd uwch-swyddogion yr awdurdod y strwythur Rheoli Aur/Arian ar 12fed Mawrth 2020 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Yn absenoldeb unrhyw gyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Llawn, mae'r uwch-swyddogion wedi arfer y pwerau a roddwyd iddynt yn Rhan 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cynllun Dirprwyo i Swyddogion) o dan adran 100G o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wneud y penderfyniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad y Cyngor a'i ymateb i'r pandemig.

Mae'r pwerau dirprwyedig hyn yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys penderfyniadau gweithredol a wneir gan yr awdurdod o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r cynllun dirprwyo hefyd yn nodi bod gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr y pŵer i wneud y canlynol:

"Penderfynu ar unrhyw fater brys yn y meysydd sydd dan ofal y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu unrhyw bwyllgor lle mae'n anymarferol galw cyfarfod o'r corff hwnnw i ystyried y mater."

Gan nad oedd yn ymarferol cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn a'r Bwrdd Gweithredol oherwydd y pandemig parhaus defnyddiwyd y pwerau hyn i wneud unrhyw benderfyniadau brys angenrheidiol sydd y tu allan i awdurdod dirprwyedig arferol swyddogion. Mae

cofnodion wedi'u cadw o benderfyniadau brys a wnaed dan y pwerau hyn, ac yn dilyn newid mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n caniatáu cyfarfodydd democrataidd rhithwir, adroddwyd ynghylch y rhain yng nghyfarfod rhithwir y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 1af Mehefin 2020. Mae cyfarfodydd o bell wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac ailgychwynnodd y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2020 a'r Pwyllgorau Craffu o fis Tachwedd 2020 ymlaen. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i gyfarfodydd o bell barhau.

Mae'r gofyniad i weithio gartref yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud wedi'i alluogi gan alluoedd TGCh presennol, ond yn anorfod mae hyn wedi golygu rhai newidiadau i arferion gweithio, dulliau rheoli a dulliau awdurdodi. Mae'r rhain wedi'u gwneud gyda chymeradwyaeth yr uwch-reolwr perthnasol neu'r cyfarwyddwyr a drwy ymgynghori/cyngor gan yr archwilwyr mewnol lle bo'n briodol. Cafodd yr archwilwyr mewnol eu hadleoli yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud gan nad oedd y tîm yn gallu dechrau'r rhaglen waith flynyddol oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Cafodd y rhaglen ei hailgynllunio er mwyn cael sicrwydd rheoli o bell ac ailddechreuodd yn ystod yr haf.

Yn ystod 2020/21, hawliodd yr Awdurdod dros £30 miliwn oddi wrth gynllun caledi Llywodraeth Cymru, a oedd yn talu costau cynyddol darparu gwasanaethau craidd, darparu gwasanaethau newydd a cholli incwm yn sgil cau gwasanaethau masnachol. Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch llwybr y pandemig yn y dyfodol, ond mae dyraniad cyllid caledi cychwynnol o £206.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru wedi darparu mesur lliniaru ariannol yn hyn o beth. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-2024 yn cynnwys trefniadau wrth gefn a mesurau lliniaru penodol, gan gynnwys yn arbennig cyflwyno arbedion arfaethedig yn y gyllideb yn raddol, mewn modd diwygiedig a realistig, yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol.

Fel yr oedd yr achos flwyddyn yn ôl, oherwydd ymateb parhaus y cyngor i'r pandemig ac argaeledd swyddogion o ganlyniad i hynny, mae paratoi'r datganiad hwn o gyfrifon wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond mae'r prosesau dan sylw wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Mae adolygiadau wyneb yn wyneb wedi cael eu disodli gan gyfarfodydd rhithwir ac mae ffeiliau electronig a thechnoleg rhannu sgrin wedi disodli dogfennau ffisegol lle bo angen.

### 3.5 Materion llywodraethu i fynd i'r afael â hwy

Mae angen ystyried a mynd i'r afael â'r materion Llywodraethu ychwanegol canlynol yn ystod y 12 mis nesaf:

**Ar gyfer 2021/22**

- Adolygu Polisi Teithio'r Staff
- Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
- Datblygu trefniadau llywodraethu ynghylch y ffyrdd gwell o weithio pan fydd y cynllun ar waith – i swyddogion
- Datblygu trefniadau llywodraethu ynghylch y ffyrdd gwell o weithio pan fydd y cynllun ar waith – i Aelodau
- Recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor Archwilio

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau Llywodraethu ymhellach. Yn Atodiad 2, atodwyd Cynllun Gweithredu yn crynhoi'r Camau Gweithredu uchod, y Swyddogion Cyfrifol a'r Dyddiadau Targed. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a byddwn yn monitro'r modd y cânt eu rhoi ar waith a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Cymeradwywyd** **28 Mehefin 2021**

**Arweinydd y Cyngor**

**Y Prif Weithredwr**

**ATODIAD 1**

| *Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FATERION LLYWODRAETHU Y MAE ANGEN RHOI SYLW IDDYNT A NODWYD MEWN DATGANIADAU LLYWODRAETHU BLYNYDDOL BLAENOROL* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y FFYN-HONELL** | **Y MATERION** | **Y SWYDDOG CYFRIFOL** | **Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD** | | **STATWS** |
| DLIB 2017/18 Rhif 6 | Monitro a gwerthuso camau gweithredu ffrwd gwaith/Grŵp y Strategaeth ar gyfer Pobl sy'n ymwneud ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru o ran Rheoli Perfformiad Pobl. | Y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Rheoli Pobl | Mawrth 2020 | Atgyfnerthu dysgu a symud ymlaen. Mae Bwrdd Llywodraethu'r Strategaeth ar gyfer Pobl wedi cyfarfod drwy COVID19, ond mae angen ailwerthuso'r ffordd ymlaen. | Ar waith |
| DLIB 2017/18 Rhif 8 | Diweddaru'r Côd Llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau CIPFA a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | Mawrth 2019 | Trafodwyd y drafft yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ar 4 Rhagfyr 2020, a chymeradwy-wyd y drafft diwygiedig yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ym mis Chwefror 2021 | I'w gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Ebrill 2021 |
| DLIB 2018/19 Rhif 6 | Adolygu'r gwiriadau hawl i weithio ac effaith y broses fewnfudo newydd yn sgil Brexit o ran y broses recriwtio. | Y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Rheoli Pobl | Mawrth 2020 | Gweithredir y broses bontio ar hyn o bryd a chynhelir gwiriadau hawl i weithio yn unol â'r canllawiau presennol a byddant yn cael eu diweddaru i adlewyrchu canllawiau yn y dyfodol. Adnewyddwyd y drwydded nawdd mewnfudo. | Ar waith |
| DLIB 2019/20 Rhif 5 | Ystyried goblygiadau gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Yr holl swyddogion corfforaethol | Mawrth 2021 | Ar waith | Mawrth 2021 |
| DLIB 2019/20 Rhif 6 | Monitro cynnyrch prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Yr Egin | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol / Pennaeth Adfywio | Mawrth 2021 | Ar waith – Llofnodwyd cytundeb cyllido ym mis Mawrth 2021 | Cwblhawyd |

| *Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FATERION LLYWODRAETHU Y MAE ANGEN RHOI SYLW IDDYNT A NODWYD MEWN DATGANIADAU LLYWODRAETHU BLYNYDDOL BLAENOROL* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y FFYN-HONELL** | **Y MATERION** | **Y SWYDDOG CYFRIFOL** | **Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD** | | **STATWS** |
| DLIB 2019/20 Rhif 7 | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i asesu'r defnydd o adnoddau a'r effaith gyda phartneriaid i gyflawni'r prosiect Llesiant. | Pennaeth Adfywio / Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol | Mawrth 2021 | Ar waith | Mawrth 2021 |
| DLIB 2019/20 Rhif 8 | Sicrhau bod Polisïau Cyflogaeth yn adlewyrchu unrhyw ddeddfwriaeth newydd fel y cap taliad ymadael, adennill taliadau ymadael ac ati | Rheolwr Gwasanaethau Pobl | Mawrth 2021 | Ar waith – Ar 12/2/21 diddymodd Llywodraeth y DU ddarpariaethau'r cap taliad ymadael. Rydym yn disgwyl deddfwriaeth newydd a byddwn yn diweddaru'r polisïau yn unol â hynny. | 2021/22 |
| DLIB 2019/20 Rhif 9 | Cyhoeddi Polisi Tâl yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth | Rheolwr Gwasanaethau Pobl | Mawrth 2021 | Yn unol â'r targed, y polisi drafft i'w ystyried gan y Panel Ymgynghorol ynghylch y Polisi Tâl ar 19/2/21 – cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2021 | Cwblhawyd |
| DLIB 2019/20 Rhif 13 | Gweithredu newidiadau pwrpasol o ran trefniadau llywodraethu Cwmnïau'r Awdurdod Lleol mewn ymateb i'r Adroddiad Adolygiad Llywodraethu | Tîm Rheoli Corfforaethol | Mehefin 2021 | Y gwersi a ddysgwyd yn cael eu crynhoi, er mwyn adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn eu cylch. | Mehefin 2021 |

**ATODIAD 2**

| Y CYNLLUN GWEITHREDU – MATERION LLYWODRAETHU | | | |
|---|---|---|---|
| | **Y MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLIB) ELENI** | | |
| **CYF. Y MATER** | **Y CAMAU GWEITHREDU** | **Y SWYDDOG CYFRIFOL** | **Y DYDDIAD TARGED** |
| DLIB 2020/21 Rhif 1 | Adolygu Polisi Teithio'r Staff | Rheolwr Gwasanaethau Pobl | Ebrill / Mai 2021 |
| DLIB 2020/21 Rhif 2 | Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | Mai 2022 |
| DLIB 2020/21 Rhif 3 | Datblygu trefniadau llywodraethu ynghylch y ffyrdd gwell o weithio pan fydd y cynllun ar waith – i swyddogion | Cadeirydd y Grŵp Strategol Ffyrdd Gwell o Weithio | 2021/22 |
| DLIB 2020/21 Rhif 4 | Datblygu trefniadau llywodraethu ynghylch y ffyrdd gwell o weithio pan fydd y cynllun ar waith – i Aelodau | Cadeirydd y Grŵp Strategol Ffyrdd Gwell o Weithio / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | 2021/22 |
| DLIB 2020/21 Rhif 5 | Recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor Archwilio | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol / Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | 2021/22 |

## 5 DATGANIADAU CYLLIDOL

Mae'r datganiadau cyllidol yn cynnwys y canlynol:

### 5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yn dangos sut mae'r gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti a'r dreth gyngor) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Hefyd mae'n dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu rhwng adrannau'r Cyngor at ddibenion gwneud penderfyniadau. Caiff incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o'r trethiant. Bydd Awdurdodau yn codi'r trethiant i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau: gallai hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd.

### 5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Maen nhw wedi'u dadansoddi yn ôl 'cronfeydd defnyddiadwy' (hynny yw cronfeydd y gellir eu defnyddio ar gyfer gwariant neu i leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae symudiadau blwyddyn cronfeydd yr Awdurdod wedi'u rhannu'n enillion a cholledion yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sydd eu hangen i ddychwelyd y cyfrifon i'r symiau oedd yn daladwy i'r dreth gyngor a rhenti preswylfeydd am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos Balans statudol Cronfa'r Cyngor a symudiadau Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

### 5.4 Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sydd gan yr Awdurdod ar ddyddiad y fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (hynny yw, yr asedau namyn y rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Mae dau ddosbarth o gronfeydd. Y dosbarth cyntaf yw'r cronfeydd defnyddiadwy, hynny yw, y cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae angen bod yn ddarbodus wrth dynnu o'r cronfeydd a thalu sylw i unrhyw gyfyngiadau statudol ar y defnydd sydd i'w wneud ohonynt (ee y Cronfeydd Cyfalaf na cheir eu defnyddio ond ar gyfer gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yn yr ail ddosbarth mae'r cronfeydd hynny *na* all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Yn eu plith mae cronfeydd sydd ag enillion neu golledion ar bapur yn unig (ee y Gronfa Ailbrisiad), lle byddai'r symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau pe byddai'r asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd sydd â'r gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau' yn y Datganiad Symudiadau yng Nghronfeydd yr Awdurdod.

### 5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod ac arian cyfwerth yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian ac adnoddau cyfwerth ag arian drwy ddosbarthu'r llif arian yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu.

## 5.1 DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

**Y gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg Cronfa'r Cyngor (CC) a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a (Gwarged)/Diffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

| **2020-21** | **Gwariant Net a chodir ar y CC a'r CRT £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000** |
|---|---|---|---|
| **Adran** | | | |
| Prif Weithredwr | 5,297 | 8,036 | 13,333 |
| Addysg a Phlant | 145,266 | 23,887 | 169,153 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 19,570 | (445) | 19,125 |
| Cymunedau | 96,719 | 10,981 | 107,700 |
| Amgylchedd | 47,835 | 7,733 | 55,568 |
| Cyfrif Refeniw Tai | (12,664) | (20,280) | (32,944) |
| Yswiriant a Chorfforaethol | 3,048 | (2,523) | 525 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | 305,071 | 27,389 | 332,460 |
| Incwm a Gwariant Arall | (336,531) | (58,762) | (395,293) |
| **(Gwarged)/Diffyg cyn trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **(31,460)** | **(31,373)** | **(62,833)** |
| Trosglwyddiadau i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd | 32,455 | | |
| **(Gwarged)/Diffyg ar ôl trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **995** | | |
| Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2020: | (32,473) | | |
| (Gwarged)/Diffyg | 995 | | |
| Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2021: | **(31,478)** | | |
| **2019-20** | | | |
| **Adran** | | | |
| Prif Weithredwr | 6,865 | 7,825 | 14,690 |
| Addysg a Phlant | 148,339 | 40,273 | 188,612 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 19,392 | 5,675 | 25,067 |
| Cymunedau | 96,050 | 11,362 | 107,412 |
| Amgylchedd | 47,868 | 10,283 | 58,151 |
| Cyfrif Refeniw Tai | (21,187) | 17,821 | (3,366) |
| Yswiriant a Chorfforaethol | 3,685 | (2,934) | 751 |
| **Cost Net y Gwasanaethau** | 301,012 | 90,305 | 391,317 |
| Incwm a Gwariant Arall | (314,889) | (33,341) | (348,230) |
| **(Gwarged)/Diffyg cyn trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **(13,877)** | **56,964** | **43,087** |
| Trosglwyddiadau i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd | 6,094 | | |
| **(Gwarged)/Diffyg ar ôl trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **(7,783)** | | |
| Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2019: | (24,690) | | |
| (Gwarged)/Diffyg | (7,783) | | |
| Balans CC a CRT ar 31ain Mawrth 2020: | **(32,473)** | | |

Gweler nodyn 6.5 i gael Esboniad o'r addasiadau rhwng gwariant net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 5.2 Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

| 2019-20 Cyfanswm y Gwariant Gros £'000 | 2019-20 Cyfanswm yr Incwm Gros £'000 | 2019-20 Cyfanswm y Gwariant Net £'000 | | | 2020-21 Cyfanswm y Gwariant Gros £'000 | 2020-21 Cyfanswm yr Incwm Gros £'000 | 2020-21 Cyfanswm y Gwariant Net £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Adran** | | | | |
| 23,882 | (9,192) | 14,690 | Prif Weithredwr | | 23,780 | (10,447) | 13,333 |
| 235,061 | (46,449) | 188,612 | Addysg a Phlant | | 221,134 | (51,981) | 169,153 |
| 73,435 | (48,368) | 25,067 | Gwasanaethau Corfforaethol | | 64,153 | (45,028) | 19,125 |
| 174,877 | (67,465) | 107,412 | Cymunedau | | 197,297 | (89,597) | 107,700 |
| 78,668 | (20,517) | 58,151 | Amgylchedd | | 81,204 | (25,636) | 55,568 |
| 39,342 | (42,708) | (3,366) | Cyfrif Refeniw Tai | | 9,850 | (42,794) | (32,944) |
| 751 | 0 | 751 | Yswiriant a Chorfforaethol | | 529 | (4) | 525 |
| **626,016** | **(234,699)** | **391,317** | **Cost Net y Gwasanaethau** | | **597,947** | **(265,487)** | **332,460** |
| | | | Praeseptau ac Ardollau: | | | | |
| | | 138 | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | | | 138 |
| | | 9,838 | Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | | | | 10,400 |
| | | 6,082 | Cynghorau Cymuned | | | | 6,641 |
| | | 18,006 | Awdurdod Heddlu Dyfed Powys | | | | 19,283 |
| | | (259) | (Enillion)/colledion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | | | | (164) |
| | | (279) | (Gwarged)/Diffyg ar y Gweithgareddau Masnachu na cynhwysir yng Nghost Net y Gwasanaethau | Nodyn 6.6 | | | (187) |
| | | **33,526** | **Gwariant Gweithredol Arall** | | | | **36,111** |
| | | 17,625 | Llog i'w Dalu a Chostau Tebyg | | | | 17,330 |
| | | 9,939 | Llog net ar y rhywmedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net | | | | 12,867 |
| | | (679) | Incwm Buddsoddi a Llog | | | | (246) |
| | | (1,004) | Incwm a gwariant yng nghyswllt eiddo buddsoddi a newidiadau yn y gwerth teg | Nodyn 6.11 | | | (1,134) |
| | | (284) | Incwm Arall | | | | (247) |
| | | **25,597** | **(Incwm) a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | | | **28,570** |
| | | (200,096) | Grant Cynnal Refeniw | Nodyn 6.37 | | | (215,251) |
| | | 0 | Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth | Nodyn 6.37 | | | (4,795) |
| | | (116,209) | Treth y Cyngor | Nodyn 6.7 | | | (122,830) |
| | | (60,293) | Enillion Net y Trethi Annomestig | Nodyn 6.8 | | | (58,909) |
| | | (30,755) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf | Nodyn 6.37 | | | (58,189) |
| | | **(407,353)** | **Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol** | | | | **(459,974)** |
| | | **43,087** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **(62,833)** |
| | | (17,060) | (Gwarged) neu Ddiffyg ar ôl ailbrisio'r asedau Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | | | | (13,532) |
| | | 85,316 | Ailfesur y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net | | | | 1,691 |
| | | **68,256** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(11,841)** |
| | | **111,343** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(74,674)** |

## 5.3 DATGANIAD AM Y SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD YR AWDURDOD

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio | CYFANSWM CRONFEYDD Y GELLIR EU DEFNYDDIO | Cronfeydd na ellir eu defnyddio | CYFANSWM CRONFEYDD YR AWDURDOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **(10,376)** | **(83,522)** | **(14,314)** | **(5,958)** | **(5,553)** | **(119,723)** | **(477,901)** | **(597,624)** |
| **Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2019/20** | | | | | | | | |
| (Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | 42,956 | 0 | 131 | 0 | 0 | 43,087 | 0 | **43,087** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 68,256 | **68,256** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **42,956** | **0** | **131** | **0** | **0** | **43,087** | **68,256** | **111,343** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4) | (49,791) | 0 | (7,173) | (1,954) | 2,639 | (56,279) | 56,279 | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **(6,835)** | **0** | **(7,042)** | **(1,954)** | **2,639** | **(13,192)** | **124,535** | **111,343** |
| Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22) | 5,990 | (6,094) | 104 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn y flwyddyn** | **(845)** | **(6,094)** | **(6,938)** | **(1,954)** | **2,639** | **(13,192)** | **124,535** | **111,343** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **(11,221)** | **(89,616)** | **(21,252)** | **(7,912)** | **(2,914)** | **(132,915)** | **(353,366)** | **(486,281)** |
| **Symudiadau yn y cronfeydd yn ystod 2020/21** | | | | | | | | |
| (Gwarged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | (26,271) | 0 | (36,562) | 0 | 0 | (62,833) | 0 | **(62,833)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (11,841) | **(11,841)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(26,271)** | **0** | **(36,562)** | **0** | **0** | **(62,833)** | **(11,841)** | **(74,674)** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu yn unol â'r rheoliadau (nodyn 6.4) | (7,031) | 0 | 38,404 | 70 | (12,190) | 19,253 | (19,253) | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd** | **(33,302)** | **0** | **1,842** | **70** | **(12,190)** | **(43,580)** | **(31,094)** | **(74,674)** |
| Trosglwyddo i/(o'r) Cronfeydd a Glustnodwyd (nodyn 6.22) | 32,489 | (32,455) | (34) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn y flwyddyn** | **(813)** | **(32,455)** | **1,808** | **70** | **(12,190)** | **(43,580)** | **(31,094)** | **(74,674)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **(12,034)** | **(122,071)** | **(19,444)** | **(7,842)** | **(15,104)** | **(176,495)** | **(384,460)** | **(560,955)** |

## 5.4 Y FANTOLEN

| 31/03/20 £'000 | | Nodiadau | £'000 | 31/03/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 1,354,708 | Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | 6.9 | 1,420,327 | |
| 2,282 | Asedau Treftadaeth | 6.10 | 2,292 | |
| 23,152 | Eiddo Buddsoddi | 6.11 | 25,110 | |
| 1,848 | Buddsoddiadau Tymor Hir | 6.12 | 1,807 | |
| 8,300 | Dyledwyr Tymor Hir | 6.13 | 7,529 | |
| 1,390,290 | **Asedau Tymor Hir** | | | 1,457,065 |
| 12,093 | Buddsoddiadau Tymor Byr | 6.14 | 25,504 | |
| 1,217 | Stocrestrau | 6.15 | 1,581 | |
| 67,770 | Dyledwyr Tymor Byr | 6.16 | 93,725 | |
| 42,081 | Arian Parod ac Arian Cyfwerth | 6.17 | 46,911 | |
| 123,161 | **Asedau Cyfredol** | | | 167,721 |
| (25,691) | Benthyciadau Tymor Byr | 6.18 | (18,561) | |
| (60,563) | Credydwyr Tymor Byr | 6.19 | (82,576) | |
| (1,108) | Darpariaethau | 6.20 | (1,321) | |
| (87,362) | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | (102,458) |
| (2,497) | Darpariaethau | 6.20 | (2,863) | |
| (409,849) | Benthyciadau Tymor Hir | 6.21 | (398,052) | |
| (527,462) | Rhwymedigaethau Tymor Hir Arall | 6.44 | (560,458) | |
| (939,808) | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | | (961,373) |
| **486,281** | **Asedau Net** | | | **560,955** |
| 11,221 | Cronfa'r Cyngor | | 12,034 | |
| 21,252 | Cyfrif Refeniw Tai | 7.2 | 19,444 | |
| 91,617 | Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u Clustnodi | 6.22 | 114,805 | |
| (2,001) | Cronfeydd Cronfa'r Cyngor a ddelir gan ysgolion yn unol â RHYLL | 6.22 | 7,266 | |
| 7,912 | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 6.23 | 7,842 | |
| 2,914 | Grantiau Cyfalaf nas Cymhwyswyd | 6.24 | 15,104 | |
| 132,915 | **Cronfeydd Defnyddiadwy** | | | 176,495 |
| 331,684 | Cronfa Ailbrisiad | 6.25 | 334,778 | |
| 553,740 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 6.26 | 615,843 | |
| (674) | Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol | 6.27 | (598) | |
| 332 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig | 6.28 | 332 | |
| (527,462) | Cronfa Bensiynau | 6.29 | (560,458) | |
| (4,254) | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 6.30 | (5,437) | |
| 353,366 | **Cronfeydd na ellir eu defnyddio** | | | 384,460 |
| **486,281** | **Cyfanswm Cronfeydd** | | | **560,955** |

## 5.5 Y DATGANIAD LLIF ARIAN

| 2019-20 £'000 | Cysoniad y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r Llif Arian Refeniw Net | Nodyn | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| 43,087 | **(Gwarged)/Diffyg Net ar ddarpariaeth y gwasanaethau** | 5.2 | (62,833) |
| | **Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod** | | |
| (43,985) | Dibrisiant | | (43,823) |
| (26,460) | Amhariad a phrysiadau disgynnol | | 22,111 |
| 1,014 | Symudiad yng nghweth farchnad eiddo buddsoddi | | 1,166 |
| (36,509) | Addasiadau I'r Gronfa bensiwn | | (31,305) |
| 468 | Symudiad yn narpariaethau | | (579) |
| (2,883) | Cludo swm yr asedau anghyfredol a werthwyd | | (227) |
| 86 | Symudiadau arall nad yw'n arian parod | | 55 |
| 13,596 | Symudiadau yn dyledwyr refeniw, credydwyr, stocrestrau ayb. | | 955 |
| | **Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi ac ariannu gweithgareddau** | | |
| 3,181 | Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | | 395 |
| 30,754 | Grantiau Cyfalaf | | 58,189 |
| **(17,651)** | **Llifoedd Arian Net o'r Gweithgareddau Gweithredol** | | **(55,896)** |
| | **GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | |
| 63,462 | Prynnu eiddo,offeriant a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniraethol | | 69,535 |
| 610,800 | Prynnu buddsoddiadau tymor hir a thymor byr | | 1,220,000 |
| 5,860 | Taliadau arall am weithgareddau buddsoddi | | 4,590 |
| (3,219) | Enillion o werthu eiddo, offeriant a chyfarpar, eiddo buddsoddi a asedau anniraethol | | (399) |
| (625,938) | Enillion o buddsoddiadau tymor byr a thymor hir | | (1,206,593) |
| (29,066) | Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | | (54,993) |
| **21,899** | **Llif Arian Net o'r Gweithgareddau Ariannu** | | **32,140** |
| | **GWEITHGAREDDAU ARIANNU** | | |
| (25,000) | Derbyniadau arian parod o fenthyca byr dymor a hirdymor | | (4,103) |
| 5,548 | Ad-daliadau o fuddsoddiadau byr a hir dymor | | 23,029 |
| **(19,452)** | **Llif Arian o'r Gweithgareddau Ariannu** | | **18,926** |
| **(15,204)** | **(CYNNYDD)/OSTYNGIAD NET MEWN ARIAN NEU ADNODDAU CYFWERTH AG ARIAN** | | **(4,830)** |
| 26,877 | Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 6.17 | 42,081 |
| 42,081 | Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | 46,911 |
| **15,204** | **CYNNYDD/(OSTYNGIAD) MEWN ARIAN NEU ADNODDAU CYFWERTH AG ARIAN** | | **4,830** |

**Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:**

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 17,881 | Llog a Dalwyd | 17,565 |
| (725) | Llog a Dderbyniwyd | (406) |

# 6 NODIADAU I'R CYFRIFON

## 6.1 Datganiad O'r Polisïau Cyfrifydda

### Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion Cyngor Sir Caerfyrddin am flwyddyn ariannol 2020/21 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 31ain Mawrth 2021.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, defnyddir y Côd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21 a'r Côd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau 2020/21, wedi'u hategu gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiedir yn y Datganiad o Gyfrifon yw, yn bennaf, cost hanesyddol, wedi'i addasu gan ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae meysydd o fewn y cyfrifon nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyhoeddiad uchod wedi'u nodi yn ôl yr angen.

### 6.1.1 Croniadau Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd yn hytrach na phryd y mae arian yn cael ei dalu neu'n cael ei dderbyn. Yn arbennig:

- Caiff refeniw o werthu nwyddau ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo risgiau a buddion arwyddocaol perchnogaeth i'r prynwr ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Caiff refeniw o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan all yr Awdurdod fesur yn ddibynadwy ganran cwblhau'r trafodyn ac y bo'n debyg y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth cysylltiedig â'r trafodyn yn dod i'r Awdurdod.
- Cofnodir gwariant ar nwyddau a gyflenwir pan gânt eu defnyddio - os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn nwyddau a'r dyddiad defnyddio, fe'u nodir fel Stocrestrau ar y fantolen.
- O ran gwaith, cofnodir gwariant pan yw'n cael ei gwblhau. Cyn hynny, nodir 'cynllun ar waith' ar y Fantolen.
- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a geir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir y taliadau.
- Mae'r llog a delir am fenthyciadau ac a dderbynnir yn sgil buddsoddiadau yn cael ei gyfrif ar sail y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennir neu a benderfynir gan y contract.
- Pan yw'r refeniw a'r gwariant wedi cael eu cydnabod ond yr arian parod heb ei dderbyn neu ei dalu, bydd y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen fel dyled neu gredyd. Os oes amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu talu, nodir balans y dyledwyr a bydd swm sy'n cyfateb i'r incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosib yn cael ei gynnwys yn y cyfrif refeniw.
- Un eithriad i'r egwyddor hon yw pan fydd taliadau refeniw penodol yn daliadau chwarterol (e.e. trydan, nwy) lle mae'r cyfrifon refeniw yn cynnwys pedwar taliad. Mae'r polisi hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson bob blwyddyn ac felly nid yw'n cael effaith sylweddol ar gyfrifon y flwyddyn.

- Bydd incwm a gwariant yn cael eu nodi fel credyd neu ddebyd yng nghyfrif refeniw y gwasanaeth perthnasol, oni bai eu bod yn dderbyniadau cyfalaf neu'n wariant cyfalaf.

### 6.1.2 Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, eu dosbarthu'n Eiddo, Offeriant a Chyfarpar.

**Cydnabod:** Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offeriant a Chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debyg y bydd y buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw) ei godi fel traul pan y'i gwneir.

**Mesur:** I ddechrau caiff asedau eu mesur ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu a/neu unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i roi'r ased mewn cyflwr gweithio at y defnydd a fwriedir iddo.

Mae asedau yn cael eu trosglwyddo i'r fantolen ar y sail a argymhellir gan CIPFA ac yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae asedau yn cael eu dosbarthu i'r grwpiau sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol, ar y sail ganlynol:

- seilwaith, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- aneddiadau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd sy'n bodoli ar gyfer tai cymdeithasol
- yr holl asedau eraill – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased gyda'i ddefnydd sy'n bodoli (gwerth defnydd sy'n bodoli).
- Lle na fo tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid dibrisiedig i gael amcangyfrif o'r gwerth teg

**Ailbrisiadau**

Ac eithrio asedau seilwaith ac asedau cymunedol, mae asedau sefydlog yn cael eu hail brisio yn ôl rhaglen dreigl bum mlynedd ac mae unrhyw newid mawr mewn gwerth asedau yn cael ei addasu yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y digwydd y cyfryw newid.

Prisiwyd tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r seiliau amcangyfrif a nodwyd yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Seilir prisiadau cerbydau, peiriannau, celfi ac offer ar sail cost hanesyddol wedi'i dibrisio.

Cynhaliwyd prisiadau mewnol gan briswyr yr awdurdod sy'n Gymrodyr Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae asedau a geir o dan brydlesau cyllid yn cael eu cyfalafu yng nghyfrifon yr Awdurdod, ynghyd â'r rhwymedigaeth i dalu rhenti yn y dyfodol.
Gwneir credydau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gyd-fynd â'r cynnydd mewn prisiadau ac i gydnabod enillion sydd heb eu gwireddu. Fel eithriad, gallai enillion gael eu credydu i'r

Datganiad Incwm A Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi yn sgil tynnu yn ôl allan golled amharu a roddwyd yn flaenorol ar gyfrif refeniw gwasanaeth.

**Amhariad**

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr ased wedi ei amharu. Lle bo arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl o bwys, amcangyfrifir gwerth adferadwy'r ased a, lle bo hyn yn llai na gwerth cario'r ased, caiff colled amhariad ei chydnabod ar gyfer y diffyg.

Lle canfyddir colledion amhariad, cyfrifyddir ar eu cyfer trwy:

- lle bo balans enillion ailbrisiad ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig).
- lle na fo balans yn y Gronfa Ailbrisiadau neu falans annigonol, caiff gwerth cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Lle bo colled amhariad yn cael ei gwrthdroi yn ddiweddarach, mae'r gwrthdroad yn cael ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol / llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i gymhwyso ar gyfer y dibrisiad a fyddai wedi cael ei godi pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

**Gwarediadau ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu**

Pan ddaw'n debyg y caiff gwerth cario ased ei adennill yn bennaf trwy werthiant yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n Ased a Ddelir i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio'n syth cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar y swm isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu'r ased. Lle bo gostyngiad wedyn yn y gwerth teg llai costau gwerthu'r ased, caiff y golled ei chofnodi yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion yn y gwerth teg eu cydnabod dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabyddwyd o'r blaen yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

Ni chodir dibrisiad ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau'n bodloni'r meini prawf mwyach i gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol eto a'u prisio ar y swm isaf o'u gwerth cario cyn iddynt gael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, wedi'i gymhwyso ar gyfer dibrisiad, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod pe na baent wedi cael eu dosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, a'u gwerth adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â'u gwerthu.

Nid yw asedau sydd i gael eu hepgor neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu. Pan fo ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, mae gwerth cario'r ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu i ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r ennill neu golled wrth ei waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hefyd fel rhan o'r enillion neu golledion wrth ei waredu (h.y. eu debydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiad a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisiadau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwyso Cyfalaf.

Mae symiau a cheir ar gyfer gwaredu mwy na £10,000 yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf a'u credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Yna ni ellir defnyddio'r rhain ond ar gyfer buddsoddi cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg arian. Mae derbyniadau'n cael eu neilltuo i'r Gronfa o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Ni chaiff gwerth dileu gwarediadau ei godi yn erbyn y dreth gyngor, oherwydd darperir yn llawn am gost asedau sefydlog o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor Gyffredinol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

**Dibrisiant**

Darperir am ddibrisiad ar yr holl asedau Eiddo, Offeriant a Chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoesoedd defnyddiol. Gwneir eithriad am asedau sydd heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol a rhai Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Defnyddiwyd yr oesau defnyddiol a'r cyfraddau dibrisio canlynol wrth gyfrifo dibrisiant llinell-syth :

| **Ased** | | **Oes (Blynyddoedd)** |
|---|---|---|
| Tai Cyngor | | 30 |
| Tir | *(gan gynnwys Asedau Cymunedol a Eiddo Buddsoddi)* | 999 |
| Adeiladau | *(gan gynnwys Asedau Cymunedol a Eiddo Buddsoddi)* | 30 |
| Cerbydau, Offeriant a Chyfarpar | | 1 i 10 |
| Seilwaith | | 40 |

Yn ogystal, dibrisir enillion adbrisio, a bydd swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol a roddir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi cael ei roi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Cyfrif wrth Gefn Adbrisiadau i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Cyfrifyddu Cydrannol**

Defnyddir cyfrifyddu cydrannol pan fydd gan ased unigol un neu ragor o rannau hanfodol ac iddynt oes economaidd sylweddol wahanol i'r prif ased. Felly byddai cydrannau'r prif ased yn dibrisio ar gyfraddau gwahanol.

Er mwyn pennu a oes gwahaniaeth o bwys yn y tâl dibrisio, mae'r Awdurdod yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â'i brosiectau cyfalaf mwyaf. Mae'r tâl yn cael ei gyfrifo ar sail yr ased cyfan o'i gymharu â thâl ar sail y cydrannau. Caiff y tâl ar sail cydrannau ei ddefnyddio os oes gwahaniaeth o bwys rhwng y ddau gyfrifiad.

### 6.1.3 <u>**Eiddo Buddsoddi**</u>

Eiddo buddsoddi yw’r eiddo hwnnw a ddefnyddir dim ond i ennill rhenti a/neu am arbrisiant cyfalaf. Nid yw’r diffiniad yn cael ei fodloni os caiff yr eiddo ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso cyflenwi gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu’n cael ei ddal i’w werthu.

Caiff eiddo buddsoddi ei fesur yn y lle cyntaf ar gost ac wedyn ar werth teg, ar sail y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Ni chaiff yr eiddo ei ddibrisio ond caiff ei ailbrisio bob blwyddyn yn ôl amgylchiadau’r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion wrth ailbrisio eu cofnodi yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff yr un peth ei wneud gydag enillion a cholledion wrth waredu’r eiddo.

Caiff y rhenti a geir am eiddo buddsoddi eu credydu i’r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac maent yn arwain at ennill i Falans Cronfa’r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisiadau a gwarediadau gael effaith ar Falans Cronfa’r Cyngor. Felly caiff yr enillion a’r colledion eu tynnu allan o Falans Cronfa’r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd a’u cofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau o werthiant sy’n fwy na £10,000) y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**Mesuriad Gwerth Teg**
Mae'r Cyngor yn mesur ei eiddo buddsoddi ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris y byddid yn ei gael i werthu ased, neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth fel rhan o drafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd y defnydd o'r broses fesur ar ei uchaf a'i orau o safbwynt cyfranogwr y farchnad.

Rhagdybir bod unrhyw fesuriad gwerth teg o ased neu rwymedigaeth yn defnyddio'r un rhagdybiaethau ag y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth weithredu er eu budd economaidd pennaf a bod y trafodyn yn cael ei wneud yn y brif farchnad neu, os nad yw hynny'n bosibl, yn y farchnad fwyaf buddiol ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Defnyddir technegau prisio priodol y mae data digonol ar gael ar eu cyfer. Mae mewnbynnau i'r technegau wedi'u categoreiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, sy'n cynnwys tair lefel fel a ganlyn:

- Mae mewnbynnau lefel 1 yn brisiau a ddyfynnwyd nas addaswyd mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd union yr un peth y gall y Cyngor eu cyrchu ar y dyddiad mesur.
- Mae mewnbynnau lefel 2 yn fewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mae mewnbynnau lefel 3 yn fewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

### 6.1.4 Asedau Treftadaeth

Mae gwahanol fathau o Asedau Treftadaeth ac maent wedi'u nodi yn y cyfrifon fel a ganlyn.

- **Cyn-asedau Cymunedol**
  Mae'r asedau treftadaeth hynny a oedd gynt yn cael eu cynnwys mewn asedau cymunedol wedi cael eu trosglwyddo i'r categori newydd ar gyfer Asedau Treftadaeth. Fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol ac maent yn cynnwys Castell Caerfyrddin, regalia dinesig a darnau o waith celf.
- **Gwaith Celf Seilwaith**
  Yn flaenorol câi'r asedau hyn eu nodi fel seilwaith ac roeddent un ai'n rhan o brosiect cyfalaf mawr neu'n ddarnau o waith celf ynddynt eu hunain ar gylchfannau neu yng nghanol trefi. A hwythau'n gyn-asedau seilwaith, fe'u cofnodir ar sail y gost hanesyddol.
- **Arddangosion Amgueddfeydd/Cofnodion Archif**
  Mae gan yr Awdurdod gasgliad mawr o arddangosion amgueddfeydd a deunydd archif na chawsant eu cynnwys yn y Fantolen. Nid yw gwybodaeth am gost yr eitemau hyn ar gael yn hawdd ac ym marn yr Awdurdod ni fyddai'r budd o drefnu i brisio'r eitemau hyn yn cyfiawnhau'r gost o wneud hynny.

### 6.1.5 Asedau Anniriaethol

Asedau nad oes iddynt sylwedd ffisegol yw'r rhain ond asedau a ddaw â buddion economaidd i'r Awdurdod yn y dyfodol, sef asedau megis trwyddedau meddalwedd neu asedau a grëir yn fewnol ac sydd wedi'u cyfalafu.

Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod asedau anniriaethol. Caiff gwelliannau ('*enhancements*') eu categoreiddio bob blwyddyn a byddai unrhyw asedau anniriaethol yn cael eu nodi fel rhan o'r ymarfer blynyddol hwn.

### 6.1.6 Taliadau sy'n Cael eu Cynnwys yn y Refeniw am Asedau Anghyfredol

Caiff y symiau canlynol eu debydu i wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu er mwyn cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad yr asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol.
- colledion ailbrisiad ac amhariad ar asedau mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisiadau y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.
- amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol y gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi treth gyngor i dalu am golledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad nac amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo roi cyfraniad blynyddol o'i refeniw tuag at leihau ei ofynion benthyca i gyd. Felly mae'r cyfraniad ym malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Isafswm Refeniw neu Brifswm Cronfa Fenthyciadau) yn cymryd lle colledion dibrisiad, ailbrisiad ac amhariad ac amorteiddiadau, trwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### 6.1.7 Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud

Mae gwariant a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol wedi cael ei godi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y cyfrif Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Lle bo'r Awdurdod wedi penderfynu talu cost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf sy'n bodoli

eisoes neu drwy gael benthyciad, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn tynnu allan y symiau a godwyd yn y Datganiad Newidiadau ar Falans Cronfa'r Cyngor fel nad oes unrhyw effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

### 6.1.8 **Arian Parod ac Arian Gyfwerth**

Mae'r arian gyfwerth yn fuddsoddiadau sy'n rhwydd eu drosglwyddo i symiau arian parod heb newid ei werth. Caiff arian parod ei dynnu a'i adneuo gan ddibynnu ar ddiffyg neu warged arian parod ar y diwrnod. Mae pob cyfrif galw wedi cael eu dynodi at y diben hwn. Mae'r Arian Parod Cyfatebol hefyd yn cynnwys buddsoddiadau cyfnod penodedig sy'n aeddfedu cyn pen tri mis neu lai ar ôl y dyddiad caffael.

### 6.1.9 **Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth**

Caiff grantiau gan lywodraethau a chyfraniadau gan drydydd partïon a rhoddion, pa un ydynt yn cael eu talu fel ernes, fel rhandaliadau neu fel ôl-daliadau, eu cydnabod fel taliadau dyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau'n dod i law.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel taliadau dyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes i'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant neu'r cyfraniad gael eu bodloni. Mae'r amodau yn nodi ei bod yn ofynnol i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth a gorfforir yn yr ased sy'n cael ei gaffael gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y rhagnodir, neu fod yn rhaid i'r buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial gwasanaeth gael eu dychwelyd i'r trosglwyddwr.

Mae symiau o arian a flaendalwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi cael eu bodloni'n cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan gaiff yr amodau eu bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu Incwm Trethi a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle caiff grantiau cyfalaf eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu tynnu allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei gofnodi yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio. Lle mae wedi cael ei ddefnyddio, caiff ei gofnodi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

### 6.1.10 **Prydlesu**

Caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi cyllid lle bo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n arwyddocaol yr holl risgiau a buddion sydd ynghlwm wrth berchnogaeth ar yr eiddo, offeriant neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Mae pob prydles arall yn cael ei dosbarthu fel prydles weithredol. Lle bo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, caiff elfennau'r tir a'r adeiladau eu hystyried ar wahân at ddibenion dosbarthu. Cyfrifyddir ar gyfer trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl o dan y polisi hwn lle bo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Mae adolygiad o bob brydles yr Awdurdod (fel y prydlesai ac fel y prydleswr) wedi cael ei gynnal. Ar hyn o bryd mae'r holl brydlesi'n cael eu trin fel prydlesi gweithredol. Ychydig iawn o brydlesi bach a ganfuwyd y gellid o bosibl eu hailddosbarthu'n brydlesi cyllid. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chyfarpar ac yn anarwyddocaol yn nhermau eu gwerth a'u hyd. Ni fyddai'r addasiadau ailddosbarthu'n effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgareddau economaidd y Cyngor a'r graddau y mae'n agored i risg.

**Yr Awdurdod fel y Prydleswr – prydlesi gweithredol**
Caiff rhenti sy'n cael eu talu o dan brydlesi gweithredol eu codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel un o dreuliau'r gwasanaethau sy'n cael budd o ddefnyddio'r eiddo, offeriant neu gyfarpar sy'n cael eu prydlesu.

**Yr Awdurdod fel y Deiliad Prydlesi – prydlesi gweithredol**
Lle bo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm o renti ei gredydu i'r gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

6.1.11 **<u>Rhwymedigaethau Ariannol</u>**

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg a'u cario yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae'r hyn a godir bob blwyddyn i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn cael ei seilio ar werth cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog weithredol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol yn unol ag ef.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig); ac mai'r llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm taladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Caiff enillion a cholledion ar adbrynu benthyciadau neu eu setlo'n gynnar eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu hadbrynu neu eu setlo. Fodd bynnag, lle bo'r adbrynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n golygu addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm yn cael ei ddidynnu o gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu addasedig ac mae'r disgownt yn cael ei ychwanegu ati, ac mae'r dibrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad trwy addasiad i'r gyfradd llog weithredol.

Lle bo premiymau a disgowntiau wedi cael eu codi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei lledaenu dros flynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o ledaenu'r ennill neu'r golled dros y tymor oedd ar ôl ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy arno neu yr oedd y disgownt yn dderbyniadwy arno pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoni'r symiau a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

## 6.1.12 **Asedau Ariannol**

**Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy**

Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i ddarpariaethau contractiol offeryn ariannol ac ar y dechrau cânt eu mesur yn ôl gwerth teg. Wedyn cânt eu mesur yn unol â'u cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog derbyniadwy yn cael eu seilio ar werth cario'r ased wedi'i luosi gan y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau mae'r Awdurdod wedi'u rhoi, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n ddyledus (a hefyd llog cronedig) ac mai'r llog sy'n cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm derbyniadwy am y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Lle bo'r Awdurdod wedi rhoi benthyciadau ar gyfraddau is na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal), caiff unrhyw golled sylweddol ei chofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi'i debydu i'r gwasanaeth priodol) am werth presennol y llog a fydd yn cael ei hepgor dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddiedig is na'r prifswm dyledus. Mae'r llog yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfradd llog weithredol ychydig yn uwch na'r gyfradd dderbyniadwy gan y sefydliadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn cynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog derbyniadwy am y flwyddyn ariannol – mae cysoni'r symiau a gaiff eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r ennill net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei gyflawni trwy drosglwyddiad i'r neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd.

Lle nodir bod amhariad ar asedau oherwydd tebygrwydd sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan y contract yn cael eu gwneud, caiff yr ased ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y gwasanaeth perthnasol (am symiau derbyniadwy sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y golled amhariad ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng gwerth cario a gwerth presennol y llifoedd arian yn y dyfodol wedi'u diwygio, wedi'u disgowntio ar gyfradd llog weithredol wreiddiol yr ased.

Caiff unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio wrth ddatgydnabod ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

O dan Offerynnau Ariannol IFRS 9, mae dosbarthu asedau ariannol bellach yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Ceir tri phrif ddosbarthiad o asedau ariannol, sy'n cael eu mesur ar:

- Gost amorteiddiedig
- Gwerth teg drwy elw neu golled
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

### 6.1.13 **Stocrestrau a Chontractau Hirdymor**

Caiff stocrestrau eu cynnwys yn y Fantolen ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net. Mae cost stocrestrau'n cael ei dynodi gan ddefnyddio'r fformiwla gostio gyfartalog bwysoledig.

Cyfrifyddir ar gyfer contractau hirdymor ar sail codi gwerth y gwaith a'r gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau.

### 6.1.14 **Cost y Gwasanaethau Cynnal**

Caiff costau gorbenion a gwasanaethau cymorth eu codi ar y rheiny sy'n cael budd o'r cyflenwad neu'r gwasanaeth. Defnyddir egwyddor costio amsugnol llwyr – sef bod cost lawn gorbenion a gwasanaethau cymorth yn cael ei rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddion a dderbyniwyd.

### 6.1.15 **Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu gwneud lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod sy'n debyg o alw am setliad trwy drosglwyddo buddion economaidd, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y cyngor yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod i wybod am y rhwymedigaeth a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau - ar ddyddiad y fantolen - o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd risgiau ac elfennau ansicr perthnasol i ystyriaeth.

Pan gaiff taliadau eu gwneud yn y pen draw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sydd wedi'i chreu yn y Fantolen. Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - lle daw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu gwneir setliad llai nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir bod rhywun arall (e.e. yn sgil hawliad yswiriant) yn talu canran o'r taliad, neu'r holl daliad, sydd ei angen i setlo darpariaeth, caiff hyn ond ei gydnabod fel incwm yn y cyfrif refeniw gwasanaeth priodol os yw'n hollol bendant y bydd ad-daliad yn dod i law pe setlir y rhwymedigaeth.

### 6.1.16 **Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i ddarparu ar gyfer hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy neilltuo symiau o Balans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd. Pan fo angen talu gwariant sydd i gael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn ei neilltuo'n ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd fel na chodir cost net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Caiff rhai cronfeydd penodol eu cadw er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, budd-daliadau ymddeoliad a chyflogeion, ac nid ydynt yn

adnoddau y gall yr Awdurdod eu defnyddio – caiff y cronfeydd hyn eu hesbonio yn y polisïau perthnasol.

### 6.1.17 Budd-daliadau i Gyflogeion

#### Budd-daliadau sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Budd-daliadau tymor byr i gyflogeion yw'r rheiny y mae'n rhaid eu setlo cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl i'r cyflogeion presennol a chânt eu cydnabod fel traul am wasanaethau yn y flwyddyn mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau i wyliau y mae cyflogeion yn eu hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn, y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod mae'r cyflogai'n cymryd y budd-dal ynddi. Codir y croniad i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi allan trwy'r Datganiad Newidiadau i Gronfeydd er mwyn i'r budd-daliadau gwyliau gael eu codi i refeniw yn y flwyddyn ariannol y cymerir yr absenoldeb gwyliau ynddi.

#### Budd-daliadau dod â swyddi i ben

Budd-daliadau dod â swyddi i ben yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn dileu ei swydd yn wirfoddol, a chânt eu codi ar sail croniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo modd dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i ddileu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wneud cynnig i annog dileu swyddi'n wirfoddol.

Lle bo budd-daliadau dod â swyddi i ben yn golygu gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans Cronfa'r Cyngor. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae angen neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau dod â swyddi i ben o ran gwelliannau i bensiynau, a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

#### Budd-daliadau Ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan *Capita Teachers' Pen*sions ar ran yr Adran Addysg.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu budd-daliadau penodol i'r aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth iddynt weithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na ellir nodi'r rhwymedigaethau ar gyfer y budd-daliadau hyn yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifyddir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac ni chaiff unrhyw rwymedigaeth o ran talu budd-daliadau yn y dyfodol ei chydnabod yn y Fantolen a chodir cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i bensiynau athrawon yn y flwyddyn ar llinell y Gwasanaeth Addysg Phlant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Cronfa Bensiwn Dyfed**

Mae'r Cronfa yn cael ei gyfrif yn gynllun budd-daliadau penodol.

Mae rhwymedigaethau'r Gronfa sydd i'w priodoli i'r Cyngor, yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r hyn a delir yn y dyfodol mewn perthynas â'r budd-daliadau ymddeol y mae'r gweithwyr wedi'u hennill hyd yn hyn, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion gweithwyr presennol.

Caiff gwerth y rhwymedigaethau ei ddisgowntio i gyfateb â phrisiau cyfredol.

Mae asedau'r Gronfa sydd yn briodol i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:

- gwarannau a ddyfynnwyd – y pris cynnig
- gwarannau na ddyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
- gwarannau cyfunol – y pris cynnig
- eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid yn rhwymedigaethau net pensiynau yn cael ei rannu mewn i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaethau sef:

- costau gwasanaeth cyfredol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn sgil y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi'u pennu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau sy'n cyflogi'r gweithwyr.
- cost gwasanaeth y gorffennol – y cynnydd yn y rhwymedigaethau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn gysylltiedig â blynyddoedd gwasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – yn cael ei debydu i'r Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau Heb eu Dosbarthu.
- y llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased), h.y. cost y llog net i'r Awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) sy'n deillio o dreigl amser, wedi'i gofnodi dan linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymryd y gyfradd ostyngol a ddefnyddir i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod a'i defnyddio ar gyfer y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r cyfraniadau a'r buddion a delir.

Ailfesur sef:

- yr adenillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill

- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net sy'n digwydd oherwydd nad yw pethau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaed adeg y prisio actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – i'w cofnodi dan y Gronfa Bensiynau dan y pennawd Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill

- cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa – arian parod a dalwyd fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni chyfrifir amdanynt fel traul

Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, ar Falans Cronfa'r Cyngor. Yn y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, mae hyn yn golygu bod yna neilltuadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a chredydau tybiannol ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn Bensiynau yn mesur yr effaith fuddiannol ar Gronfa'r Cyngor o fod yn ofynnol i gyfrifyddu ar gyfer budd-daliadau ymddeoliad ar sail llifoedd arian yn hytrach nag wrth i gyflogeion ennill budd-daliadau.

**Budd-daliadau Dewisol**

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddewis talu budd-daliadau ymddeol i weithiwr sy'n ymddeol yn gynnar. Os bernir y bydd unrhyw rwymedigaeth yn codi yn sgil talu budd-dal i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) caiff ei gronni yn y flwyddyn y penderfynwyd gwneud y taliad a'i gyfrif yn unol â'r polisïau sy'n gymwys i'r Gronfa.

6.1.18 **<u>Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau eraill</u>**

Mae gan y cyngor fuddiannau materol mewn nifer o gwmnïau â natur is-gwmnïau sy'n ei gwneud yn ofynnol paratoi cyfrifon grŵp. Nid yw'r Cyfrifon Grŵp wedi cael eu paratoi, gan na fyddai cyfuno'r cyfrifon yn effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn ei hanfod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgaredd economaidd y Cyngor a'r risg y mae'n agored iddi.

<u>CWM Environmental</u>
Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr CWM Environmental. Yn hanesyddol, mae'r cwmni wedi cael ei weithredu fel cwmni masnachu hyd braich, ond yn ystod y flwyddyn 2018/19 dewisodd yr Awdurdod ddefnyddio Esemptiad Teckal, gan fod mwy nag 80% o weithgaredd y cwmni yn cael ei wneud gyda'r Awdurdod. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.38 (Trafodion Partïon Cysylltiedig).

<u>Llesiant Delta Wellbeing Cyf</u>
Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr Llesiant Delta Wellbeing Cyf. Crëwyd y cwmni i drosglwyddo a thyfu'r gwasanaeth Llinell Gofal fel y cytunwyd gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor ym mis Ionawr 2018. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.38 (Trafodion Partïon Cysylltiedig).

<u>Egni Sir Gâr Cyfyngedig</u>
Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau yw Cadeirydd y bwrdd. Darperir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir).

Cartrefi Croeso Cyfyngedig
Cyngor Sir Caerfyrddin yw unig gyfranddaliwr Cartrefi Croeso. Crëwyd y cwmni i ddatblygu datblygiadau tai ar sail fasnachol yn Sir Gaerfyrddin fel y cytunwyd gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn nodyn 6.12 (Buddsoddiadau Tymor Hir) a nodyn 6.38 (Trafodion Partion Perthnasol).

### 6.1.19 Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Arall

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod yn eu cyflawni ar y cyd gyda mentrwyr eraill sy'n golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau arno ac yn debydu a chredydu'r gwariant mae'n ei wneud a'r gyfran o'r incwm mae'n ei hennill o weithgarwch y gweithgaredd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offeriant neu gyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i gael buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r gyd-fenter yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cyfrifyddu ar gyfer ei gyfran ef yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau arno a'r treuliau mae'n gorfod eu talu ar ei ran ei hun neu ar y cyd gydag eraill mewn perthynas â'i fudd yn y gyd-fenter a'r incwm mae'n ei ennill o'r fenter.

Rydym yn flaenorol wedi nodi y gallai Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), Partneriaeth Pensiwn Cymru a Dinas-ranbarth Bae Abertawe gael eu cynnwys yn y diffiniad uchod at ddibenion cyfrifyddu. Yn ystod y flwyddyn, daeth i'r amlwg bod yr Awdurdod yn cadw cyfran ariannol yn Amlosgfa Gorllewin Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nodyn 6.39 (Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Arall).

Mae trefniadau potensial eraill yn cynnwys Y Consortiwn Comisiynu ar gyfer Plant Cymru ymhlith eraill. At ddiben llunio'r cyfrifon hyn, ni ychwanegwyd cofnodion mewn perthynas â'r trefniadau hyn ac eithrio'r gwariant a'r incwm uniongyrchol sy'n berthnasol i bob cynllun. Nid yw'r addasiadau yn rhai perthnasol ac ni fyddent yn effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod, nac ar allu'r sawl sy'n darllen y cyfrifon i weld holl weithgaredd economaidd yr Awdurdod a'r risg y mae'n agored iddi.

### 6.1.20 Rhwymedigaeth Amodol

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi lle bo rhywbeth wedi digwydd sy'n gosod rhwymedigaeth bosibl ar yr awdurdod na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau ond wrth i bethau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt yn llwyr o dan reolaeth yr awdurdod, ddigwydd neu beidio.

Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle câi darpariaeth ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y byddai angen all-lif adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### 6.1.21 TAW

Nid yw'r incwm a'r gwariant yn cynnwys unrhyw symiau TAW, gan fod pob TAW yn daladwy i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, a gellir adennill ganddynt hwy bob TAW a dalwyd.

## 6.2 Dyfarniadau Beirniadol wrth Ddefnyddio Polisïau Cyfrifyddu

Wrth ddefnyddio'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Nodyn 6.1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n destun ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad o Gyfrifon:

- Ansicrwydd parhaus ynghylch ariannu awdurdodau lleol yn y dyfodol, gyda setliadau blwyddyn yn unig parhaus gan San Steffan a Llywodraeth Cymru.
- Newidiadau posibl i drefniadau llywodraethu'r dyfodol yn sgil cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.
- Effaith pandemig COVID19 ar ddarparu gwasanaethau ac ymateb yn y dyfodol, yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch cymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Caledi Awdurdodau Lleol.

Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod strategaeth gyllidebol dair blynedd gadarn gyda chynigion o ran effeithlonrwydd a rhesymoli gwasanaethau er mwyn sicrhau cyllideb fantoledig, ac felly mae wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Awdurdod.

Ar hyn o bryd mae ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wedi'u heithrio o fantolen yr Awdurdod er bod gan yr Awdurdod rwymedigaethau a risgiau o ran costau eiddo megis gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, nid yw'r Awdurdod yn berchen ar yr ysgolion ac nid oes hawl ganddo i unrhyw ddarpar fuddion economaidd sydd ynghlwm wrth yr asedau.

## 6.3 Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol ac ansicrwydd ynglŷn a Ffynonellau Mawr Eraill wrth Amcangyfrif

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewm i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Yr unig eitemau ym Mantolen yr Awdurdod y mae risg sylweddol o addasiad o bwys mewn perthynas â nhw yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod yw'r Rhwymedigaeth Pensiynau.

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio.

## 6.4 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn sôn am yr addasiadau gaiff eu gwneud i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Caiff yr addasiadau eu gwneud yn unol â'r arferion cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a enwir yn y darpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i dalu am ei wariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2020-21** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd** | **Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol | (31,330) | (12,493) | 0 | 0 | 43,823 |
| Colledion ar ôl ailbrisio Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | (1,376) | 23,486 | 0 | 0 | (22,110) |
| Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad | 1,166 | 0 | 0 | 0 | (1,166) |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd | 31,642 | 12,229 | 0 | 0 | (43,871) |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud | (4,673) | 0 | 0 | 0 | 4,673 |
| Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (221) | (6) | 0 | 0 | 227 |
| **Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf | 10,587 | 4,717 | 0 | 0 | (15,304) |
| Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 5,487 | 9,856 | 0 | 0 | (15,343) |

| | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2020-21** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd** | **Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:** | | | | | |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 12,856 | 1,462 | 0 | (14,318) | 0 |
| Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 2,128 | (2,128) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 326 | 65 | (391) | 0 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf Statudol | 5 | 0 | (51) | 0 | 46 |
| Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 512 | 0 | (512) |
| Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2020-21** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd** | **Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 76 | 0 | 0 | 0 | (76) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 6.44) | (56,897) | (1,578) | 0 | 0 | 58,475 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | 26,474 | 696 | 0 | 0 | (27,170) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:** | | | | | |
| Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (1,153) | (30) | 0 | 0 | 1,183 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau** | **(7,031)** | **38,404** | **70** | **(12,190)** | **(19,253)** |

| | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd** | **Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf:** | | | | | |
| **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol | (31,476) | (12,508) | 0 | 0 | 43,984 |
| Colledion ar ôl ailbrisio Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | (21,725) | (4,734) | 0 | 0 | 26,459 |
| Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad | 1,013 | 0 | 0 | 0 | (1,013) |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a chymhwyswyd | 21,896 | 6,453 | 0 | 0 | (28,349) |
| Gwariant refeniw a ariannwyd o'r cyfalaf o dan statud | (735) | (1) | 0 | 0 | 736 |
| Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (2,872) | (11) | 0 | 0 | 2,883 |
| **Mewnosod eitemau na ddebydwyd na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf | 9,927 | 4,374 | 0 | 0 | (14,301) |
| Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 4,796 | 0 | 0 | 0 | (4,796) |

| 2019-20 | Cronfeydd y gellir eu defnyddio: Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd | Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd:** | | | | | |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf nas cymhwyswyd a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 2,406 | 0 | 0 | (2,406) | 0 |
| Grantiau a gymhwyswyd i'r cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 5,045 | (5,045) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Trosglwyddo elw ariannol o werthu eiddo a gredydwyd fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 3,066 | 77 | (3,242) | 0 | 99 |
| Derbyniadau Cyfalaf Statudol | 38 | 0 | (38) | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 1,325 | 0 | (1,325) |
| Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 | 0 | 1 | 0 | (1) |
| Derbyniadau Cyfalaf a Neilltuwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar ôl derbyn arian | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | Cronfeydd y gellir eu defnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **Balans Cronfa'r Cyngor** | **Cyfrif Refeniw Tai** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf na Cymhwyswyd** | **Symudiad yn Cronfeydd na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm sy'n dangos sut mae'r costau ariannol a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 160 | 0 | 0 | 0 | (160) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 6.44) | (61,062) | (1,362) | 0 | 0 | 62,424 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | 25,373 | 542 | 0 | 0 | (25,915) |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Absenoldebau Cronedig:** | | | | | |
| Swm sy'n dangos sut mae'r taliadau i swyddogion a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail gronedig yn wahanol i'r taliadau sydd i'w codi yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (596) | (3) | 0 | 0 | 599 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau** | **(49,791)** | **(7,173)** | **(1,954)** | **2,639** | **56,279** |

## 6.5 Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid

| 2020-21 | Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Cyllido | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf £'000** | **Newidiadau Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau £'000** | **Gwahaniae-thau Eraill £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
| **Adran** | | | | |
| Prif Weithredwr | 5,785 | 2,139 | 112 | 8,036 |
| Addysg a Phlant | 17,330 | 6,035 | 522 | 23,887 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | (4) | (487) | 46 | (445) |
| Cymunedau | 4,803 | 5,937 | 241 | 10,981 |
| Amgylchedd | 4,842 | 2,751 | 140 | 7,733 |
| Cyfrif Refeniw Tai | (20,848) | 538 | 30 | (20,280) |
| Yswiriant a Chorfforaethol | (2,523) | 0 | 0 | (2,523) |
| **Cost y Gwasanaethau Net** | 9,385 | 16,913 | 1,091 | 27,389 |
| Incwm a Gwariant Arall | (73,169) | 14,392 | 15 | (58,762) |
| **Y Gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg CC a'r CRT a'r (Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(63,784)** | **31,305** | **1,106** | **(31,373)** |
| **2019-20** | | | | |
| **Adran** | | | | |
| Prif Weithredwr | 5,472 | 2,344 | 9 | 7,825 |
| Addysg a Phlant | 32,864 | 6,863 | 546 | 40,273 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | (171) | 5,845 | 1 | 5,675 |
| Cymunedau | 4,921 | 6,418 | 23 | 11,362 |
| Amgylchedd | 7,304 | 2,978 | 1 | 10,283 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 17,243 | 575 | 3 | 17,821 |
| Yswiriant a Chorfforaethol | (2,934) | 0 | 0 | (2,934) |
| **Cost y Gwasanaethau Net** | 64,699 | 25,023 | 583 | 90,305 |
| Incwm a Gwariant Arall | (44,683) | 11,486 | (144) | (33,341) |
| **Y Gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/Diffyg CC a'r CRT a'r (Gwarged)/Diffyg ar Darparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **20,016** | **36,509** | **439** | **56,964** |

### Esboniad Naratif

### Addasiad at Ddibenion Cyfalaf

**Llinellau gwasanaeth** - ychwanegu enillion a cholledion ailbrisio, dibrisiant, ac amharu a didynnu cyllid refeniw uniongyrchol.

**Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:**
Gwariant Gweithredu Arall - Addasiadau ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad incwm a geir drwy waredu asedau a'r symiau a gaiff eu dileu o ran yr asedau hynny. Mae'n ychwanegu/didynnu costau i weithrediadau masnachu na'i chynhwysir yn y llinellau gwasanaeth.

Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi - didynnu'r taliadau statudol ar gyfer cyllido cyfalaf (MRP) a chaiff cyfraniadau refeniw eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na chaiff y rhain eu codi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n cael ei godi o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Caiff grantiau refeniw eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn i'r rheiny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn. Mae credydau ar gyfer grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn heb amodau neu roedd yr amodau ar eu cyfer wedi eu bodloni gydol y flwyddyn.

**Newid Net ar gyfer Addasiadau Pensiynau**

**Llinellau gwasanaeth** - cyfraniadau gan y cyflogwr a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwaredu fel y caniateir yn ôl y gyfraith ac yn cael eu disodli gan y costau gwasanaeth presennol a'r costau gwasanaeth yn y gorffennol.

**Mae Gwariant ac Incwm Arall yn cynnwys y canlynol:**
Incwm Cyllido a Buddsoddi - mae'r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Gwahaniaethau Eraill**

**Llinellau gwasanaeth** - addasiadau ar gyfer tâl gwyliau a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig absenoldeb.

**Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** - addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.

## 6.6 Gweithrediadau Masnachu

Mae'r awdurdod yn ymgymryd â'r gweithrediadau masnachu canlynol sy'n ffurfio'r Gwargedion/Diffygion ar Weithgareddau Masnachu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: Gwasanaethau Eiddo, Cynnal a Chadw Cerbydau, Glanhau Adeiladau, Rheoli Fflyd a Dylunio Sifil.

## 6.7 Treth y Cyngor

Daw incwm Treth y Cyngor trwy godi tâl ar eiddo preswyl yn ôl gwerth yr eiddo ac mae'r gwerth hwnnw wedi'i rannu yn naw band prisio yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill, 2003. Cyfrifir y taliadau drwy rannu faint o incwm y bydd ei angen ar Gyngor Sir Caerfyrddin, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned â sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio, wedi'i addasu yn ôl rhyw gyfran i drosi'r rhif i swm cyfatebol ar gyfer band D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen Treth y Cyngor am 2020/21 oedd 74,006.63 (72,440.46 ar gyfer 2019/20).

Mae biliau Treth y Cyngor yn seiliedig ar y lluosyddion canlynol ar gyfer y bandiau o A i I. Mae'r tabl canlynol yn dangos y lluosydd sy'n berthnasol i bob band, ynghyd â'r nifer cyfwerth o breswylfeydd Band 'D' ym mhob band. Yn ogystal, mae un band is (A-) a luniwyd i gynnig y gostyngiad priodol mewn perthynas â phreswylfeydd i bobl ag anabledd, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu gostyngiad o ran pennu band, i'r band sy'n union o dan y band y gosodwyd y breswylfa ynddo yn ôl ei gwerth gwirioneddol.

| **Band** | **A-** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |
| Preswylfeydd Band D | 22 | 5,080 | 16,181 | 14,407 | 13,050 | 14,601 | 8,585 | 3,330 | 536 | 113 |

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

| | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** |
|---|---|---|
| Treth y Cyngor sy'n Gasgladwy | 116,781 | 125,295 |
| Symudiad yn Lwfans Amhariad | (572) | (2,465) |
| **Enillion Net o Dreth y Cyngor (gan gynnwys praeseptau)** | **116,209** | **122,830** |

## 6.8 Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR yn ôl dealltwriaeth genedlaethol. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu'r trethi oddi wrth drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n talu'r arian i gronfa'r NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth yn ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy yn ôl i'r awdurdodau lleol ar sail swm penodol am bob pen o'r boblogaeth. Mae busnesau lleol yn talu trethi sy'n cael eu cyfrifo drwy luosi eu gwerthoedd trethol â gwerthoedd penodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (53.5c am 2020/21 a 52.6c ar gyfer 2019/20).

Ar 31 Mawrth 2021 cyfanswm y trethi annomestig oedd £120,089,070 (£120,492,173 ar 31 Mawrth 2020).

## 6.9 Eiddo, Offeriant a Chyfarpar

| Symudiadau yn 2020-21 | Tai Cyngor | Tir ac Adeiladau Eraill | Cerbydau peiriannau ac Offer | Seilwaith | Asedau Cymunedol | Asedau Dros Ben | Asedau'n cael eu hadeiladu | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth Llyfr Gros 01/04/20** | **384,528** | **726,353** | **27,189** | **315,650** | **5,612** | **19,606** | **52,598** | **1,531,536** |
| Ychwanegiadau | 16,651 | 10,040 | 3,069 | 10,813 | 156 | 1,504 | 32,557 | **74,790** |
| Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbrision | 17,696 | 1,815 | 0 | 0 | 0 | 171 | 0 | **19,682** |
| Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbrision | (3,176) | (2,513) | 0 | 0 | (4) | (440) | 0 | **(6,133)** |
| Y Codiadau Ailbrisio a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas. | 48,938 | 80 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | **49,026** |
| Y Colledion Ailbrisio a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas. | (25,453) | (1,363) | 0 | 0 | (4) | (96) | 0 | **(26,916)** |
| Datgydnabod Gwaredu | (5) | 0 | (1,743) | 0 | 0 | (9) | 0 | **(1,757)** |
| Ailddosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu | 0 | (139) | 0 | 0 | 0 | (40) | 0 | **(179)** |
| Ailddosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi | 0 | (817) | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | **(805)** |
| Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu | 0 | 9,772 | 0 | 2,349 | 0 | 0 | (12,121) | **0** |
| Ailddosbarthiadau: EOC | 0 | (2,931) | 0 | 0 | 0 | 2,931 | 0 | 0 |
| Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbrisio | (64,553) | (1,043) | (93) | 0 | 0 | (90) | 0 | (65,779) |
| **Gwerth Llyfr Gros 31/03/21** | **374,626** | **739,254** | **28,422** | **328,812** | **5,760** | **23,557** | **73,034** | **1,573,465** |
| **Y Dibrisant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/20** | **(46,855)** | **(21,202)** | **(12,605)** | **(95,518)** | **(562)** | **(86)** | **0** | **(176,828)** |
| Y Tâl Dibrisiant | (12,493) | (21,222) | (2,992) | (7,011) | (27) | (78) | 0 | **(43,823)** |
| Y Dibrisiant a Symudwyd i'r Gronfa Ailbrisio | 64,553 | 1,043 | 93 | 0 | 0 | 90 | 0 | **65,779** |
| Datgydnabod Gwaredu | 0 | 0 | 1,718 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,718** |
| Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau | 0 | 183 | 0 | 0 | 0 | (167) | 0 | **16** |
| **Dibrisiant Cronnol i 31/03/21** | **5,205** | **(41,198)** | **(13,786)** | **(102,529)** | **(589)** | **(241)** | **0** | **(153,138)** |
| | | | | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31/03/21** | **379,831** | **698,056** | **14,636** | **226,283** | **5,171** | **23,316** | **73,034** | **1,420,327** |

| Symudiadau yn 2019-20 | Tai Cyngor | Tir ac Adeiladau Eraill | Cerbydau peiriannau ac Offer | Seilwaith | Asedau Cymunedol | Asedau Dros Ben | Asedau'n cael eu hadeiladu | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth Llyfr Gros 01/04/19** | **368,061** | **778,871** | **25,836** | **309,471** | **5,611** | **24,980** | **25,260** | **1,538,090** |
| Ychwanegiadau | 21,205 | 11,015 | 2,098 | 6,450 | 43 | 79 | 28,178 | **69,068** |
| Codiadau Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbrision | 51 | 53,571 | 0 | 0 | 68 | 5,708 | 0 | **59,398** |
| Colledion Ailbriso a gydnabwyd yn y Gronfa Ailbrision | (24) | (35,226) | 0 | 0 | 0 | (6,912) | 0 | **(42,162)** |
| Y Codiadau Ailbrisio a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas. | 0 | 13,333 | 0 | 0 | 0 | 100 | 0 | **13,433** |
| Y Colledion Ailbrisio a Gydnabwyd yn y Ddarpariaeth Gwas. | (4,714) | (30,142) | (1) | (1) | (42) | (4,993) | 0 | **(39,893)** |
| Datgydnabod Gwaredu | 0 | (1,120) | (332) | 0 | 0 | (1,140) | 0 | **(2,592)** |
| Ailddosbarthiadau: i ac o Asedau i'w werthu | (11) | 0 | 0 | 0 | 0 | (602) | 0 | **(613)** |
| Ailddosbarthiadau: i ac o Eiddo Buddsoddi | 0 | 0 | 0 | (308) | 0 | 45 | 0 | **(263)** |
| Ailddosbarthiadau: o Asedau'n cael eu hadeiladu | 0 | 794 | 8 | 38 | 0 | 0 | (840) | **0** |
| Ailddosbarthiadau: EOC | (40) | (3,034) | 0 | 0 | (68) | 3,142 | 0 | **0** |
| Ysgrifennu nôl Dibrisiant i'r swm gros a gariwyd ar ailbrisio | 0 | (61,709) | (420) | 0 | 0 | (801) | 0 | **(62,930)** |
| **Gwerth Llyfr Gros 31/03/20** | **384,528** | **726,353** | **27,189** | **315,650** | **5,612** | **19,606** | **52,598** | **1,531,536** |
| **Y Dibrisiant a'r Amhariad Cronedig ar 01/04/19** | **(34,347)** | **(62,323)** | **(10,377)** | **(88,496)** | **(529)** | **(56)** | **0** | **(196,128)** |
| Y Tâl Dibrisiant | (12,508) | (21,008) | (2,948) | (7,022) | (33) | (463) | 0 | **(43,982)** |
| Y Dibrisiant a Symudwyd i'r Gronfa Ailbrisio | 0 | 61,709 | 420 | 0 | 0 | 801 | 0 | **62,930** |
| Datgydnabod Gwaredu | 0 | 27 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | **327** |
| Symudiadau eraill o ran dibrisiant ac amhariadau | 0 | 393 | 0 | 0 | 0 | (368) | 0 | **25** |
| **Dibrisiant Cronnol i 31/03/20** | **(46,855)** | **(21,202)** | **(12,605)** | **(95,518)** | **(562)** | **(86)** | **0** | **(176,828)** |
| | | | | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31/03/20** | **337,673** | **705,151** | **14,584** | **220,132** | **5,050** | **19,520** | **52,598** | **1,354,708** |

**Cafodd yr holl asedau a ail-ddosbarthwyd yn rhai i'w gwerthu eu gwerthu yn ystod y flwyddyn.**

**Datganiad o'r Asedau Anghyfredol a gedwir yn ôl eu gwerth presennol 2020/21**

Mae'r datganiad canlynol yn dangos y camau a gymerwyd o ran rhaglen dreigl yr Awdurdod i ailbrisio asedau sefydlog. Ymgymerir â'r gwaith prisio gan briswyr yr Awdurdod sy'n perthyn i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Pennir sylfaen y prisio yn y datganiad o bolisïau cyfrifydda.

| | Tai Cyngor £'000 | Tir ac Adeiladau Eraill £'000 | Cerbydau Peiriannau ac Offer £'000 | Asedau Gwarged £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Symudiad yn gwerth teg ar: | | | | | |
| Y Blynyddoedd Blaenorol | 326,472 | 770,140 | 14,897 | 21,813 | 1,133,322 |
| 31 Mawrth 2017 | 9,652 | (13,809) | 6,232 | 12,742 | 14,817 |
| 31 Mawrth 2018 | 14,875 | 50,250 | 1,553 | (7,470) | 59,208 |
| 31 Mawrth 2019 | 17,062 | (27,710) | 3,154 | (2,105) | (9,599) |
| 31 Mawrth 2020 | 16,467 | (52,518) | 1,353 | (5,374) | (40,072) |
| 31 Mawrth 2021 | (9,902) | 12,901 | 1,233 | 3,951 | 8,183 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 31/03/21** | **374,626** | **739,254** | **28,422** | **23,557** | **1,165,859** |

**Ymrwymiadau Cyfalaf**

Ar 31 Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi ymrwymo drwy gontract i waith cyfalaf oedd yn werth tua £35.1 miliwn (£55.0 miliwn ar 31 Mawrth 2020).

| | | £'000 |
|---|---|---|
| **Tai Cyngor** | | **8,142** |
| *Roedd y prif gontractau yn cynnwys:* | | |
| *Glanmor - Porth Tywyn* | *2,181* | |
| *Gwynfryn - Rhydaman* | *1,822* | |
| **Addysg a Phlant** | | **11,343** |
| *Roedd y prif gontractau yn cynnwys:* | | |
| *Ysgol y Castell* | *3,678* | |
| *Ysgol Gorslas* | *3,922* | |
| **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth** | | **1,796** |
| **Adfywio / Datblygu Economaidd** | | **13,839** |
| *Roedd y prif gontractau yn cynnwys:* | | |
| *Prosiect Denu Pentywyn* | *1,942* | |
| *Neuadd Y Farchnad Llandeilo* | *2,968* | |
| *Hen Adeilad yr YMCA, Llanelli* | *3,901* | |
| *Stryd y Farchnad, Llanelli* | *3,532* | |
| *Gweithdai Glanaman* | *1,053* | |
| **Cyfanswm** | | **35,120** |

## 6.10 Asedau Treftadaeth

Cadwyd Asedau Treftadaeth gyda swm net a gariwyd o £2,282,000 ar gyfer 2019/20 a £2,292,000 am 2020/21. Gellir cael rhagor o fanylion am Asedau Treftadaeth y cyngor gan Guradur yr Amgueddfa yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

## 6.11 Eiddo Buddsoddi

Cyfrifyddwyd ar gyfer yr eitemau canlynol o incwm a gwariant yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Incwm rhent o Eiddo Buddsoddi (gan gynnwys cyllid o Lywodraeth Cymru ar gyfer y golled yn incwm) | (767) | (670) |
| Treuliau gweithredol uniongyrchol yn deillio o eiddo buddsoddi | 489 | 453 |
| (Ennill)/colled net | **(278)** | **(217)** |
| Gwariant Anuniongyrchol | 287 | 249 |
| (Enillion)/Colledion net o addasiadau i'r Gwerth Teg | (1,013) | (1,166) |
| Incwm a gwariant yng nghyswllt Eiddo Buddsoddi a newidiadau yn y Gwerth Teg | **(1,004)** | **(1,134)** |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r newid i werth teg Eiddo Buddsoddi dros y flwyddyn:

| | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | 22,035 | 23,152 |
| Ychwanegiadau: | | |
| Gwelliannau | 48 | 28 |
| Gwarediadau: | (5) | (8) |
| Enillion/(Colledion) net o addasiadau i'r gwerth teg | 1,013 | 1,166 |
| Colledion ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (177) | (17) |
| (I)/O Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 238 | 789 |
| | **23,152** | **25,110** |

**Mesuriad Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddi**

Dyma fanylion eiddo buddsoddi'r Cyngor a gwybodaeth am yr hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

| Mesuriadau Gwerth Teg cylchol gan ddefnyddio: | 31 Mawrth 2020 Mewnbynnau anweladwy sylweddol (lefel 3) (Ail-ddatgan) | 31 Mawrth 2020 Gwerth Teg (Ail-ddatgan) | 31 Mawrth 2021 Mewnbynnau anweladwy sylweddol (lefel 3) | 31 Mawrth 2021 Gwerth Teg |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo Masnachol | 8,765 | **8,765** | 9,776 | **9,776** |
| Garejys | 39 | **39** | 39 | **39** |
| Asedau Tir | 14,301 | **14,301** | 15,248 | **15,248** |
| Eiddo Preswyl | 47 | **47** | 47 | **47** |
| **Cyfanswm** | **23,152** | **23,152** | **25,110** | **25,110** |

Mae ffigurau 2019/20 wedi'u hailddatgan i'r categorïau asedau cywir.

**6.12 <u>Buddsoddiadau Tymor Hir</u>**

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Cwm Environmental Cyf. | 329 | 329 |
| Egni Sir Gar Cyfyngedig | 846 | 810 |
| Banciau a Isgwmnioedd a feiddienir yn llwyr - 100% | 673 | 668 |
| | **1,848** | **1,807** |

Er bod CWM Environmental, Llesiant Delta Wellbeing Cyf a Chartrefi Croeso yn is-gwmnïau sy'n golygu paratoi cyfrifon grŵp ar eu cyfer, nid oes cyfrifon grŵp wedi'u paratoi gan na fyddai cyfuno'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod na gallu darllenydd y cyfrifon i weld y gweithgareddau economaidd cyflawn a'r risg o ran y Cyngor.

<u>Cwm Environmental Cyf</u>

Is-gwmni sy'n perthyn yn llwyr i'r Awdurdod yw CWM Environmental Cyf. Sefydlwyd y cwmni yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ar gyfer Gwaredu Gwastraff.

Breiniwyd y cwmni gyda'r Swyddfa Gymreig ar 10 Mawrth 1997 ac roedd buddiannau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2021 fel â ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Cyfalaf Cyfranddaliadau | 329 |

Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronnol.

Mae CWM Environmental Cyf. yn gweithredu dau is-gwmni a feddienir yn llwyr sydd â'r cyfranddaliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Pembrokeshire Recycling Company Ltd | £1.00 |
| Carmarthenshire Recycling Company Ltd | £1.00 |

Mae Pembrokeshire Recycling Company Ltd a Carmarthenshire Recycling Company Ltd wedi'i cofrestru yng Nghymru a Lloegr ac yn gwmni cwsg.

Mae'r Cwmni wedi cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol drafft am y flwyddyn. Mae crynodeb o'r canlyniadau masnachu drafft am y flwyddyn yn diweddu 31 March 2021 wedi ei nodi isod ynghyd â'r asedau net ar y dyddiad hwnnw:

| | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|
| Trosiant | 13,420 |
| Llai: Cost y Gwerthiannau | (9,514) |
| **Elw Gros** | **3,906** |
| Argostau | (3,646) |
| **Elw/(Colled) Net cyn treth** | **260** |
| Treth ar elw/colled | 0 |
| **Elw a Gedwir/(Colled)** | **260** |
| | |
| Asedau Net ar 31 Mawrth 2021 | **4,151** |

Gellir cael copi o'r adroddiad blynyddol oddi wrth y Swyddfa Gofrestredig yn y cyfeiriad canlynol:

Y Brif Swyddfa,
Canolfan Ailgylchu Nant-y-caws
Heol Llanddarog,
Caerfyrddin,
SA32 8BG

<u>Llesiant Delta Wellbeing Cyf</u>

Mae Llesiant Delta Wellbeing Cyf yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod. Cyfanswm gwerth y cyfalaf cyfrannau yw £1. Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni hwn y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronnol.

Mae'n ofynnol i'r cwmni lunio cyfrifon wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 sy'n cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Nodir isod grynodeb o'r canlyniadau masnachu drafft am y flwyddyn a'r asedau net ar 31 Mawrth 2021.

| | **Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|
| Trosiant | 6,591 |
| Llai: Cost y Gwerthiannau | (5,580) |
| **Elw Gros** | **1,011** |
| Argostau | (838) |
| **Elw/(Colled) Net cyn treth** | **173** |
| Treth ar elw/colled | (33) |
| Newidiadau mewn rhwymedigaethau pensiwn diffiniedig | (999) |
| **Elw a Gedwir/(Colled)** | **(859)** |
| Asedau Net/(Rhwymwedigaethau) ar 31 Mawrth 2021 | **(3,402)** |

Catrefi Croeso

Mae Cartrefi Croeso yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod. Cyfanswm gwerth y cyfalaf cyfrannau yw £100. Mae'r buddsoddiad wedi'i gynnwys yn y Buddsoddiadau Tymor Hir ar y Fantolen ac nid yw'r Awdurdod wedi rhoi ymrwymiad i'r cwmni hwn y bydd yn talu unrhyw ddiffygion neu golledion cronnol.

Mae'n ofynnol i'r cwmni lunio cyfrifon wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 sy'n cael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Nodir isod grynodeb o'r canlyniadau masnachu drafft am y flwyddyn a'r asedau net ar 31 Mawrth 2021.

| | **Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|
| Trosiant | 216 |
| Llai: Cost y Gwerthiannau | (42) |
| **Elw Gros** | **174** |
| Argostau | (174) |
| **Elw/(Colled) Net cyn treth** | **0** |
| Treth ar elw/colled | 0 |
| **Elw a Gedwir/(Colled)** | **0** |
| Asedau/(Rhwymedigaethau) Net ar 31 Mawrth 2021 | **2** |

Egni Sir Gar

Bu i Gyngor Sir Caerfyrddin fuddsoddi yn y prosiect ffotofoltaidd solar a sefydlwyd gan Egni Sir Gâr Cyfyngedig, sef cymdeithas budd cymunedol a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif 7193). Roedd y cynllun wedi gosod panelau ffotofoltaidd solar ar 17 o adeiladau annomestig ym mhortffolio'r Cyngor yn 2016. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn 100% gyfranddalwyr o Egni Sir Gar Cyfyngedig.

Gwerthodd y gymdeithas gyfrannau i gyllido'r gwariant cyfalaf a gofynion cyfalaf gweithredol cysylltiedig â datblygu, gosod, a chynnal a chadw'r paneli. Gosodwyd paneli haul ffotofoltäig yn ystod trydydd chwarter 2016.

Cafodd Cytundeb Pryniadau Cyfrannau ei sefydlu rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin ac Egni Sir Gâr Cyfyngedig.

Cafwyd ad-daliad cyfalaf o 4% (cyfrannddaliadau' B ' cyffredin) o £36,000 ei wneud yn ystod y flwyddyn.

| | £'000 |
|---|---|
| Cyfranddaliadau 'A' cyffredin | 100 |
| Cyfranddaliadau 'B' cyffredin | 710 |
| **Cyfanswm Cyfalaf Cyfranddaliadau** | **810** |

Mae gan bob cyfranddaliad werth mewn enw o £1.00 yr un.

## 6.13 Dyledwyr Tymor Hir

| | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| Troi Tai'n Gartrefi (mwy na blwyddyn o hyd) | 738 | 673 |
| Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Cyngor Sir Caerfyrddin) | 786 | 566 |
| Taliadau yn erbyn ystadau pobl mewn cartrefi preswyl (Darparwyr Allanol) | 1,819 | 1,111 |
| Cyfraniad Cyfalaf at fenthyciadau i bobl sy'n prynu eu cartref cyntaf | 1,053 | 1,053 |
| Benthyciadau Ceir | 57 | 48 |
| Benthyciad Scarlets | 2,616 | 2,616 |
| Benthyciad Eglwys Cymundedol Towy | 154 | 163 |
| Benthyciad Canol Trefi | 140 | 243 |
| Benthyciad Llesiant Delta Wellbeing | 5 | 0 |
| Benthyciad Cartrefi Croeso | 2 | 2 |
| Benthyciad Cynghorau Tref a Chymuned | 490 | 498 |
| Benthyciad Cwm Environmental | 321 | 460 |
| Eraill | 119 | 96 |
| | **8,300** | **7,529** |

Mae menter Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru yn darparu benthyciadau di-log i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Bydd y taliadau hyn i landlordiaid yn creu cronfa benthyciadau ailgylchadwy y gellir ei defnyddio yn ystod cyfnod y cynllun sy'n dod i ben.

Cytunodd y Cyngor Sir, fel rhan o'r Cytundeb Datblygu gyda Chlwb Rygbi Llanelli Cyf. (y clwb), i roi benthyg i'r clwb swm o £2.4 miliwn am gyfnod o 15 mlynedd. Ym mis Hydref 2010, cytunodd y Cyngor Sir i amrywiad i delerau'r benthyciad, lle cafodd taliadau llog gwerth £216,000 eu gohirio tan ddiwedd cyfnod y benthyciad yn 2023. Ym mis Hydref 2013, cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar amrywiad yn nhelerau'r benthyciad sef gostwng y llog a

godir amdano o gyfradd osodedig o 7% i gyfradd amrywiadwy o 3.5% yn ogystal â'r gyfradd llog sylfaenol (sy'n 0.1% ar hyn o bryd) gan bennu na fyddai'r gyfradd yn codi'n uwch na 10%.

Rhoddwyd £270,000 yn fenthyciad blwydd-dal ar gyfradd llog amrywiol sef 2.5% uwchlaw y gyfradd sylfaenol (sy'n 0.1% ar hyn o bryd) am gyfnod o 15 mlynedd i Eglwys Gymunedol Tywi yn Rhagfyr 2012 i'w helpu i wireddu prosiect Canolfan Xcel. O ganlyniad i bandemig COVID19 a'r angen Eglwys Gymunedol Tywi yng Nghanolfan Xcel gau yn unol â'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, daethpwyd i gytundeb i ddarparu cymorth ychwanegol drwy grant ac atal ad-daliadau benthyciad dros dro i'r Awdurdod. Disgwylir i'r ad-daliadau hyn ailddechrau yn ystod 2021.

Ymrwymwyd i fenthyciad 10 mlynedd o £321,000 ar gyfradd llog sefydlog o 3.38% gyda CWM Environmental Cyf ym mis Chwefror 2020 er mwyn caffael tir sy'n ffinio â safle Nantycaws. Ymrwymwyd i fenthyciad 5 mlynedd ychwanegol o £201,000 ar gyfradd llog sefydlog o 3.12% gyda CWM Environmental Cyf ym mis Ebrill 2020 er mwyn adeiladu swyddfa newydd ar safle Nant-y-caws.

Mae benthyciadau i Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer gosod polion golau LED newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Menter Buddsoddi i Arbed yw hon.

Nod Benthyciadau Canol y Dref yw cefnogi busnesau i ailddatblygu eiddo gwag neu eiddo sy'n cael ei danddefnyddio yng nghanol trefi i ddefnydd masnachol a/neu breswyl.

## 6.14 Buddsoddiadau Tymor Byr

Buddsoddiadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau | 12,093 | 20,504 |
| Llywodraeth Leol | 0 | 5,000 |
| | **12,093** | **25,504** |

## 6.15 Stocrestrau

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | 1,039 | 1,217 |
| Pryniannau | 5,670 | 5,263 |
| Cydnabuwyd fel traul yn y flwyddyn | (5,490) | (4,891) |
| Balansau a ddilëwyd | (2) | (8) |
| Newidiadau net eraill yn y flwyddyn | 1 | 0 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,217** | **1,581** |

Mae ffigurau 2020/21 uchod yn cynnwys Cyfarpar Diogelu Personol sy'n gysylltiedig â COVID19 a ariennir drwy Gynllun Caledi Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod swm sylweddol o Gyfarpar Diogelu Personol gan Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio yn fewnol yn ogystal ag i'w gomisiynu i wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r swm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ac sy'n weddill mewn storau ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

| | | Nifer yr eitemau a gedwir: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ffedogau** | **Menig** | **Masgiau** | **Misyrnau** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| **Eitemau a gedwir ar 1 Ebrill 2020** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Derbyniwyd | 5,861,200 | 10,492,500 | 6,029,571 | 372,927 | 564 | **22,756,762** |
| Dosrannwyd | (4,967,222) | (8,804,917) | (4,007,258) | (152,417) | (131) | **(17,931,945)** |
| **Eitemau a gedwir ar 31 Mawrth 2021** | **893,978** | **1,687,583** | **2,022,313** | **220,510** | **433** | **4,824,817** |

Nid oes unrhyw werth wedi'i briodoli i'r cyfarpar hwn, ac nid yw wedi cael effaith ar unrhyw ffigurau eraill yn y Datganiad Cyfrifon hwn.

## 6.16 Dyledwyr Tymor Byr

| | **31 Mawrth 2020 £'000 (Ail-ddatgan)** | **31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|---|
| Refeniw a Thollau EM | 1,900 | 5,005 |
| Llywodraeth Ganolog | 24,367 | 47,014 |
| Heddlu, Brigad Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol | 5,286 | 5,769 |
| Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 9,437 | 7,462 |
| Talwyr Treth y Cyngor | 3,817 | 4,964 |
| Tenantiaid Tai* | 1,756 | 1,566 |
| Arall** | 21,207 | 21,945 |
| | **67,770** | **93,725** |

* Ailddatganwyd ffigurau 2019/20 i adlewyrchu £1,102,000 o ddarpariaeth dyledion drwg Denantiaid Tai a ddosbarthwyd yn flaenorol fel Arall.

** Mae benthyciad di-log o £1.35 miliwn o bunnoedd i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi'i gynnwys dan Arall a oedd i'w ad-dalu erbyn 31 Mawrth 2020. Cytunwyd yn ystod y flwyddyn i ymestyn cytundeb y benthyciad 18 mis arall (o 1 Ebrill 2020) ar yr un amodau â'r cytundeb presennol wrth i opsiynau tymor hwy gael eu harchwilio gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllun ad-dalu cadarn.

## 6.17 Arian Parod ac Arian Cyfwerth

Mae balans yr Arian Parod a'r Arian Cyfwerth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 83 | Arian parod a ddelir gan yr Awdurdod | 71 |
| (863) | Cyfrifon cyfredol yn y banc | (867) |
| 21,851 | Adneuon tymor byr gyda banciau, cronfeydd marchnadoedd arian a chyfrif cadw I reoli dyledion | 39,707 |
| 21,010 | Adneuon tymor byr gyda Awdurdodau Lleol | 8,000 |
| **42,081** | **Cyfanswm Arian Parod ac Arian Cyfwerth** | **46,911** |

## 6.18 Benthyciadau Tymor Byr

Benthyciadau sydd i'w had-dalu o fewn deuddeng mis yw'r rhain ac fe'u dadansoddir fel â ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus | 24,877 | 18,367 |
| Benthyciadau'r Farchnad | 64 | 63 |
| Salix a Buddsoddi i Arbed | 750 | 131 |
| | **25,691** | **18,561** |

## 6.19 Credydwyr Tymor Byr

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Refeniw a Thollau EM | (4,521) | (4,919) |
| Llywodraeth Ganolog | (6,368) | (5,475) |
| Heddlu, Brigâd Dân, Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol | (2,911) | (3,762) |
| Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol | (657) | (2,254) |
| Tenantiaid Tai | (561) | (651) |
| Talwyr Treth y Cyngor | (2,430) | (2,997) |
| Cysylltiedig â'r Gweithwyr | (5,928) | (8,750) |
| Arall | (37,187) | (53,768) |
| | **(60,563)** | **(82,576)** |

*****Wedi'i gynnwys dan "Arall" mae'r swm sy'n ddyledys i Gronfa Pensiwn Dyfed (Gweler nodyn 6.38 Trafodion gyda Phartion Cysylltiedig am wybodaeth pellach).

## 6.20 Darpariaethau

Mae'r crynodeb isod yn dangos y symudiad yn lefel y darpariaethau yn ystod 2020/21:

| | 1 Ebrill 2020 £'000 | Gwerth-droad £'000 | Ychwa-negiad £'000 | Defnydd £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol | 81 | 0 | 0 | 0 | 81 |
| Adran Amgylchedd | 238 | 0 | 50 | (59) | 229 |
| Addysg a Phlant | 0 | 0 | 159 | 0 | 159 |
| Adran Cymunedau | 1,176 | (966) | 1,490 | 0 | 1,700 |
| Colledion ar Fuddsoddiadau | 678 | (6) | 0 | 0 | 672 |
| Municipal Mutual Insurance (MMI) | 142 | 0 | 4 | (12) | 134 |
| Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi | 618 | 0 | 0 | (108) | 510 |
| Yswiriant | 672 | 0 | 27 | 0 | 699 |
| | **3,605** | **(972)** | **1,730** | **(179)** | **4,184** |

| Balansau ar 31 Mawrth 2021 | Rhwymedigaethau Cyfredol (< 1 blwyddyn) £'000 | Rhwymedigaethau Tymor Hir (> 1 blwyddyn) £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Adran Y Gwasanaethau Corfforaethol | 81 | 0 | 81 |
| Adran Amgylchedd | 188 | 41 | 229 |
| Addysg a Phlant | 159 | 0 | 159 |
| Adran Cymunedau | 85 | 1,615 | 1,700 |
| Colledion ar Buddsoddiadau | 4 | 668 | 672 |
| Municipal Mutual Insurance (MMI) | 5 | 129 | 134 |
| Darpariaeth Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi | 100 | 410 | 510 |
| Yswiriant | 699 | 0 | 699 |
| | **1,321** | **2,863** | **4,184** |

### Diben y Prif Ddarpariaethau

**Adran y Gwasanaethau Corfforaethol**
Gwneir darpariaethaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus i CThEM mewn perthynas ag addasiad treth cyflogres y flwyddyn flaenorol £41,000. Mae hefyd darpariaeth ar gyfer goramser i gau'r cyfrifon.

**Adran Amgylchedd**
Mae'r cyfanswm yn cynnwys £14,000 ar gyfer gwaith adferol oherwydd ansefydlogrwydd y tir ym Mharc y Goron, drwgddyledion o £69,000 – gwastraff masnachol, £67,000 ar gyfer taliadau trosglwyddo asedau cymeradwy, £27,000 ar gyfer Contract Meddalwedd am gyfnod o 3 blynedd a £51,000 ar gyfer adolygu contractau gwastraff hylendid.

**Addysg a Gwasanaethau Plant**
Y potensial i ran o gais Llywodraeth Cymru am grant Prydau Ysgol am Ddim gael ei ystyried yn anghymwys oherwydd bod ysgolion yn cael eu hailagor. Felly, gwnaed darpariaeth am £159,000.

**Adran Cymunedau**
Gwneir darpariaeth o £984,000 ar gyfer y posibilrwydd o ddileu dyled cyfraniadau preswylwyr, £471,000 i fodloni gofynion newid i ddigidol y DU, £100,000 ar gyfer costau cyfreithiol/bargyfreithwyr ar gyfer erlyniadau sy'n ymwneud â safonau masnach ac iechyd anifeiliaid, £20,000 ar gyfer hyfforddiant COVID19 hanfodol. Crëwyd darpariaeth o ran drwgddyledion o £108,000 yn ymwneud ag incwm sydd heb ei gasglu yn ystod 2016/2017 i 2020/21. Mae darpariaeth o £17,000 yn parhau ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw mewn perthynas â'r difrod i'r seilwaith yn safle Padlwyr Llandysul o ganlyniad i storm Callum.

**Colledion ar Fuddsoddiadau**
Ym mis Hydref 2008, methodd sector bancio Gwlad yr Iâ â chyflawni ei rwymedigaethau ariannol. Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon am symiau a amcangyfrifir na ellir ei adenill.

**Municipal Mutual Insurance (MMI)**
O ran blynyddoedd y polisi cyn 1992/93, gallai'r holl awdurdodau lleol y mae MMI wedi'u hyswirio wynebu'r posibilrwydd o rwymedigaeth yswiriant yn ymwneud â chau MMI ar 30 Medi 1992. Ym mis Ionawr 2012, sbardunodd Cyfarwyddwyr MMI y “Cynllun Trefniant Ariannol ar gyfer MMI" a chyhoeddwyd yr hysbysiad ardoll ar 1 Ionawr 2014. Roedd yr ardoll gychwynnol yn 15% a chynyddodd i 25% ar ddiwedd 2015/16. Tra bo rhwymedigaeth net yn parhau ar fantolen MMI, mae Gweinyddwr y Cynllun yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran hawliadau a bydd yn hysbysu credydwyr y cynllun os oes angen addasu'r ardoll. Gan fod y mater yn dal yn gyfredol, cedwir y ddarpariaeth yn y cyfrifon.

**Ôl-ofal Safleoedd Tirlenwi**
Mae dyletswydd ar endidau sy'n gweithredu safleoedd tirlenwi wneud gwaith adfer a darparu ôl-ofal priodol, gan gynnwys monitro a rheoli'r nwyon a'r trwytholchion a gynhyrchir ar y safleoedd hyn. Mae'r ddarpariaeth hon yn gydnabyddiaeth o'r costau ôl-ofal a ragamcanir ar gyfer safleoedd tirlenwi caeëdig Wernddu a Nant-y-caws.

**Y Ddarpariaeth Yswiriant**
Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer hawliadau yswiriant sydd wedi cael eu cofrestru ac sy'n debygol o ddod i ran yr Awdurdod.

## 6.21 Benthyciadau Tymor Hir

| Y Cyfanswm sy'n Ddyledus ar | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | Dyddiadau Aeddfedu |
|---|---|---|---|
| **Ffynonellau'r Benthyciadau** | | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus | 403,377 | 387,609 | 2021-2069 |
| Benthyciadau'r Farchnad (Nodyn i) | 3,114 | 3,113 | 2021-2055 |
| Benthyciadau di-log (Nodyn ii) | 3,358 | 7,330 | 2021-2036 |
| | **409,849** | **398,052** | |

(i) Benthyciad FMS Wertmanagement AoR yw hwn sydd yn fenthyciad LOBO (Opsiwn Rhoi Benthyg Cymryd Benthyg). Nodir y Cyfradd Llog Cyfatebol. Benthyciad cyfradd llog banc graddedig ydyw, a 4.72 % yw ei gyfradd llog presennol. Caiff yr un sy'n rhoi'r benthyciad ddewis amrywio'r gyfradd llog bob dyddiad talu llog. Os dewisa'r un sy'n rhoi'r benthyciad wneud hynny, caiff yr Awdurdod ddewis derbyn y gyfradd llog newydd neu ad-dalu'r benthyciad i'r un a'i rhoddodd. Mae'n rhaid addasu'r cyfrifon i unioni'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd a godir a'r gyfradd a delir er mwyn dangos gwir gost y benthyciad yn y cyfnod benthyca.

(ii)

**Benthyciadau di-log**

| **Cyfanswm dyledus ar:** | **31 Mawrth 2020 £'000** | **31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|---|
| SALIX (yn cynnwys Re:fit Cymru) | 3 | 1,975 |
| Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi | 1,292 | 1,292 |
| Benthyciadau Canol Trefi | 2,063 | 4,063 |
| | **3,358** | **7,330** |

Darperir y Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi o dan statud gan Lywodraeth Cymru. Diben y cynllun yw rhoi benthyciadau i berchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat er mwyn gwella eiddo neu fod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Mae'r cyllid ar gael tan 31 Mawrth 2030 a chynigir yr arian ymlaen llaw i drydydd partïon ar sail benthyciad di-log i'w had-dalu.

Rhoddir y Benthyciadau Canol Trefi o dan statud gan Lywodraeth Cymru. Diben y cynllun yw darparu benthyciadau i leihau nifer y safleoedd gwag, y safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'r safleoedd diangen yng nghanol trefi a chefnogi arallgyfeirio canol trefi drwy annog defnydd mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac adeiladau gwag, megis preswyl, hamdden ac ar gyfer gwasanaethau allweddol. Mae cyfnod y cyllid yn para tan 31 Mawrth 2036, gyda blaendaliadau i drydydd partïon fydd yn ad-daladwy'n ddi-log.

Mae Re:fit Cymru yn gynllun a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu benthyciadau di-log drwy raglen ariannu Salix am hyd at 10 mlynedd, sy'n ceisio cyflymu'r broses o wella effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad sector cyhoeddus yng Nghymru.

## 6.22 Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor sydd wedi'u Clustnodi

Mae crynodeb o’r cronfeydd wrth gefn a sefydlwyd gan yr awdurdod hwn neu ei ragflaenwyr wedi’i nodi isod:

| | 1 Ebrill 2019 £'000 | Trosglwyddiadau Mewn £'000 | Trosglwyddiadau Allan £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | Trosglwyddiadau Mewn £'000 | Trosglwyddiadau Allan £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yswiriant | 11,401 | 1,925 | (1,132) | 12,194 | 1,890 | (1,178) | 12,906 |
| Cronfa Datblygiadau Mawr | 35,612 | 2,964 | (252) | 38,324 | 1,125 | (450) | 38,999 |
| Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf | 86 | 0 | (86) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arian Cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio Addysg | 6,673 | 2,728 | (493) | 8,908 | 2,958 | (223) | 11,643 |
| Cronfa Datblygu | 1,136 | 509 | (239) | 1,406 | 617 | (1,364) | 659 |
| Cronfa Datblygu Ysgolion | 373 | 32 | (174) | 231 | 75 | (25) | 281 |
| Y Fargen Ddinesig | 3,127 | 1,500 | (2,079) | 2,548 | 2,500 | (263) | 4,785 |
| Buddsoddi i Arbed Goleuadau Cyhoeddus | 1,301 | 0 | 0 | 1,301 | 0 | 0 | 1,301 |
| Cronfa Salix | 119 | 46 | (84) | 81 | 34 | (84) | 31 |
| Ymddeol yn Gynnar(Corfforaethol) | 3,685 | 665 | (50) | 4,300 | 1,009 | (33) | 5,276 |
| Gwerthuso Swyddi | 403 | 0 | (403) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddi Afraid | 753 | 40 | 0 | 793 | 285 | (6) | 1,072 |
| Seilwaith TG | 849 | 0 | (408) | 441 | 0 | 0 | 441 |
| System Rheoli Ariannol | 317 | 0 | 0 | 317 | 0 | 0 | 317 |
| Parc Dewi Sant/St David's Park | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,300 | 0 | 1,300 |
| Cyd Fentrau | 1,180 | 202 | (75) | 1,307 | 168 | (47) | 1,428 |
| Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol | 2,534 | 519 | (903) | 2,150 | 839 | (1,074) | 1,915 |
| Cefnogi Busnesau Sir Caerfyrddin | 179 | 86 | (265) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ty Llanelli | 197 | 0 | (55) | 142 | 0 | 0 | 142 |
| Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol | 124 | 7 | (51) | 80 | 0 | (26) | 54 |
| Rheoli'r Fflyd | 1,932 | 77 | (123) | 1,886 | 105 | (206) | 1,785 |
| Cyllid Cyfalaf Priffyrdd | 1,065 | 58 | 0 | 1,123 | 58 | 0 | 1,181 |
| Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai | 1,631 | 0 | (751) | 880 | 0 | 0 | 880 |
| Cynlluniau Gwasanaethau Tai | 1,931 | 1,303 | (1,382) | 1,852 | 1,078 | (100) | 2,830 |
| Datblygiad Gweithwyr | 335 | 403 | (201) | 537 | 0 | (136) | 401 |
| Brexit | 200 | 0 | 0 | 200 | 0 | 0 | 200 |
| Taith Prydain | 525 | 0 | (175) | 350 | 0 | 0 | 350 |
| Cronfeydd Adrannau | 6,047 | 2,856 | (812) | 8,091 | 8,268 | (820) | 15,539 |
| Ailosod Gwasanaethau (Ar ôl COVID19) | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 2,000 |
| Cronfa Caledi COVID19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,933 | 0 | 3,933 |
| Cronfa Adfer Economaidd | 0 | 0 | 0 | 0 | 450 | 0 | 450 |
| Costau Etholiad y Cyngor Sir | 0 | 0 | 0 | 0 | 350 | 0 | 350 |
| Canolfan Ailgylchu Nant-y-caws | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 676 | 0 | 676 |
| Cronfa Trefniadaeth Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 475 | 0 | 475 |
| Eraill | 200 | 15 | (40) | 175 | 31 | (1) | 205 |
| | **83,915** | | | **91,617** | | | **114,805** |
| **A ddelir gan ysgolion yn unol â RHYLL** | (393) | 1,439 | (3,047) | (2,001) | 10,089 | (822) | 7,266 |
| | **(393)** | | | **(2,001)** | | | **7,266** |

**Yswiriant**
Neilltuwyd cronfeydd er mwyn cyllido costau hawliadau a cholledion eraill a allai ddod i ran yr Awdurdod.

**Cronfa Datblygiadau Mawr**
Cafodd y gronfa hon ei chreu i gefnogi prosiectau datblygu cyfalaf mawr yn y Sir a chaiff ei ddefnydd ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynnedd.

**Arian Cyfalaf MDdA**
Pennwyd swm i dalu costau'r benthyciadau darbodus sy'n cyllido rhaglen Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg a chaiff ei ddefnydd ei hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf 5 mlynnedd.

**Cronfa Datblygu**
Nôd y gronfa hon yw cynorthwyo’r Awdurdod yn ei gynlluniau hir dymor drwy bennu adnoddau ar gyfer prosiectau nad oedd modd ymgymryd â hwy gyda dyraniadau arferol y gyllideb.

**Y Fargen Ddinesig**
Cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant posibl yn y dyfodol mewn perthynas â phrosiectau'r Fargen Ddinesig, megis costau datblygu prosiect, costau benthyca a llog a chyfraniad Sir Gaerfyrddin at gostau gweithredu cyffredinol y Fargen Ddinesig (gan gynnwys y Swyddfa Ranbarthol) yn unol â Chydgytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Buddsoddi er mwyn Arbed - Goleuadau Cyhoeddus**
Arian wrth gefn wedi cael ei neilltuo i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer prosiect Buddsoddi er mwyn Arbed Llywodraeth Cymru i newid lampau stryd yn oleuadau LED pyladwy. Gwaddol y fenter fydd gostyngiad mewn costau ynni a threthi carbon cysylltiedig drwy raglen 3 blynedd lle caiff tua 12,000 o lanternau sodiwm eu troi'n oleuadau LED sy'n defnyddio llai o ynni, a fydd yn cynnwys trefniadau lle mae'r goleuadau'n cael eu pylu am ran o'r nos yn unig.

**Cronfa Salix**
Mae Salix, sef menter gymdeithasol annibynnol sy'n darparu cyllid ar gyfer technolegau profedig sy'n gost-effeithiol wrth arbed CO2, wedi darparu grant ar gyfer yr awdurdod i ganiatáu i fenthyciadau gael eu rhoi i ysgolion / adrannau i ariannu cynlluniau sy'n arbed ynni. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu o'r arbedion a geir yn sgil hynny, ac mae'r gronfa yn cael ei hail-lenwi er mwyn i ysgolion / adrannau eraill elwa o'r cynllun.

**Cronfa Ymddeoliad Corfforaethol**
Sefydlwyd y Gronfa hon i gefnogi polisi’r Awdurdod o ran swyddi afraid ac ymddeoliad cynnar, gan alluogi’r Awdurdod i ddarparu ar gyfer y straen actiwaraidd ar y Gronfa Bensiwn a achosir gan ymddeoliad cynnar neu swyddi afraid.

**Swyddi Afraid**
Sefydlwyd y gronfa hon gan yr Adrannau i gwrdd â’r costau posib a allai godi wedi i gontractau tymor penodol staff ddod i ben pan fydd y cynlluniau a gyllidir yn allanol yn diweddu.

**Seilwaith TG**
Sefydlwyd y gronfa hon er mwyn ategu'r bwriad i newid gweinyddion a seilwaith TG yr Awdurdod.

**System Rheolaeth Ariannol**
Fe’i sefydlwyd i ddarparu ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yn y System Rheolaeth Ariannol newydd.

**Cronfa Parc Dewi Sant**
Mae'r gronfa hon yn darparu cyllid ar gyfer y buddsoddiad angenrheidiol ym Mharc Dewi Sant yn y dyfodol i gefnogi amcanion y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ail-bwrpasu rhai adeiladau ar gyfer gofynion diwygiedig defnyddwyr yn amodol ar sicrhau prydlesi newydd neu estynedig.

**Cŷd Fentrau**
Mae’r Awdurdod wedi llunio nifer o gytundebau Mentrau ar y Cŷd gyda Llywodraeth Cymru. Mae’r incwm rhent a dderbynnir mewn perthynas â’r rhain yn cael ei roi i’r naill ochr er mwyn talu am rwymedigaethau yn y dyfodol.

**Cynlluniau sy'n derbyn Cyllid Allanol**
Cynnig arian cyfatebol ar gyfer prosiectau sydd ar waith neu gynlluniau a fydd yn derbyn cyllid allanol yn y dyfodol.

**Tŷ Llanelli**
Darparu’r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer prosiect Tŷ Llanelli, er mwyn cynorthwyo â chynaliadwyedd y cyfleuster newydd hwn a ystyrir yn rhan annatod o’r cynlluniau hirdymor i adfywio canol y dref.

**Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol**
Gwelodd yr awdurdod y gallai rhai gwasanaethau neu gyfleusterau lleol gael eu gweithredu'n fwy effeithiol gan Grwpiau Cymunedol neu Gynghorau Cymuned. Sefydlwyd y gronfa hon i wella cyfleusterau neu i gynnig cymhelliad ariannol er mwyn symud ymlaen â'r prosiectau hyn.

**Rheoli’r Fflyd**
Sefydlwyd y Gronfa hon i gydraddoli’r gost gydol oes o weithredu a chynnal a chadw cerbydau’r Cyngor, i ddefnyddwyr gwasanaethau dros gyfnodau y cytunwyd arnynt.

**Cyllid Cyfalaf Priffyrdd (Cynllun Menter Benthyca Llywodraeth Leol)**
Sefydlwyd y gronfa er mwyn talu costau benthyca i gyllido rhaglen cynnal a chadw a gwelliannau cyfalaf Priffyrdd.

**Budd-daliadau Treth y Cyngor/Tai**
Mae’r gronfa wrth-gefn hon wedi’i chlustnodi i ddigoni’r costau posibl y bydd Sir Gaerfyrddin yn mynd iddynt yn sgil y gostyngiadau blynyddol yn y grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai, a diwygiadau Lles.

**Cynlluniau Gwasanaethau Tai**
Mae’r gronfa yma wedi ei sefydlu i gynorthwyo prosiectau Tai yn cynnwys Cefnogi Pobl, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, y Cynllun Adsefydlu Syriaid a chynllun prydlesu'r Sector Rhentu Preifat.

**Cronfa Datblygiad Gweithwyr**
Arian wrth gefn a neilltuwyd i ddarparu 4 haen o hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn y Cyngor er mwyn cynorthwyo pobl leol, gan gynnwys pobl ifanc sydd â fawr ddim neu ddim hanes cyflogaeth, i ennill cymwysterau a chael swydd er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

**BREXIT**
Sefydlwyd y gronfa hon i ymdrin ag unrhyw gostau posibl sy'n gysylltiedig â Brexit.

**Taith Prydain**
Sefydlwyd y gronfa hon i ymdrin â chostau cynnal Taith Prydain, y dynion a'r merched, dros y blynyddoedd nesaf.

**Cronfeydd Adrannau**
Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n caniatáu dyraniadau i gronfeydd wrth gefn adrannau, wedi'u hariannu gan danwariant yn ystod y flwyddyn y gellir eu dyrannu ar gyfer prosiectau/gwasanaethau penodol unwaith yn unig. Mae'r ymagwedd hon yn hybu defnydd gofalus o arian cyhoeddus.

**Ailosod Gwasanaethau (Ar ôl COVID19)**
Cyllid a neilltuwyd ar gyfer unrhyw gostau unwaith yn unig o ran ailosod neu aildrefnu gwasanaethau yn ystod cam adfer y pandemig COVID19.

**Cronfa Caledi COVID19**
Neilltuwyd y gronfa wrth gefn o arian gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn i helpu i ddelio ag effaith COVID19.

**Cronfa Adfer Economaidd**
Neilltuwyd y gronfa wrth gefn i helpu i ddatblygu a chyflawni cynllun adfer economaidd y Sir yn dilyn COVID19.

**Costau Etholiad y Cyngor Sir**
Neilltuwyd y gronfa wrth gefn i ariannu cost etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.

**Canolfan Ailgylchu Nant-y-caws**
Sefydlwyd y gronfa hon i ddelio â chostau gweithredu ychwanegol o ganlyniad i dân ar y safle ailgylchu yn Nant-y-caws yn 2021.

**Cynllun Cynaliadwyedd HWB Ysgolion**
Neilltuwyd y gronfa wrth gefn i ddarparu rhaglen cynnal a chadw ac adnewyddu barhaus hirdymor wedi'i chynllunio ar gyfer TG ysgolion.

**Cronfa Trefniadaeth Ysgolion**
Cronfa benodol wrth gefn i helpu i ariannu costau eithriadol yn y dyfodol yn sgil ad-drefnu ysgolion fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

**A Ddelir gan Ysgolion yn unol â RHYLL**
Dyma sefyllfa net balansau pob ysgol. Er bod gan rai ysgolion warged, mae gan eraill ddiffyg. Cydnabyddir y bydd yn cymryd amser mewn llawer o achosion i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i fantoli cyllidebau ysgolion unigol, ac felly cytunir ar gynlluniau adfer diffyg fesul ysgol.

## 6.23 Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | 5,958 | 7,912 |
| Trosglwyddo elw arian parod ar werthiant a gredydwyd fel enillion/colledion wrth eu gwerthu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 3,242 | 391 |
| Derbyniadau Cyfalaf Stadudol | 38 | 113 |
| | 9,238 | 8,416 |
| Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | (1,325) | (512) |
| Ad-daliad benthyciad Tymor Hir | 0 | (62) |
| Cyfraniad o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf tuag at y costau gweinyddol o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol. | (1) | 0 |
| **Balans wrth Gau** | **7,912** | **7,842** |

Mae'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn cynrychioli'r derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod, ar ôl neilltuo'r symiau statudol ar gyfer ad-dalu benthyciadau allanol. Defnyddiwyd yr holl lwfans atgyweiriadau mawr a dderbyniwyd oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn. Nid oedd arian gweddill i'w gario ymlaen mewn perthynas â'r grant hwn.

## 6.24 Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | 5,553 | 2,914 |
| Ychwanegiadau | 2,406 | 14,318 |
| | 7,959 | 17,232 |
| Grantiau a Chyfraniadau wedi'u cymhwyso | (5,045) | (2,128) |
| **Balans Cau** | **2,914** | **15,104** |

## 6.25 Cronfa Ailbrisiad

Mae'r Gronfa Ailbrisiad yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offeriant a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan fydd asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio tuag i lawr neu eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli drwy ddibrisiad,
- neu yn cael eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Mae'r Gronfa ond yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa ei chreu. Caiff enillion cronedig sy'n hanu o ddyddiad cynharach eu cynnwys ym mantolen y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

| 2019-20 £'000 | | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **324,681** | **Balans ar 1 Ebrill** | | **331,684** |
| 59,398 | Ailbrisio asedau i fyny | 19,681 | |
| (42,338) | Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amhariad nas codwyd i'r Warged/Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (6,149) | |
| 17,060 | Gwarged neu ddiffyg wrth ailbrisio asedau anghyfredol nas cofnodwyd yn y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | | 13,532 |
| (8,165) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | (10,345) | |
| (1,892) | Enillion cronedig ar asedau sydd wedi cael eu gwerthu neu eu sgrapio | (93) | |
| (10,057) | Y swm a ysgrifennwyd i ffwrdd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf | | (10,438) |
| **331,684** | **Balans ar 31 Mawrth** | | **334,778** |

## 6.26 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau cyfrifyddu gwahanol ar gyfer defnyddio asedau nad ydynt yn gyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny yn unol â'r darpariaethau statudol. Bydd y costau caffael, adeiladu neu wella yn cael eu tynnu o'r Cyfrif gan fod dibrisiant, colledion oherwydd niwed a dibrisiant asedau anniriaethol yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda symiau cysoni o'r Gronfa Ailbrisiad i drosi ffigurau gwerth teg yn sail costau hanesyddol). Bydd y symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i dalu am y costau caffel, adeiladu a gwella yn cael eu rhoi yn y Cyfrif. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi a hefyd enillion a wireddwyd ar asedau a roddwyd nad ydynt eto wedi'u defnyddio gan yr Awdurdod. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys yr enillion drwy ailbrisiad sydd wedi cronni ar Eiddo, Offeriant a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y cafodd y Gronfa Ailbrisiad ei chreu i gadw'r cyfryw enillion.

Yn Nodyn 6.4 ceir manylion am ffynhonnell yr holl drafodion yn y Cyfrif, ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiad.

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **563,014** | **Balans ar 1 Ebrill** | **553,740** |
| | **Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | |
| (35,819) | Taliadau am ddibrisiant a niwed i asedau nad ydynt yn gyfredol | (33,478) |
| (26,459) | Colledion drwy Ailbrisio Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | 22,110 |
| (736) | Gwariant refeniw a ariannwyd drwy gyfalaf o dan statud | (4,673) |
| (2,883) | Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd drwy waredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (227) |
| 497,117 | | 537,472 |
| 1,892 | Symiau addasu a ddiddymwyd o'r Gronfa Ailbrisiad | 93 |
| 499,009 | Y swm net a ddiddymwyd o gost yr asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 537,565 |
| (99) | Symudiadau ychwanegol o fewn y flwyddyn | (46) |
| 1,325 | Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 512 |
| 1 | Defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu'r Gost o Werthu | 0 |
| 28,349 | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gymhwyswyd i ariannu cyfalaf | 43,871 |
| 5,045 | Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Chymhwyswyd | 2,128 |
| 14,301 | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 15,304 |
| 4,796 | Gwariant cyfalaf a godir ar falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai | 15,343 |
| 552,727 | | 614,677 |
| 1,013 | Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad a (ddebydwyd) neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 1,166 |
| **553,740** | **Balans ar 31 Mawrth** | **615,843** |

## 6.27 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu yn achos incwm a gwariant sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol. Mae hefyd yn ysgwyddo colledion neu'n manteisio ar enillion yn achos pob darpariaeth statudol.

## 6.28 Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion a wireddwyd drwy waredu asedau nad ydynt yn gyfredol, ond lle nad oes setliad ariannol wedi'i wneud hyd yma.

## 6.29 Cronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddiannau yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am y buddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddiannau'n cael eu hennill gan gyflogeion dros flynyddoedd o wasanaeth. Mae'n diweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, y newid yn y rhagdybiaethau a'r elw a gafwyd drwy fuddsoddi unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Serch hynny, yn unol â'r trefniadau statudol rhaid i'r buddiannau a enillir gael eu hariannu gan fod yr Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwyr i gronfeydd pensiwn neu'n talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae balans y debyd ar y Gronfa Bensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillir gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi'u neilltuo i'w bodloni. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd y cyllid wedi'i neilltuo erbyn yr adeg y bydd angen talu'r buddiannau.

| **2019-20**<br>**£'000** | | **2020-21**<br>**£'000** |
|---:|---|---:|
| **(405,637)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(527,462)** |
| (85,316) | Ailfesur y rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net | (1,691) |
| (62,424) | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | (58,475) |
| 25,915 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | 27,170 |
| **(527,462)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(560,458)** |

## 6.30 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r cyfrif hwn yn cynrychioli cost yr hawl i absenoldeb â thâl sy'n ddyledus ond nas cymerwyd ar 31 Mawrth, sy'n cael ei chodi ar gost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac sy'n cael ei gwrthdroi yn y Datganiad Symudiadau Cronfeydd ac yn cael ei chodi ar y cyfrif hwn i gydymffurfio â'r gofynion statudol.

| | **2019-20**<br>**£'000** | **2020-21**<br>**£'000** |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | (3,655) | (4,254) |
| Setlo neu ganslo croniad y flwyddyn flaenorol | 3,655 | 4,254 |
| Croniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol | (4,254) | (5,437) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(4,254)** | **(5,437)** |

## 6.31 Gwariant ac Incwm yn cael eu Dadansoddi yn ôl Natur

Caiff gwariant ac incwm yr Awdurdod eu dadansoddi fel a ganlyn. Mae hwn yn cynnwys gwariant ac incwm o fewn a thu hwnt i gost gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ac mae'n gyson â'r gwarged neu'r diffyg o ran darpariaeth gwasanaethau.

| 2019-20 £'000 (Ail-ddatgan) | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 294,680 | Treuliau cyflogeion | 297,150 |
| 268,389 | Treuliau gwasanaeth arall | 288,724 |
| 29,933 | Ad-daliadau gwasanaethau cymorth | 31,484 |
| 70,444 | Dibrisiant a thaliadau tebyg | 21,712 |
| 53,926 | Llog i'w Dalu a Chostau Tebyg | 54,409 |
| 34,064 | Praeseptau ac Ardollau | 36,462 |
| (259) | (Enillion)/colledion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (164) |
| **751,177** | **Cyfanswm y Gwariant** | **729,777** |
| | **Incwm** | |
| (156,083) | Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall o Wasanaethau | (148,273) |
| (28,329) | Llog ac Incwm Buddsoddiadau | (25,719) |
| (176,502) | Incwm Treth y Cyngor ac Ennillion net y Trethi Annomestig | (181,739) |
| (347,176) | Grantiau a Chyfraniadau | (436,879) |
| **(708,090)** | **Cyfanswm Incwm** | **(792,610)** |
| **43,087** | **(Gwarged)/ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **(62,833)** |

Mae Grant y Gronfa Gofal Canolraddol £894,000 o fewn y Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi'i ailddosbarthu o Ffioedd, Taliadau ac Incwm Arall o Wasanaethau i Grantiau a Chyfraniadau.

## 6.32 Cyllideb Gyfun

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu cytundeb cyllideb gyfun ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar gyfer darparu storfa offer cymunedol integredig. Mae gan yr Awdurdod a'r Bwrdd gytundeb ar waith, lle mae'r partneriaid yn cyfrannu cyllid gwerth £222,568 a £408,940, yn eu tro, at y gyllideb y cytunwyd arni.

Mae unrhyw ddiffyg neu warged yn y gyllideb gyfun ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ddyrannu i bob partner.

## 6.33 Lwfansau'r Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i Aelodau o'r cygor yn ystod y flwyddyn:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Lwfansau | 1,292,580 | 1,324,393 |
| Treuliau | 57,774 | 16,897 |
| **Cyfanswm** | **1,350,354** | **1,341,290** |

Mae rhagor o wybodaeth am Lwfansau Aelodau i'w chael ar wefan yr Awdurdod, www.sirgar.llyw.cymru o dan y pennawd Lwfansau Cynghorwyr.

## 6.34 Enillion Gweithwyr

Nifer y gweithwyr yr oedd eu cyflogau heb gynnwys cyfraniadau pensiwn yn £60,000 neu fwy oedd:

| Band Cyflogau | Nifer y Gweithwyr 2019-20 | Nifer y Gweithwyr 2020-21 | Ymadawodd yn 2020-21 |
|---|---|---|---|
| 60,000 to 64,999 | 45 | 84 | 1 |
| 65,000 to 69,999 | 23 | 35 | 1 |
| 70,000 to 74,999 | 12 | 15 | 0 |
| 75,000 to 79,999 | 9 | 7 | 0 |
| 80,000 to 84,999 | 4 | 5 | 0 |
| 85,000 to 89,999 | 4 | 3 | 0 |
| 90,000 to 94,999 | 14 | 9 | 1 |
| 95,000 to 99,999 | 3 | 12 | 0 |
| 100,000 to 104,999 | 2 | 2 | 1 |
| 105,000 to 109,999 | 2 | 1 | 0 |
| 110,000 to 114,999 | 1 | 3 | 0 |
| 115,000 to 119,999 | 1 | 1 | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm Nifer y Gweithwyr:** | **120** | **177** | **4** |

Mae gwerth y taliadau yn cynnwys taliadau afreidedd/terfynu.

Cynhwysir yn y band uchod wyth athro a gyflogir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae tri ohonynt yn cael eu rhannu rhwng ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir/a reolir ac ysgolion nad ydynt yn wirfoddol a gynorthwyir/a reolir.

Nid yw'r bandiau uchod yn cynnwys uwch-swyddogion sy'n aelodau o Dîm Rheoli'r Awdurdod y rhestrir eu manylion yn y tabl canlynol.

**Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog yn £150,000 neu'n fwy y flwyddyn**

Nodir yn y tabl isod enillion Uwch Swyddogion, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn neu daliadau cyfwerth, ble mae eu cyflog yn £150,000 neu'n fwy.

| Swydd | | Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau) | Cyfraniadau Pensiwn | Lwfansau Treuliau |
|---|---|---|---|---|
| Mr M V James - Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau (i) | 19/20 | 35,014 | 0 | 70 |
| Mrs S W Walters - Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau | 20/21 | 151,967 | 27,810 | 0 |

(i) Ym mis Mehefin 2019, ymddeolodd Mr M V James a phenodwyd y Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi i swydd y Prif Weithredwr.

**Enillion Uwch Swyddogion ble mae eu cyflog rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn**

| Swydd | | Cyflog (yn cynnwys ffioedd a lwfansau) | Cyfraniadau Pensiwn |
|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau (ii) | 19/20 | 120,183 | 18,052 |
| Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi (ii) | 19/20 | 24,138 | 3,645 |
| Cyfarwyddwr Amgylchedd | 19/20 | 128,196 | 19,358 |
| | 20/21 | 131,721 | 24,105 |
| Cyfarwyddwr Cymunedau | 19/20 | 141,016 | 21,293 |
| | 20/21 | 144,893 | 26,515 |
| Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol | 19/20 | 128,196 | 19,358 |
| | 20/21 | 131,721 | 24,105 |
| Cyfarwyddwr Addysg a Phlant | 19/20 | 128,196 | 19,358 |
| | 20/21 | 131,721 | 24,105 |

Ni roddwyd iawndal am golli swydd, buddion mewn nwyddau neu daliadau bonws i'r swyddogion a nodwyd yn nhablau enillion yr Uwch Swyddogion. Ni dalwyd lwfansau treuliau i Uwch Swyddogion lle mae'r cyflog rhwng £60,000 a £150,000 y flwyddyn.

Mae ffigurau cyflogau uwch-swyddogion yn cynnwys ffioedd Swyddog Canlyniadau mewn perthynas ag etholiadau'r Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned.

Er mwyn rhoi gwerth ar y cyfraniadau pensiwn sy'n berthnasol i uwch-swyddogion, defnyddiwyd 18.3%, sef y Gyfradd Gyfrannu Gyffredin ar gyfer tâl pensiynadwy yn 2020/2021 (15.1% yn 2019/20). Nid yw'r gyfradd hon yn ystyried yr Adennill Diffygion sy'n un o rwymedigaethau'r Awdurdod ac nad yw'n ymwneud yn benodol â'r gweithiwr.

(ii) Dilëwyd swydd y Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi ym mis Mehefin 2019 pan benodwyd y Cyfarwyddwr i swydd y Prif Weithredwr.

Roedd cymhareb cyflog y Prif Weithredwr a'r cyflog canolrifol yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

| | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|
| Cyflog y Prif Weithredwr | £147,900 | £151,967 |
| Cyflog canolrif yr holl weithwyr | £23,360 | £24,269 |
| Cymhareb Cyflog y Prif Weithredwr i cyflog canolrif yr holl weithwyr | 6.33 : 1 | 6.26 : 1 |

## 6.35 Pecynnau Ymadael

Yn ystod 2020/2021 gwariodd yr Awdurdod yn sylweddol ar gostau dileu swyddi a dalwyd i'r rhai a oedd yn gadael, ynghyd â chostau taliadau digolledu i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol o ran costau hawlio pensiynau yn gynnar.

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r buddion terfynu wedi'u cynnwys fel rhan o ddiffiniadau'r gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r costau uchod wedi'u nodi yn y tabl isod.

| **Band cost y pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)** | **Nifer y dileu swyddi gorfodol** | | **Eraill sy'n gadael – y nifer a gytunwyd** | | **Cyfanswm y Pecynnau Ymadael yn ôl bandiau cost** | | **Cost gyfan y Pecynnau Ymadael ym mhob band** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
| £0 - £20,000 | 56 | 30 | 19 | 10 | 75 | 40 | **417,584** | **236,498** |
| £20,001 - £40,000 | 4 | 2 | 9 | 4 | 13 | 6 | **375,536** | **190,335** |
| £40,001 - £60,000 | 0 | 0 | 5 | 1 | 5 | 1 | **261,634** | **50,000** |
| £60,001 - £80,000 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | **78,255** | **0** |
| £80,001 - £100,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | **99,823** | **93,701** |
| £100,001 - £150,000 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | **224,304** | **0** |
| **CYFANSWM** | **61** | **33** | **36** | **15** | **97** | **48** | **1,457,136** | **570,534** |

## 6.36 Costau Archwiliad

Yn 2020/21 gwariodd Cyngor Sir Caerfyrddin y canlynol mewn perthynas â ffioedd archwiliad ac arolwg cyllidol, sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru:

| | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Archwiliad Cyllidol | 184 | 178 |
| Mesur Llywodraeth Lleol | 100 | 100 |
| Ardystio Hawliadau a Ffurflenni am Grantiau | 59 | 29 |
| Archwiliad Harbwr Porth Tywyn | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **344** | **308** |

## 6.37 Incwm Grantiau

Credydodd yr Awdurdod y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| | 2019-20 £'000 (Ail-ddatgan) | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Credydwyd i Wasanaethau** | | |
| **Addysg a Gwasanaethau Plant:** | | |
| APADGOS Ôl 16 a Chyllid DOG | 6,272 | 6,981 |
| Grant Plant a Chymunedau | 5,906 | 6,124 |
| Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG). | 6,975 | 6,896 |
| Grant Datblygu Disgyblion (PDG) | 5,062 | 5,042 |
| Cronfa Gofal Canolraddol*** | 894 | 1,007 |
| Grant Addysg yr Awdurdod Lleol | 5,449 | 3,567 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 796 | 632 |
| Grant y Gwasanaethau Ieuenctid | 539 | 539 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion:** | | |
| Cefnogi Pobl | 6,467 | 6,526 |
| Cynllun Benthyciadau y Sector Rhentu Preifat | 0 | 533 |
| Cynllun Adsefydlu Syriaid** | 451 | 835 |
| Grant Gofal Iechyd Parhaus | 812 | 812 |
| Wanless** | 486 | 508 |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* | 329 | 1,151 |
| Cronfa Gofal Canolraddol** | 2,125 | 2,126 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 3,914 | 1,051 |
| Cronfa Trawsnewid Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cym | 3,634 | 8,319 |
| Grant y Gweithlu a Chynaliadwyedd | 1,833 | 2,438 |
| **Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth:** | | |
| Cymhorthdal Tocynnau Teithio Rhatach | 1,960 | 2,079 |
| Grant Cynnal a Chadw Ffyrdd Lleol | 0 | 899 |
| Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol | 760 | 870 |
| Cynllun Datblygu Gwledig | 442 | 212 |
| **Gwasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol, Rheoleiddio a Chynllunio:** | | |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 1,110 | 1,130 |
| CDRE (ERDF) | 682 | 544 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 619 | 652 |
| Cynllun Datblygu Gwledig | 840 | 663 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 424 | 347 |
| Grant Plant a Chymunedau | 322 | 280 |
| Grant Storom Callum | 500 | 135 |
| **Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd:** | | |
| Budd-daliadau Tai | 45,604 | 41,913 |
| COVID19 - Caledi | 0 | 23,107 |
| COVID19 - Colli Incwm | 0 | 9,704 |
| COVID19 - Gweinyddu Grantiau Busnes | 0 | 846 |
| COVID19 - Cynydd yng Nghostau Gweinyddol Treth Gyngor | 0 | 713 |
| COVID19 - Eraill Llywodraeth Cymru | 0 | 974 |
| COVID19 - Grantiau Addysg a Gwasanaethau Plant | 0 | 4,533 |
| COVID19 - Eraill | 0 | 2,175 |
| Grantiau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru* | 5,259 | 6,244 |
| Grantiau eraill** | 5,858 | 5,417 |
| **Cyfanswm** | **116,324** | **158,524** |

* Mae'r canlynol wedi'u hailddatgan o Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru a ariannwyd yn 2019/20: Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol £329,000.
**Mae'r canlynol wedi'u hailddatgan o Grantiau Eraill yn 2019/20: Cynllun Adsefydlu Syriaid £451,000; Grant Wanless £486,000; Cronfa Gofal Canolraddol £2,125,000.
***Mae’r Grant Gronfa Gofal Canronaddol o fewn Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi’i ailddosbarthu o Ffioedd, Taliadau ac Incwm Gwasanaethau Eraill.

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Grant Cynnal Refeniw** | **200,096** | **215,251** |
| **Grantiau Cyffredinol gan Lywodraethau*** | **0** | **4,795** |
| **COVID19 - Colli Incwm ynglyn a Eiddo Buddsoddi** | **0** | **120** |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif/Grant Gwella Adeiladu Ysgolion | 4,359 | 7,525 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 6,210 | 10,966 |
| Grantiau Trafnidiaeth | 4,531 | 13,482 |
| Cronfa Gwella Priffyrdd | 1,501 | 1,498 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,639 | 4,874 |
| Cynllun Datblygu Gwledig | 0 | 380 |
| Cronfa Gofal Canolraddol | 0 | 1,980 |
| Grant Cyfalaf Cynnal Ysgolion | 2,648 | 2,995 |
| ERDF | 3,224 | 4,027 |
| Grant Twrisitaeth | 1,236 | 3,622 |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | 5,407 | 6,840 |
| **Cyfanswm** | **30,755** | **58,189** |

*Derbyniodd yr Awdurdod incwm gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â Thrawsnewid Digidol, Cyfraniad y Strategaeth Arbedion a Grant y Dreth Gyngor. Mae'r rhain wedi'u categoreiddio fel Grantiau Llywodraeth Gyffredinol.

Mae’r Awdurdod wedi cael nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion nad ydynt wedi cael eu cydnabod fel incwm eto gan fod amodau’n gysylltiedig â hwy a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i arian neu eiddo gael ei ddychwelyd i’r rhoddwr. Mae’r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw** | | |
| Cymunedol - amrywiol | 532 | 364 |
| Amgylcheddol - amrywiol | 1,883 | 310 |
| Addysg - amrywiol | 1,346 | 2,528 |
| Prif Weithredwr - amrywiol | 215 | 141 |
| | **3,976** | **3,343** |

## 6.38 Trafodion gyda Phartïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion sylweddol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i'r Awdurdod eu rheoli neu ddylanwadu arnynt. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

### Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Llywodraeth Ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol mae'r Cyngor yn gweithredu o dano, yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau nifer o'r trafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. budd-daliadau tai). Caiff y grantiau a geir oddi wrth adrannau llywodraethau eu nodi yn Nodyn 6.37.

### Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyflawnodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin ddyletswyddau Swyddog Adran 151 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth (taladwy i Sir Gaerfyrddin). Yn ogystal, darparwyd nifer o wasanaethau ariannol a chymorth TGCh eraill gan y Cyngor. Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn codi tâl o £10.4 miliwn (£9.8 miliwn yn 2019/20) ar Sir Gaerfyrddin fel un o chwe Awdurdod Sir Unedol (Gweler Nodyn 5.2).

Ceir isod grynodeb o drafodion Cyngor Sir Caerfyrddin ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm | 346 | 297 |
| | | |
| | 2020 | 2021 |
| Balansau heb eu talu ar 31ain Mawrth: | £'000 | £'000 |
| Dyledwyr | 185 | 356 |

### Cronfa Bensiwn Dyfed

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Gronfa yn cael ei harchwilio gan bwyllgor, sy'n cynnwys aelodau o blith Cynghorwyr Sir Caerfyrddin, ac sy'n cael ei gynghori gan ymgynghorydd annibynnol. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw Swyddog Cyllid Cyfrifol Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd. Yn yr un modd, Swyddog Monitro'r Cyngor yw Swyddog Monitro'r Gronfa Bensiwn hefyd.

Manylir ar y trafodion rhwng y ddau gorff yn Nodyn 6.44. Cododd y Cyngor swm o £1.2 miliwn (£1.1 miliwn yn 2019/20) ar y Gronfa Bensiwn mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2020/21. Mae Credydwyr Tymor Byr (Nodyn 6.19) yn cynnwys swm o £8.8 miliwn sy'n ddyledus i Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2021 (£4.9 miliwn ar 31 Mawrth 2020).

**CWM Environmental Cyf**

Mae CWM Environmental Cyf yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.12 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir. Yn dilyn newidiadau llywodraethu fel yr amlinellir yn Nodyn 6.1.18, penodwyd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd yn un o gyfarwyddwyr cwmni CWM Environmental. Hefyd, rheolir buddiant y Cyngor fel cyfranddaliwr drwy Fwrdd Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ogystal â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd.

Cododd Cwm Environmental swm o £10.31 miliwn (£8.70 miliwn yn 2019/20) ar y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau gwastraff yn ystod 2020/21, gan gynnwys £1.02m ar gyfer gwaith a ariennir gan grant yr Economi Gylchol. Mae Credydwyr Tymor Byr (Nodyn 6.19) yn cynnwys swm o £0.75 miliwn sy'n ddyledus i Cwm Environmental ar 31 Mawrth 2021 (£0.64 miliwn ar 31 Mawrth 2020).

Mae manylion benthyciad rhwng yr Awdurdod a CWM Environmental Cyf wedi'u cynnwys yn Nodyn 6.13 o dan 'Dyledwyr Tymor Hir'.

**Egni Sir Gar Cyfyngedig**

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Ymddiriedolwr Gwarchod cofrestredig Egni Sir Gâr Cyfyngedig ac mae'r Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau ar y bwrdd. Ceir manylion buddsoddiadau yn Nodyn 6.12 o dan Fuddsoddiadau Tymor Hir.

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

Yn ystod 2020/21, arhosodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau yn ei rôl fel un o ymddiriedolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Nodir manylion ynghylch y benthyciad yn Nodyn 6.16. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Cyngor daliadau o £19,000 ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

**Cartrefi Croeso Cyfyngedig**

Mae Cartrefi Croeso Cyfyngedig yn gwmni tai ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae gan y cwmni dri chyfarwyddwr, a benodir gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, ac yn ystod y flwyddyn roedd yn cynnwys un Cynghorydd ac un swyddog. Mae materion a gadwyd yn ôl gan gyfranddalwyr yn cael eu gweithredu gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd gostyngiad o £214,000 yng ngwariant Cartrefi Croeso a ariennir gan y Cyngor. Y balans diwygiedig a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth oedd £605,000.

**Llesiant Delta Wellbeing**

Mae Llesiant Delta Wellbeing yn gwmni a sefydlwyd yn 2017/18 i ehangu a thyfu'r gwasanaeth Llinell Gofal sydd ym mherchnogaeth lwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Cyngor yn cyflawni materion a gadwyd yn ôl o ran cyfranddalwyr drwy grŵp llywodraethu cyfranddalwyr, sy'n cynnwys aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a Chynghorwyr eraill.

Nodir crynodeb o drafodion Cyngor Sir Caerfyrddin â Llesiant Delta Wellbeing isod:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 3,791 | 7,903 |
| Incwm | 815 | 865 |

| | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Balansau heb eu talu ar 31ain Mawrth: | **£'000** | **£'000** |
| Credydwyr | 454 | 1,501 |
| Dyledwyr | 482 | 587 |

Mae'r gwariant yn cynnwys taliad i Llesiant Delta Wellbeing am ddarparu gwasanaethau Llinell Gofal i'r Cyngor, ar gyfer ei ddinasyddion ei hun ac er mwyn cyflawni rhwymedigaethau contractiol sydd gan y Cyngor gyda chwsmeriaid trydydd parti cyflawni prosiect CONNECT o fewn Rhaglen 1 Cronfa Trawsnewid Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn ogystal â'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu.

Mae'r incwm yn cynnwys y gost a gytunwyd ar gyfer gwasanaethau cymorth a ddarperir i Llesiant Delta Wellbeing a ddarperir gan weithwyr y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y cwmni ei weithgarwch Delta Connect sy'n cael ei ariannu gan grant drwy Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a gynhelir gan y cyngor.

**Buddiannau Aelodau**

Mae gan yr Awdurdod drefniadau mewn lle sy'n gofyn i'r aelodau a'r swyddogion i adnabod a datgelu trafodion gyda phartion cysylltiedig.

Mae gan aelodau'r cyngor rheolaeth uniongyrchol dros polisiau cyllidebol a gweithredol y cyngor. Dangosir cyfanswm lwfansau'r aeloadau a dalwyd yn 2020/21 yn Nodyn 6.33.

Talodd yr awdurdod grantiau gwerth £39,000 i sefydliadau yr oedd gan un ar ddeg aelod fuddiant ynddynt. Rhoddwyd y grantiau gan ystyried datganiadau o fuddiant mewn ffordd briodol. Ni chymerodd yr aelodau perthnasol ran mewn unrhyw drafodaeth na phenderfyniad ynghylch y grantiau.

**Buddiannau Swyddogion**

Nid oes unrhyw drafodion perthnasol i'w datgelu am y flwyddyn.

## 6.39 Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd a Threfniadau Tebyg Arall

**Partneriaeth Pensiwn Cymru**

Mae Gweithredwr Cronfa Fuddsoddi Cymru wedi cael ei benodi gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru i reoli buddsoddiadau a lleihau treuliau rheoli buddsoddiadau ar gyfer yr wyth cronfa bensiwn sydd yng Nghymru. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a gweithredu penderfyniadau a wneir gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw Swyddog Cyllid Cyfrifol Partneriaeth Bensiwn Cymru hefyd. Yn yr un modd, Swyddog Monitro'r Cyngor yw Swyddog Monitro Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd.

Cododd y Cyngor swm o £138,000 (£133,000 yn 2019/20) ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2020/21.

| | Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020-21 Cyfanswm £'000 | |
|---|---|---|
| Gwariant | 706 | * |
| Incwm | (706) | |
| (Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn | 0 | |
| Asedau Cyfredol | 382 | |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (382) | |
| Cyfanswm Asedau llai Rhwymwdigaethau | 0 | |

* Rhennir y gwariant yn gyfartal rhwng wyth o gronfeydd y CPLIL. Yr eithriad yw pan fo Ymgynghorydd Allanol yn darparu gwasanaeth ar gyfer cronfeydd penodol y CPLIL o fewn y gronfa. Mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Cronfeydd priodol. Dyma wyth o gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
Cronfa Bensiwn Clwyd
Cronfa Bensiwn Dyfed
Cronfa Bensiwn Gwent Fawr
Cronfa Bensiwn Gwynedd
Cronfa Bensiwn Powys
Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf

## Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)

Mae ERW yn gynghrair o chwe awdurdod lleol yn Ne-Orllewin a Chanolbarth Cymru sy'n gweithio i wella safonau addysg plant a phobl ifanc yn y rhanbarth. Dangosir cyfran yr Awdurdod o Fantolen a Chyfrif Incwm a Gwariant y Trefniant ar y Cyd isod y tabl isod ar gyfer 2019/20 gan nad yw ffigurau 2020/21 ar gael ar hyn o bryd.

Bydd y datganiad hwn yn cael ei ddiweddaru â ffigurau 2020/21 wedi'u harchwilio.

| | ERW | |
|---|---|---|
| | 2019-20 | |
| | Cyfanswm | Rhan CSG |
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant | 645 | 137 |
| Incwm | (574) | (122) |
| Llog Net Pensiynau | 20 | 4 |
| (Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn | 91 | 19 |
| Asedau Cyfredol | 2,883 | 614 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (2,461) | (524) |
| Rhwymedigaethau Tymor Hir | (407) | (87) |
| Cyfanswm Asedau llai Rhwymwdigaethau | 15 | 3 |
| Cronfeydd | 15 | 3 |
| Cyfanswm Cyllido | 15 | 3 |

Yng Nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth 2021, penderfynwyd y byddai ERW yn cael ei ddiddymu ar 31 Awst 2021 a bod model consortiwm newydd yn cael ei weithredu.

## Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad o £1.3 biliwn mewn 9 prosiect mawr ledled Dinas-Ranbarth Bae Abertawe – sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei harwain gan y pedwar awdurdod lleol rhanbarthol drwy Gytundeb Cyd-bwyllgor, ynghyd â phartneriaid di-bleidlais - Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ceir isod fersiwn drafft o'r Cyfrif Incwm a Gwariant a'r Fantolen ar gyfer y flwyddyn a oedd yn gorffen ar 31 Mawrth 2021:

| | Dinas-Ranbarth Bae Abertawe |
|---|---|
| | 2020-21 |
| | Cyfanswm |
| | £'000 |
| Gwariant | 675 |
| Incwm | (617) |
| (Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn | 58 |
| Asedau Cyfredol | 43,141 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (130) |
| Cyfanswm Asedau llai Rhwymwdigaethau | 43,011 |
| Cronfeydd | 43,011 |
| Cyfanswm Cyllido | 43,011 |

Yn unol â'r Cytundeb mae'r Cyngor yn cyfrannu £50,000 bob blwyddyn i gefnogi swyddogaethau canolog a gweinyddol y rhaglen.

**Amlosgfa Gorllewin Cymru (Parc Gwyn, Arberth)**

Yn ystod y flwyddyn, daeth i'r amlwg fod yr Awdurdod yn cadw cyfran ariannol yn Amlosgfa Gorllewin Cymru, a weithredir gan Gyngor Sir Penfro. Mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu'r union ffigurau i'w cynnwys yn y cyfrifon, ond yn seiliedig ar gyfran o 14%, amcangyfrifir mai £230,000 yw'r gwarged a gronnwyd sy'n ddyledus i Gyngor Sir Caerfyrddin. Er mwyn bod yn ofalus, nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn yr asedau a gydnabyddir ar fantolen Sir Gaerfyrddin.

## 6.40 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Caiff cyfanswm y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn y flwyddyn ei ddangos yn y tabl isod ynghyd â’r adnoddau a ddefnyddiwyd i’w ariannu. Lle bo gwariant cyfalaf i gael ei ariannu yn y blynyddoedd i ddod trwy godi symiau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr Awdurdod, mae’r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf, sy’n mesur y gwariant cyfalaf a wnaethpwyd yn hanesyddol gan yr Awdurdod nad yw wedi cael ei ariannu eto. Caiff y Gofyniad Ariannu Cyfalaf ei ddadansoddi yn ail ran y nodyn hwn.

| | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | | |
| Eiddo, Offeriant a Chyfarpar | 69,068 | 74,790 |
| Eiddo Buddsoddi | 48 | 28 |
| Asedau Treftadaeth | 0 | 10 |
| Benthyciadau Tymor Hir | 961 | 300 |
| Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud | 6,337 | 9,690 |
| | 76,414 | 84,818 |
| **Ffynonellau Ariannol** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,326 | 512 |
| Grantiau llywodraeth a Chyfraniadau Arall | 33,951 | 48,888 |
| Cronfa wrth gefn grantiau heb eu cymhwyso | 5,044 | 2,127 |
| Symiau a neilltuwyd o refeniw | 3,409 | 2,227 |
| Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | 1,388 | 13,116 |
| Benthyciadau | 31,296 | 17,948 |
| | 76,414 | 84,818 |
| | | |
| **Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol** | **484,384** | **501,378** |
| **Esboniad o’r Newidiadau yn y Flwyddyn** | | |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (a gynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau) | 3,303 | 3,198 |
| Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (nas cynhelir gan gymorth ariannol gan lywodraethau) | 13,691 | (689) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 16,994 | 2,509 |
| | | |
| **Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol** | **501,378** | **503,887** |

## 6.41 Prydlesi

**Yr Awdurdod fel y Prydlesai**

Prydlesi Gweithredol

Mae’r Awdurdod yn rhenti eiddo ar brydles o dan brydlesi gweithredol at y dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau cymunedol, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol

- at ddibenion datblygu economaidd i ddarparu safleoedd fforddiadwy addas i fusnesau lleol.

Y canlynol yw'r taliadau lleiaf am brydlesi sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo:-

| | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 639 | 646 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 1,532 | 2,220 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 4,343 | 3,319 |
| | **6,514** | **6,185** |

Isod mae’r gwariant a godwyd i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â’r prydlesi hyn:

| | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau isaf prydlesi | 1,165 | 1,036 |

**Yr Awdurdod fel y Prydleswr**

Prydlesi Gweithredol

Mae’r Awdurdod yn gosod eiddo ar brydles o dan brydlesi gweithredol at y dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau cymunedol, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymunedol

- at ddibenion datblygu economaidd i ddarparu safleoedd fforddiadwy addas i fusnesau lleol.

Isod mae'r incwm a chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesi hyn:

| | 2019-20 £'000 (Ail-ddatgan) | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 1,301 | 1,338 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 3,559 | 3,569 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 23,985 | 23,595 |
| | **28,845** | **28,502** |

Mae balans 2019/20 wedi cael ei hailddatgan oherwydd newid yn y sail cyfrifo.

Nid yw'r taliadau prydles lleiaf a dderbynnir yn cynnwys rhenti sy'n amodol ar ddigwyddiadau a gynhelir ar ôl llofnodi'r brydles.

Yn 2020/21 roedd y rhenti amodol y gallai'r Awdurdod eu derbyn yn £5,105 (£98,314 yn 2019/20).

Mae'r Awdurdod hefyd yn dal gwahanol asedau cyfalaf, yn bennaf cerbydau, peiriannau ac offer swyddfa a ariennir o dan delerau prydlesi gweithredol ac y cyfrifyddir ar eu cyfer fel y cyfryw, gyda'r rhenti'n cael eu codi fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 6.42 Colledion Amhariad

Gwnaethpwyd asesiad ar ddiwedd y flwyddyn sy'n dangos nad oes unrhyw achosion o amhariad i asedau'r Awdurdod.

## 6.43 Cyfrifyddu ar gyfer Cynlluniau Pensiynau fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn darparu budd-daliadau penodedig i athrawon ar ôl iddynt ymddeol, ac mae'r awdurdod yn cyfrannu at y costau trwy roi cyfraniadau sydd wedi'u seilio ar ganran o gyflogau pensiynadwy'r aelodau.

Mae'r cynllun yn dechnegol yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol fel sail ar gyfer cyfrifo cyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Prisir y gronfa dybiannol bob pedair blynedd.

Nid yw'r Awdurdod yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol sylfaenol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad Cyfrifon hwn, fe'i cyfrifir felly ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2020/21 talodd Cyngor Sir Caerfyrddin £15 miliwn i'r Adran Addysg mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sef 23.68% o dâl pensiynadwy athrawon a darlithwyr. Y ffigurau am 2019/20 oedd £12.9 miliwn a 16.48% am y pum mis cyntaf a 23.68% o Medi 2019. Roedd £1.3 miliwn heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir mai £15.2 miliwn fydd y cyfraniadau i'w talu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am bob taliad pensiwn sy'n ymwneud â blynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu ynghyd â'r codiadau cysylltiedig. Yn 2020/21 roedd y rhain yn dod i swm o £0.358 miliwn.

Mae'r awdurdod yn gyfrifol am gostau unrhyw fudd-daliadau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r Cynllun Athrawon. Mae'r budd-daliadau hyn wedi'u cronni'n llawn yn y rhwymedigaeth pensiynau a ddisgrifir uchod.

**6.44 <u>Cynlluniau Pensiwn Budd-daliadau Diffiniedig</u>**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a chyflogeion eraill, mae'r Awdurdod yn rhoi cyfraniadau tuag at gost budd-daliadau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y budd-daliadau hyn yn daladwy nes y bydd y gweithwyr yn ymddeol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud y taliadau. Mae'n rhaid datgelu'r rhwymediaethau i wneud y taliadau hyn pan fydd gweithwyr yn ennill eu hawliau at y dyfodol.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweinyddir ef gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae'n gynllun budd-daliadau penodol, sy'n golygu fod yr awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa. Cyfrif lefel y cyfraniadau i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaeth o ran pensiynau a'r asedau a fuddsoddwyd.

Gweithredir Cronfa Bensiwn Dyfed dan fframwaith rheoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phanel Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Pennir polisi yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiwn. Penodir rheolwyr buddsoddi'r gronfa gan y Pwyllgor ac fe'u cynghorir gan Ymgynghorydd Buddsoddi annibynnol a swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.

Y risgiau pennaf i'r Awdurdod yn sgil y cynllun yw'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, newidiadau statudol yn y cynllun, newidiadau yn strwythur y cynllun (h.y. bod llawer o arian yn cael ei godi o'r cynllun), newid o ran chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Caiff y rhain eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i glustnodi i'r Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai y symiau sy'n ofynnol yn statudol fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu.

**Buddion yn ôl Disgresiwn ar ôl Ymddeol**

Mae buddion yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol, pan ymddeolir yn gynnar, yn drefniant buddion diffiniedig nas cyllidir, a thano cydnabyddir rhwymedigaethau pan roddir dyfarniadau. Nid oes asedau wedi'u cronni gan y cynllun i dalu am y rhwymedigaethau pensiwn hyn.

**Trafodyn yn ymwneud â budd-daliadau ôl-gyflogaeth**

Mae cost budd-daliadau ymddeol yn cael eu cydnabod yng Nghostau'r Gwasanaethau pan fo'r gweithwyr yn ennill cyflog yn hytrach na phan fo'r gweithiwr yn eu derbyn fel pensiwn. Fodd bynnag mae'r tâl a gynhwysir yn nhreth y cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daldawy yn ystod y flwyddyn, felly mae gwir gost budd-daliadau ymddeol yn cael eu tynnu yn ôl allan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Gwnaed y trafodion canlynol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad ar Falans Cronfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| **Cost y Gwasanaethau:** | | |
| Cost y Gwasanaeth Cyfredol | 46,741 | 45,495 |
| Costau Gwasanaeth Blaenorol | 4,518 | 56 |
| Setliadau a Chwtogiadau | 1,226 | 57 |
| **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | |
| Cost y Llog Net | 9,939 | 12,867 |
| **Cyfanswm y Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | 62,424 | 58,475 |
| **Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth eraill a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net sef: | | |
| Yr adenillion ar asedau'r cynllun | 112,500 | (250,531) |
| Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau | 43,121 | (29,757) |
| Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (42,370) | 0 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (27,935) | 281,979 |
| **Cyfanswm y Budd-daliadau Ol-gyflogaeth a godwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | 147,740 | 60,166 |
| **Datganiad Newidiadau i Gronfeydd** | | |
| Gwrthdroi symiau net a godwyd i'r Warged neu Ddiffyg ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau ar gyfer Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod | (62,424) | (58,475) |
| **Y Swm gwirioneddol a gynhwyswyd yn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau eleni:** | | |
| Cyfraniadau Cyflogwyr sy'n daladwy i'r Cynllun | 25,915 | 27,170 |

## Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Budd-daliadau Ôl-gyflogaeth

### Cyngor Sir Gâr

Cysoni Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun:

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,121,653 | 1,031,889 |
| Y llog ar asedau'r cynllun | 26,876 | 24,745 |
| Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r asedau | (112,500) | 250,531 |
| Costau Gweinyddiaeth | (515) | (533) |
| Setliadau | 0 | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 25,915 | 27,170 |
| Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | 8,149 | 8,658 |
| Budd-daliadau a dalwyd | (37,689) | (37,536) |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,031,889 | 1,304,924 |

Cysoni gwerth rhwymedigaethau'r cynllun ar hyn o bryd:

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | (1,527,290) | (1,559,351) |
| Cost y Gwasanaeth Cyfredol | (46,741) | (45,495) |
| Cost llog | (36,300) | (37,079) |
| Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun | (8,149) | (8,658) |
| Yr enillion a brofwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaethau | (43,121) | 29,757 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 42,370 | 0 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd yn deillio o newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 27,935 | (281,979) |
| Cwtogiadau | (1,226) | (57) |
| Setliadau | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a dalwyd | 37,689 | 37,536 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | (4,518) | (56) |
| Balans ar 31 Mawrth | (1,559,351) | (1,865,382) |
| **Rhwymedigaethau Net y Cynllun** | **(527,462)** | **(560,458)** |

Mae asedau'r Gronfa Bensiwn yn cynnwys:

| | | Dyfynnwyd | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitis | DU | Ie | 240,637 | 277,817 |
| | Fyd-eang | Ie | 0 | 339,280 |
| | Cronfeydd Cyfun tramor* | Na | 229,695 | 0 |
| | UD | Ie | 115,881 | 141,454 |
| | Canada | Ie | 4,644 | 5,742 |
| | Siapan | Ie | 34,568 | 43,976 |
| | Ymyl Y Mor Tawel | Na | 10,628 | 13,441 |
| | Marchnadoed Sy'n Datblygu | Na | 75,741 | 111,441 |
| | Ewropeaidd heblaw DU | Ie | 28,067 | 33,537 |
| Bondiau | Cysylltiedig â Mynegai'r DU | Ie | 40,656 | 33,928 |
| | Corfforaethol DU | Na | 104,118 | 0 |
| | Credyd Byd Eang | Ie | 0 | 117,443 |
| Eiddo | Cronfeydd Eiddo | Na | 126,510 | 144,194 |
| Amgen | SAIF | Na | 15,585 | 27,403 |
| Arian | Cyfrifon Arian | Ie | 5,159 | 15,268 |
| **Cyfanswm** | | | **1,031,889** | **1,304,924** |

*Mae Cronfa Incwm Amgen Strategol (SAIF) wedi'i hailddatgan o Gronfeydd Cyfun Tramor yn 2019/20.

**Hanes y Cynllun**

| | 2016-17 £'000 | 2017-18 £'000 | 2018-19 £'000 | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth presennol y rhwymedigaethau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | (1,391,448) | (1,383,009) | (1,527,290) | (1,559,351) | (1,865,382) |
| Gwerth teg yr asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 1,030,154 | 1,062,305 | 1,121,653 | 1,031,889 | 1,304,924 |
| **Gweddillion/(diffyg) yn y cynllun** | **(361,294)** | **(320,704)** | **(405,637)** | **(527,462)** | **(560,458)** |

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan yr Awdurdod yn y tymor hir i dalu budd-daliadau ôl-gyflogaeth. Mae cyfanswm net y rhwymedigaeth, sef £560 miliwn, yn cael effaith sylweddol ar werth net yr Awdurdod fel y'i cofnodir yn y fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod dal yn iach, gyda'r diffyg yn y cynllun llywodraeth leol yn cael ei wrthbwyso gan gyfraniadau mwy dros weddill bywyd gwaith y cyflogeion (h.y. cyn bod yn rhaid talu'r taliadau) yn ôl asesiad gan actiwari'r cynllun.

£26.9 miliwn yw cyfanswm y cyfraniadau disgwyliedig gan yr Awdurdod i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022.

**Y sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau**

Mae’r rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio’r dull credydu unedau rhagamcanol, amcangyfrif o’r pensiynau y bydd yn rhaid eu talu yn y blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau, enillion ar fuddsoddiadau, chwyddiant yn y dyfodol ac ati. Mae asedau a rhwymedigaethau Cronfa’r Cyngor Sir yn y Fantolen a chostau gwasanaeth y presennol a’r gorffennol a geir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cael eu hasesu gan Mercer Ltd, cwmni annibynnol o actiwarïaid, gyda’r amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa’n cael eu seilio ar y prisiad llawn diweddaraf o’r cynllun ar 31 Mawrth 2020.

Dangosir y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau isod:

| | 2019-20 % | 2020-21 % |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaethau Ariannol:** | | |
| Cyfradd chwyddiant CPI | 2.1 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.6 | 4.2 |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau | 2.2 | 2.8 |
| Y gyfradd ar gyfer rhwymedigaethau cynlluniau disgownt | 2.4 | 2.1 |

| | 2019-20 % | 2020-21 % |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaethau o ran hyd oes:** | | |
| Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr presennol: | | |
| Dynion | 23.0 | 23.1 |
| Menywod | 24.9 | 25.0 |
| Gweddill oes ar gyfartaledd yn 65 oed ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | | |
| Dynion | 24.5 | 24.7 |
| Menywod | 27.1 | 27.2 |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a amlinellir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail y newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran y rhagdybiaethau a ddigwydd ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad ac maent yn tybio, yn achos pob newid, fod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bo pob rhagdybiaeth arall yn aros yr un fath. Mae'r rhagdybiaethau o ran gweddill oes, er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn codi neu'n disgyn i ddynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newid yn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol. Nid oedd dulliau a mathau y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn wahanol i’r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| | Yr Effaith ar Ymrwymiad Buddion Diffiniedig y Cynllun | |
|---|---|---|
| | **Codiad yn Rhagdybiaeth £'000** | **Gostyngiad yn Rhagdybiaeth £'000** |
| Gweddill oes (1 flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad) | 56,012 | (56,012) |
| Cyfradd chwyddiant (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad) | 33,711 | (33,711) |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad) | 5,140 | (5,140) |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau (0.1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad) | 33,711 | (33,711) |
| Y gyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun. 1% y flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad) | (33,110) | 33,110 |

Mae'r rhwymedigaeth pensiwn net a nodir yng nghyfrifon 2019/20 yn Cynnwys rhwymedigaeth bosibl sy'n gysylltiedig â dyfarniad McCloud. Nid oes angen gwneud unrhyw addasiadau pellach ar gyfer cyfrifon 2020/21.

## 6.45 Rhwymedigaethau Amodol

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant casglu ar ran Dŵr Cymru mewn perthynas â thaliadau dŵr a charthffosiaeth tenantiaid y Cyfrif Refeniw Tai. Yn gyfnewid am y gwasanaeth hwn mae'r Awdurdod wedi bod yn derbyn comisiwn sydd wedi'i drin fel ffrwd incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r trefniant hwn wedi cael ei gwestiynu yn sgil dyfarniad Llys yn ystod 2015/16 (Kim Jones yn erbyn Bwrdeistref Southwark yn Llundain) a ddywedodd fod Awdurdodau Lleol sy'n casglu trethi dŵr drwy gyfrwng y Cyfrif Refeniw Tai yn gwneud hynny fel cyflenwr dŵr ac nid fel asiant i'r cyflenwr dŵr. Yn draddodiadol ystyrid hyn yn drefniant asiantaeth, ond roedd dyfarniad y Llys yn dynodi bod yr Awdurdod perthnasol wedi bod yn gweithredu fel cyflenwr dŵr, sydd â goblygiadau ariannol sylweddol i'r rheiny sy'n cael eu heffeithio o ran ffi'r asiantaeth a lle bo camau gweithredu wedi cael eu cymryd yn erbyn dyledion rhent y gellid ystyried eu bod yn cynnwys trethi dŵr. Cyngor cyfreithiol yr Awdurdod yw y byddid yn dod i'r casgliad bod ein cytundeb yn gytundeb asiantaeth *bona fide* pe byddai'n cael ei herio ac fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 nid ydym wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â hawliadau posibl. Fodd bynnag, er mwyn cadarnhau hyd yn oed ymhellach fod yr Awdurdod yn casglu'r arian hwn fel asiantiaid ar gyfer Dŵr Cymru ac osgoi'r posibilrwydd o heriau cyfreithiol yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn dechrau ar contract newydd ar hyn o bryd gyda'r cyflenwr dŵr a fydd yn sicrhau ei fod yn gweithredu fel asiant.

Er bod yr Awdurdod yn prynu ystod o yswiriannau, mae'n parhau i fod yn gyfrifol am ran o'r risg yn sgîl y ffaith ei fod yn derbyn "Gordaliadau Polisi" ac yn pennu "Terfynau Indemniad". Gosodir "Terfyn ar Golledion" ar Bolisïau Atebolrwydd ac Eiddo sef yr uchafswm agregedig y gallai'r Awdurdod fod yn gyfrifol amdano a bwrw nad eir y tu hwnt i'r Terfynau Indemniad. Mae terfyn yr indemniad yn cael ei bennu gan yr yswiriwr a dyna'r uchafswm posibl y bydd yn ei gwmpasu o dan y contract.

Mae nifer o hawliadau yswiriant wedi cael eu cofrestru ond heb eu cwblhau eto. Ble mae'n debygol y bydd costau yn dod i ran yr Awdurdod, cydnabuwyd y gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ac fel symudiad yn y Ddarpariaeth Yswiriant (gweler nodyn 6.20). Mae'n bosibl yr aiff yr Awdurdod i gostau yn ymwneud â hawliadau cofrestredig eraill neu hawliadau nad ydynt eto wedi cael eu cyflwyno. Neilltuwyd arian mewn Cronfa Yswiriant Wrth Gefn (gweler nodyn 6.22) at y diben hwn.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd nifer fach o hawliadau i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn erbyn yr awdurdod. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy y tebygolrwydd neu'r gwerth i'r awdurdod os bydd y Tribiwnlys yn dyfarnu o blaid yr hawlwyr. Felly, nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn y datganiadau ariannol hyn.

Ym mis Tachwedd 2020, roedd dyfarniad llys ynghylch Cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Dyfarnodd y Llys ei bod yn ofynnol i ymddiriedolwyr cynlluniau ailystyried Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) o'r gorffennol i sicrhau cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Gall hyn arwain at daliadau ychwanegol lle mae cydraddoli Isafswm Pensiwn Gwarantedig yn golygu na chafodd aelodau yr hyn yr oedd ganddynt hawl lawn iddo. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei gyflwyno ar sail traws-gynllun a bydd angen cael cyngor cyfreithiol. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV blaenorol ar gyfer aelodau a oedd wedi cyrraedd Oedran Derbyn Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a oedd wedi cymryd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gydraddoli. Er y disgwylir i hyn gynrychioli codiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau, nid yw'n bosibl gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r costau tebygol. Felly, nid oes unrhyw atebolrwydd wedi'i gydnabod yn y datganiadau ariannol hyn.

## 6.46 Offerynnau Ariannol

### Nodiadau Datgelu ynghylch Rhwymedigaethau Ariannol, Asedau Ariannol a Risgiau

### Balansau Offerynnau Ariannol

Mae'r benthyciadau a'r buddsoddiadau a ddatgelir yn y Fantolen yn cynnwys y categorïau canlynol o offerynnau ariannol:

| | Tymor Hir | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
| Rhwymedigaethau Ariannol (prifswm) | 409,735 | 397,939 | 22,794 | 15,899 |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | 2,897 | 2,662 |
| Addasiadau Eraill o ran Cyfrifyddu | 114 | 113 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau Ariannol yn ôl cost amorteiddiedig **Cyfanswm y benthyciadau** | **409,849** | **398,052** | **25,691** | **18,561** |
| Benthyciadau a symiau i'w derbyn (prifswm) | 528 | 524 | 12,005 | 25,504 |
| Llog Cronedig | 145 | 144 | 88 | 0 |
| Buddsoddiadau yn ôl cost amorteiddiedig | 673 | 668 | 12,093 | 25,504 |
| Ecwiti ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall | | | | |
| Buddsoddiad mewn ecwiti annyfynedig am y gost | 1,175 | 1,139 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **1,848** | **1,807** | **12,093** | **25,504** |

**Enillion/Colledion yn sgil Offerynnau Ariannol**

Mae'r enillion a'r colledion a nodir yn Natganiad y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol fel a ganlyn:

| | Rhwymedigaethau Ariannol<br>Rhwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost amorteiddiedig | | Asedau Ariannol<br>Benthyciadau a Symiau i'w Derbyn yn ol gost amorteiddiedig | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 | 2019-20<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
| Cost y llog | (17,625) | (17,330) | 0 | 0 | (17,625) | (17,330) |
| Colledion yn sgil Amharu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Y llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg** | (17,625) | (17,330) | 0 | 0 | (17,625) | (17,330) |
| Incwm Llog | 0 | 0 | 679 | 246 | 679 | 246 |
| **Incwm buddsoddi a llog** | 0 | 0 | 679 | 246 | 679 | 246 |
| **Enillion/(colled) net am y flwyddyn** | **(17,625)** | **(17,330)** | **679** | **246** | **(16,946)** | **(17,084)** |

**Benthyciadau Gweithwyr i Brynu Car**

Mae'r awdurdod yn rhoi benthyciadau ar gyfer prynu ceir i weithwyr yn yr awdurdod sydd â swyddi lle mae angen iddynt yrru'n rheolaidd ar fusnes yr awdurdod. Codir llog o 1% uwchlaw'r gyfradd sylfaenol ar y benthyciadau.

| Benthyciadau Gweithwyr i Brynu Car | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans Agoriadol** | 68 | 57 |
| Benthyciadau Newydd | 31 | 22 |
| Benthyciadau a ad-dalwyd | (42) | (31) |
| **Balans Cau** | 57 | 48 |

**Cario Gwerth Teg yr Asedau a'r Rhwymedigaethau yn ôl y Costau Amorteiddio**

Mae rhwymedigaethau ariannol ac asedau ariannol megis benthyciadau a symiau i'w derbyn yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl y gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill bywyd yr offerynnau gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, defnyddiwyd cyfraddau ad-daliadau cynnar y BBGC i roi'r gwerth teg yn unol â gweithdrefnau'r BBGC ar gyfer adbrynu dyledion;

- O ran benthyciadau i'w derbyn defnyddiwyd cyfraddau meincnod cyffredin y farchnad i roi'r gwerth teg;

- Pan fo offeryn i'w dalu ymhen llai na 12 mis neu mae'n ddyled fasnachol neu'n swm arall i'w dderbyn bernir mai'r gwerth teg fydd y prifswm sydd heb ei dalu neu'r swm ar y bil;

- Cymerir mai'r swm ar yr anfoneb neu'r bil fydd gwerth teg y dyledion a symiau eraill i'w derbyn.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm a gariwyd | Gwerth Teg | Swm a gariwyd | Gwerth Teg |
| Dyled BBGC | 428,253 | 739,310 | 405,976 | 633,395 |
| Dyled heb fod i BBGC | 7,287 | 10,992 | 10,637 | 12,763 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol** | **435,540** | **750,302** | **416,613** | **646,158** |

Mae'r gwerth teg yn uwch na'r swm a gariwyd gan fod portffolio benthyciadau yr Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae cyfradd y llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar y farchnad ar fenthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y fantolen.

| | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm a gariwyd | Gwerth Teg | Swm a gariwyd | Gwerth Teg |
| Benthyciadau'r farchnad arian < 1 flwyddyn | 12,093 | 12,093 | 25,505 | 25,505 |
| Benthyciadau'r farchnad arian > 1 flwyddyn | 673 | 673 | 668 | 668 |
| Cyfanswm y buddsoddiadau | 12,766 | 12,766 | 26,173 | 26,173 |
| Dyledion Masnachol | 19,369 | 19,369 | 24,266 | 24,266 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau a symiau i'w derbyn** | **32,135** | **32,135** | **50,439** | **50,439** |

Pennwyd gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol drwy gyfeirio at reolau adbryniant BBGC a chyfraddau adbryniant cyffredin BBGC ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen ac maent yn cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd yr un gweithdrefnau a'r cyfraddau llog i bennu gwerth teg dyledion nad oeddent yn rhai BBGC ac mae hyn yn rhoi amcangyfrif cadarn o werth teg yr offerynnau hynny.

Cafodd gwerth teg y benthyciadau a'r symiau i'w derbyn eu pennu drwy gyfeirio at arferion tebyg, fel uchod, sy'n rhoi amcangyfrif da o werth teg offeryn ariannol ac mae'n cynnwys y llog cronedig. Defnyddiwyd cyfraddau buddsoddi mynegiannol ar y dyddiad y lluniwyd pob mantolen i roi'r cyfraddau cyfatebol cyffredin ar y farchnad. Dylai'r cyfraddau gael eu pennu gan faint y gwerthiant a'r cymar, ond nid yw'n ymarferol i ddefnyddio'r ffigurau hynny ac nid yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod o bwys.

Mae gwerth teg benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) o £633.395 miliwn yn mesur effaith economaidd y telerau a gytunwyd â'r BBGC o'u cymharu ag amcangyfrifon o'r telerau a fyddai'n cael eu cynnig ar gyfer trafodion yn y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a gariwyd a'r gwerth teg yn mesur y llog ychwanegol y bydd yr Awdurdod yn ei dalu dros gyfnodau'r benthyciadau sy'n weddill o dan y cytundebau â'r BBGC, o'i gymharu â'r hyn y byddai'n ei dalu pe bai'r benthyciadau ar gyfraddau cyffredin y farchnad, cyfraddau llog adbryniant BBGC.

Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod allu parhaus i fenthyca ar gyfraddau gostyngol gan y BBGC yn hytrach na'r marchnadoedd. Ffordd arall o fesur y llog ychwanegol y bydd yr Awdurdod yn ei dalu o ganlyniad i'w ymrwymiadau gyda'r BBGC o ran benthyciadau cyfradd sefydlog yw cymharu telerau'r benthyciadau hyn â'r cyfraddau benthyca newydd sydd ar gael gan y BBGC, cyfraddau Sicrwydd y BBGC. Os byddai gwerth yn cael ei gyfrifo ar y sail hon, byddai'r swm a gariwyd o £405.976 miliwn yn werth £541.899 miliwn.

Mae prisio offerynnau ariannol wedi cael eu dosbarthu'n dair lefel yn unol â safon a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar werthoedd teg.

- Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd nas addaswyd mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd union yr un peth, y gall yr awdurdod eu cyrchu ar y dyddiad mesur
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth

**Gwerth Teg Asedau Ariannol**

Mae rhai o asedau'r Awdurdod yn cael eu mesur ar sail gylchol ac fe'u disgrifir yn y tabl canlynol, gan gynnwys y technegau prisio a ddefnyddir yw mesur**.**

**Asedau Ariannol wedi'i mesur ar werth teg**

| **Mesuriadau gwerth teg cylchol** | **Lefel mewnbwn yn hierarchaeth gwerth teg** | **Techneg brisio a ddefnyddir i fesur gwerth teg** | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2021** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Teg trwy Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | |
| Cyfranddaliadau ecwiti yn CWM Environmental Cyf | Lefel 3 | Ar gost | 329 | 329 |
| Cyfranddaliadau ecwiti yn Egni Sir Gar Cyfyngedig | Lefel 3 | Ar gost | 846 | 810 |
| **Cyfanswm** | | | **1,175** | **1,139** |

Hierarchaeth gwerth teg ar gyfer asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol nad ydynt yn cael eu mesur ar werth teg.

| Mesuriadau gwerth teg cylchol gan ddefnyddio: | 31 Mawrth 2020<br>Mewnbynnau gweladwy sylweddol eraill (Lefel 2)<br>£'000 | 31 Mawrth 2020<br>Cyfanswm<br>£'000 | 31 Mawrth 2021<br>Mewnbynnau gweladwy sylweddol eraill (Lefel 2)<br>£'000 | 31 Mawrth 2021<br>Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | |
| **Rhwymedigaethau ariannol a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig:** | | | | |
| BBGC | 739,310 | 739,310 | 633,395 | 633,395 |
| nid y BBGC | 10,992 | 10,992 | 12,763 | 12,763 |
| **Cyfanswm** | **750,302** | **750,302** | **646,158** | **646,158** |
| | | | | |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Benthyciadau a Symiau i'w derbyn | 12,766 | 12,766 | 26,173 | 26,173 |
| **Cyfanswm** | **12,766** | **12,766** | **26,173** | **26,173** |

**Datgelu natur a Maint y Risg yn codi o Offerynnau Ariannol**

**Risgiau Allweddol**

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn golygu ei fod yn agored i nifer o risgiau ariannol. Y risgiau allweddol yw:

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod;
- Risg hylifedd – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau;
- Risg ail gyllido – y posibilrwydd y bydd yn rhaid i'r Awdurdod adnewyddu offeryn ariannol wedi iddo aeddfedu a hynny ar gyfraddau llog neu delerau anfanteisiol;
- Risg y farchnad – y posibilrwydd y bydd yr Awdurdod yn gwneud colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis symudiadau mewn cyfraddau llog.

**Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg**

Mae gweithdrefnau cyffredinol yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy y marchnadoedd ariannol, a phennu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hyn. Pennir y gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg gan fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i nodi yn *Neddf Llywodraeth Leol 2003* a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chôd Darbodus CIPFA, Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Canllawiau Buddsoddi a gyhoeddwyd drwy'r Ddeddf. Yn gyffredinol mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Awdurdod yn rheoli risg fel a ganlyn:

- drwy fabwysiadu'n ffurfiol ofynion y fersiynau Diwygiedig o Gôd Darbodaeth CIPFA a Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Mabwysiadu'n ffurfiol Datganiad Polisi y trysorlys a chymalau Reoli Trysorlys;

- Cymeradwyo'n flynyddol ymlaen llaw ddangosyddion darbodus ar gyfer y tair blynedd ddilynol yn cyfyngu ar:
  - Holl Fenthyciadau yr Awdurdod;
  - Terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yn agored iddynt:
  - Terfynau uchaf ac isaf o ran trefniadau ad-dalu ei gymysgedd o fenthyciadau y bydd yn agored iddynt;
  - Uchafswm y buddsoddiadau blynyddol sy'n cymryd mwy na blwyddyn i aeddfedu.
- Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis cymheiriaid buddsoddi yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth;

Mae'n ofynnol rhoi gwybod am y rhain ac iddynt gael eu cymeradwyo pan/cyn cyllideb flynyddol yr Awdurdod i bennu Treth y Cyngor neu cyn dechrau'r flwyddyn y maent yn berthnasol iddynt. Cynhwysir manylion y materion hyn yn yr adroddiad blynyddol ar y polisïau a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r trysorlys sy'n amlinellu'r ymagwedd fanwl at reoli risg mewn perthynas â buddsoddiad yr Awdurdod mewn offerynnau ariannol. Cyflwynir adroddiad bob chwarter ar yr union berfformiad hefyd. Gweithredir y polisïau hyn gan yr Adran Buddsoddiadau Pensiwn a'r Trysorlys.

Cafodd y strategaeth flynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys, sy'n cynnwys y dangosyddion darbodaeth, ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2020 ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Arhosodd yr Awdurdod o fewn y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Awdurdod yn cynnal egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, ynghyd â pholisïau ysgrifenedig ar gyfer meysydd penodol megis risg cyfraddau llog, risg credyd, a buddsoddi arian dros ben drwy Arferion Rheoli y Trysorlys. Mae'r Arferion hyn yn ofynnol gan y Côd Ymarfer a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

**Risg Credyd**

**Buddsoddiadau**

Perir risg credyd gan arian yn cael ei adnau mewn banc a sefydliadau ariannol a'r peryglon credyd y mae cwsmeriaid yr Awdurdod yn agored iddynt. Lleiheir y risg cymaint ag y bo modd drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (sy'n rhan o Adroddiad yr Awdurdod ynghylch y Polisi a'r Strategaeth sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys), sy'n mynnu na roddir arian ar adnau yng ngofal sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf penodedig ynghylch isafswm credyd, yn unol â'r Gwasanaethau Mesur Statws Credyd sy'n cael eu cynnig gan Fitch, Moody's a Standard & Poors. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi a Pholisi Rheoli'r Trysorlys hefyd yn pennu'r uchafswm a'r cyfnod hwyaf y gellir buddsoddi mewn sefydliad ariannol o bob categori. Nid yw arian yn cael ei adnau mewn banciau a sefydliadau ariannol os nad ydynt yn bodloni isafswm gofynion y meini prawf ar gyfer buddsoddi a amlinellir uchod.

Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol yn nodi'r rhestr a'r terfynau. Mae cwsmeriaid ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'n cael eu hasesu, gan gymryd i ystyriaeth eu sefyllfa ariannol, profiad blaenorol a ffactorau eraill, a chaiff terfynau credyd unigol eu gosod yn unol â graddfeydd mewnol yn unol â pharamedrau a osodir gan y cyngor.

Ni ellir asesu'n gyffredinol y graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Awdurdod mewn perthynas â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu, sef £41,000, oherwydd bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â thalu taliadau llog neu ad-dalu'r

prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y mae endidau o'r fath yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn rhoi crynodeb o'r graddau mwyaf y mae credyd yn risg i'r Cyngor ar asedau ariannol eraill, wedi'i seilio ar brofiad o ddiffygdalu.

| | Swm ar 31 Mawrth 2021 | Profiad Hanesyddol o ddiffygdalu | Amcangyfrif o uchafswm y diffygdalu y bydd yn agored iddo |
|---|---|---|---|
| | £'000 | % | £'000 |
| Adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol | | | |
| Cymheiriaid safon AAA | 25,000 | 0.04 | 10.0 |
| Cymheiriaid safon AA | 49,500 | 0.02 | 9.9 |
| Cymheiriaid safon A | 41,500 | 0.05 | 20.8 |
| Dyledion Masnachol | 24,266 | 3.50 | 849.3 |
| | **140,266** | | **890.0** |

Ni chafwyd unrhyw achosion o dorri meini prawf y Cyngor ar gyfer partïon i gontractau yn ystod y cyfnod adrodd ac nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw golledion eraill oherwydd diffyg perfformiad gan unrhyw un o'i bartïon i gontractau mewn perthynas ag adneuon a bondiau.

### Dyledion Masnachol

Mae ffigur y dyledwyr masnach, sef y £24.266 miliwn a nodir uchod, yn cynnwys £13.763 miliwn sy'n hwyr yn cael ei dalu. Gellir dadansoddi'r symiau y mae'r dyddiad ar gyfer eu talu wedi pasio yn ôl oed fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llai na tri mis | 2,500 | 1,811 |
| Rhwng tri a chwe mis | 943 | 1,354 |
| Rhwng chwe mis a blwyddyn | 1,158 | 2,451 |
| Mwy na blwyddyn | 6,006 | 8,147 |
| | **10,607** | **13,763** |

Mae'r Cyngor yn cyflwyno tâl cyfreithiol ar eiddo lle, er enghraifft, mae'r cleientiaid angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ond nad ydynt yn gallu fforddio talu'n syth. £1.281 miliwn oedd cyfanswm y warant gyfochrog ar 31 Mawrth 2021.

### Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod fynediad parod at fenthyciadau gan y Marchnadoedd Arian i fodloni unrhyw anghenion beunyddiol o ran llif arian, ac er mai darparu mynediad at gronfeydd tymor hwy wna'r BBGC mae hefyd yn gweithredu fel benthyciwr cyfle olaf i gynghorau (er na fydd yn darparu arian i gyngor sy'n gweithredu'n anghyfreithiol). Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd bod yr Awdurdod yn darparu cyllideb gytbwys sy'n

sicrhau bod digon o arian yn cael ei godi i dalu am y gwariant blynyddol. Felly nid oes unrhyw risg o bwys na fydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymiadau o dan offerynnau ariannol. Mae'r Awdurdod yn rheoli ei sefyllfa o ran hylifedd drwy'r gweithdrefnau rheoli risg a nodir uchod (pennu a chymeradwyo dangosyddion darbodus a chymeradwyo polisïau a strategaeth rheoli'r trysorlys) yn ogystal â thrwy system gynhwysfawr i reoli llif arian, yn unol â'r Côd Ymarfer. Nod hyn yw sicrhau y bydd arian ar gael pan fydd ei angen.

**Ail gyllido a Risg Aeddfedrwydd**

Mae'r Awdurdod yn cynnal portffolio sylweddol o ddyledion a buddsoddiadau. Er mai'r gweithdrefnau ar gyfer risgiau ail gyllido a ddefnyddir mewn perthynas â'r gweithdrefnau llif arian a nodir uchod, mae'r risg yn y tymor hwy i'r Awdurdod yn ymwneud â rheoli'r buddsoddiad mewn offerynnau ariannol newydd pan fydd y rhai presennol yn aeddfedu. Mae'r risg hwn yn berthnasol pan fo atebolrwydd ariannol tymor hir ac asedau ariannol tymor hir yn aeddfedu.

Cyfyngiadau'r dangosydd darbodus a gymeradwywyd ar gyfer trefniadau ad-dalu benthyciadau a'r cyfyngiadau a osodir ar fuddsoddiadau sy'n hwy na blwyddyn yw'r paramedrau allweddol a ddefnyddir i ymdrin â'r risg hwn. Mae polisïau a'r strategaeth a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn ymdrin â'r prif risgiau ac mae Tîm y Trysorlys yn ymdrin â'r risgiau gweithredol o fewn y paramedrau a gymeradwywyd. Mae hyn yn cynnwys:

- monitro proffil aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol a newid y proffil naill ai drwy fenthyciadau newydd neu aildrefnu'r ddyled bresennol; a
- mae monitro proffil aeddfedrwydd y buddsoddiadau i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni anghenion beunyddiol yr Awdurdod o ran llif arian, a thaenu buddsoddiadau tymor hir yn sefydlogi taliadau aeddfedrwydd ac elw ar gyfer anghenion llif arian dros dymor hir.

Isod, ceir dadansoddiad ynghylch aeddfedrwydd y rhwymedigaethau ariannol, ynghyd ag uchafswm ac isafswm yr hyn a allai fod yn daladwy.

| | 2019-20 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchafswm Cymeradwy % | Isafswm Cymeradwy % | 31 Mawrth 2020 £'000 | Uchafswm Cymeradwy % | Isafswm Cymeradwy % | 31 Mawrth 2020 £'000 |
| Llai na blwyddyn | 15 | 0 | 25,691 | 15 | 0 | 18,561 |
| 1–2 flynedd | 15 | 0 | 15,771 | 15 | 0 | 11,209 |
| 2–5 mlynedd | 50 | 0 | 29,161 | 50 | 0 | 27,199 |
| 5–10 mlynedd | 50 | 0 | 39,929 | 50 | 0 | 38,723 |
| Mwy na 10 mlynedd | 100 | 25 | 324,988 | 50 | 0 | 320,921 |
| | | | **435,540** | | | **416,613** |

Mae dadansoddiad o aeddfedrwydd atebolrwydd ariannol fel a ganlyn:

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 12,093 | 25,505 |
| Mwy na blwyddyn | 673 | 668 |
| | **12,766** | **26,173** |

Mae'r holl ddyledion a symiau eraill i'w talu i fod i gael eu talu mewn llai na blwyddyn ac nid yw'r £24.266 miliwn o ddyledion masnachol wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

## Risg y Farchnad

**Risg Cyfradd Llog** – Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut y mae cyfraddau llog sefydlog a chyfraddau amrywiol yn symud ar draws gyfnodau gwahanol yr offerynnau ariannol. Er enghraifft byddai codiad yn y cyfraddau llog sefydlog a'r cyfraddau amrywiol yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau cyfradd amrywiol – bydd cost y llog a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi;
- benthyciadau cyfradd sefydlog – bydd gwerth teg yr atebolrwydd benthyg yn disgyn(dim effaith ar balansau refeniw);
- buddsoddiadau cyfradd amrywiol – bydd incwm y llog a gredydir i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi; a
- buddsoddiadau cyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn disgyn (dim effaith ar balansau refeniw).

Nid yw benthyciadau yn cael eu cario ar y fantolen yn ôl eu gwerth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag bydd newidiadau yn y llog a delir ac a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol, yn amodol ar ddylanwadau grantiau'r Llywodraeth. Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog yn cael eu hadlewyrchu yn Datganiad am y symudiadau yng Nghronfeydd, os na fydd y buddsoddiadau wedi cael eu dynodi yn rhai Gwerth Teg drwy'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Mae gan yr Awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Mae Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys a'r Rhaglen Cyfalaf 5 mlynedd yn dwyn ynghyd ddangosyddion darbodus y Cyngor a gweithrediadau disgwyliedig y trysorlys, gan gynnwys disgwyliad y bydd y cyfraddau llog yn symud. O'r Strategaeth hon pennir dangosydd darbodus i ddarparu'r terfynau uchaf ac isaf o ran cyfraddau llog sefydlog ac amrywiol y bydd yr Awdurdod yn agored iddynt.

Mae'r risg o wneud colled ar gyfraddau llog yn cael ei liniaru'n rhannol gan grant y Llywodraeth sy'n daladwy ar gyfer cyllido costau.

Pe byddai pob cyfradd llog wedi bod 1% yn uwch (a bod yr holl amrywiadau eraill yn gyson) byddai'r effaith ariannol fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Cynnydd yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau cyfradd amrywiol | 0 |
| Cynnydd yn y llog i'w dderbyn ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol | (402) |
| Cynnydd yn y grant derbyniadwy gan Lywodraethau i ariannu costau | 158 |
| Effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau | (244) |
| Cyfran o'r holl effaith a ddebydwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai* | 242 |
| Gostyngiad yng ngwerth teg asedau buddsoddi cyfradd sefydlog | 0 |
| Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | **(2)** |
| Gostyngiad yng ngwerth teg rhwymedigaethau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Warged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall) | **(98,739)** |

Oddeutu'r un effaith â'r uchod a gâi gostyngiad o 1% yn y cyfraddau llog ond y byddai'r symudiadau i'r gwrthwyneb. Seilir y tybiaethau hyn ar yr un fethodoleg ag a ddefnyddir yn y Nodyn – Cario Gwerth Teg yr Asedau a'r Atebolrwydd yn ôl y Costau Amorteiddio.

**Risg Prisiau** – Nid yw'r Awdurdod, ac eithrio'r Gronfa Bensiwn, yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti. Nid yw felly'n agored i golledion yn codi oherwydd symudiadau mewn prisiau.

**Risg Cyfnewidfa Dramor** – Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau nac atebolrwydd ariannol mewn arian tramor. Nid yw felly yn agored i golledion yn codi o oherwydd symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid.

**6.47 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yn hyn.**

Ar ddyddiad y fantolen, nid oes safonau neu ddiwygiadau newydd i safonau priodol sydd wedi eu cyhoeddi ond sydd heb eu mabwysiadu eto gan y Côd, a fyddai'n cael unrhyw effaith ar ddatganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae'r manylion canlynol ar IFRS 16 – Prydlesi wedi'u darparu at ddibenion gwybodaeth:

- Bydd y Safon hon yn effeithio ar ddosbarthiad prydlesi gweithredu a chyllid ar gyfer lesddeiliad a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydnabod pob prydles ar eu mantolen fel asedau hawl i ddefnydd gydag atebolrwydd prydles cyfatebol sy'n cynrychioli rhwymedigaeth y lesddeiliad i wneud taliadau prydles ar gyfer yr ased. Mae rhai eithriadau ar gyfer prydlesi tymor byr a gwerth isel. Gohiriwyd gweithredu IFRS16 ar gyfer llywodraeth leol am flwyddyn ychwanegol tan 1 Ebrill 2022 gan CIPFA/LASAAC.

**6.48 Digwyddiadau ar ôl y Fantolen**

Ar 24 Ebrill 2021, roedd tân ar safle ailgylchu Nant-y-caws sy'n eiddo i CWM Environmental Ltd ac a weithredir ganddo, sy'n eiddo i'r Awdurdod yn gyfan gwbl. O ganlyniad, mae rhai trefniadau gweithredu amgen wedi'u rhoi ar waith a fydd yn arwain at gostau ychwanegol, y mae'n bosibl na fyddant yn dod o dan y trefniadau yswiriant presennol. Clustnodwyd arian wrth gefn ychwanegol i dalu am wariant rhesymol y gellir ei ragweld ac mae wedi'i gynnwys yn nodyn 6.22 cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd

# 7 Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

## 7.1 Datganiad Incwm a Gwariant CRT

| 2019-20 £'000 | | Nodyn | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | | |
| | Atgyweiro a Chynnal a Chadw | | |
| 2,798 | - Ymatebol | | 3,072 |
| 5,323 | - Cynlluniwyd/Cylchredol | | 2,864 |
| 3,595 | - Tai Gwag | | 4,057 |
| 8,439 | Goruwchwilio a Rheoli | | 8,537 |
| 1,363 | Taliadau Cymorth Canolog | | 1,400 |
| 470 | Rhenti, Ardrethi Trethi a chostau eraill | | 727 |
| 302 | Newidiadau i'r lwfans ar gyfer drwgddyledion | | 514 |
| 17,242 | Dibrisiant ac Amhariad Asedau nad ydynt yn gyfredol | 8.7 | (10,993) |
| 1 | Gwariant Refeniw a Gyllidir gan Gyfalaf dan Statud | | 0 |
| 36 | Costau Rheoli Dyledion | | 38 |
| 39,569 | **Cyfanswm Gwariant** | | 10,216 |
| | **Incwm** | | |
| (40,819) | Rhenti Anheddau | 8.1 | (40,865) |
| (131) | Rhenti nad ydynt yn Annedd | | (126) |
| (29) | Lesddeiliaid | | (29) |
| (746) | Ffioedd Gwasanaethau | 8.2 | (760) |
| (374) | Grantiau | | (550) |
| (782) | Incwm Arall | | (775) |
| (343) | Comisiwn - Trethi Dŵr | 8.5 | (350) |
| (43,224) | **Cyfanswm Incwm** | | (43,455) |
| **(3,655)** | **Cost Net Gwasanaethau y CRT fel y mae wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | | **(33,239)** |
| 289 | Cyfran Gwasanaethau y CRT o'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd | | 295 |
| **(3,366)** | **(Incwm)/Cost net Gwasanaethau CRT** | | **(32,944)** |
| | **Cyfran CRT yr incwm a gwariant gweithredol a gynhwysir yn Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| (65) | (Cynydd) neu ostyngiad ar werthu Asedau nad ydynt yn gyfredol CRT | | (60) |
| 9,901 | Y Llôg sy'n daladwy a chostau cyffelyb | | 9,826 |
| (131) | Y Llôg a geir a'r incwm buddsoddi | | (37) |
| 245 | Llog net ar y rhywmedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net | | 344 |
| (6,453) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf derbyniadwy | | (13,691) |
| **131** | **(Gwarged) neu Diffyg am y flwyddyn ar Wasanaethau CRT** | | **(36,562)** |

## 7.2 Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r amcanion cyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i'r Cyfrif Refeniw Tai a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ei lunio yr un peth â'r rheiny'n gyffredinol ar gyfer y Datganiad Newidiadau i Gronfeydd, y mae wedi'i gynnwys ynddo. Mae'r datganiad yn cymryd yr alldro ar Ddatganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai ac yn ei gysoni i'r warged neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai, wedi'i gyfrifo'n unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

| 2019-20 £'000 | | Nodyn | 2020-21 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (14,314) | Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn blaenorol | | | (21,252) |
| 131 | (Gwarged) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar Gyfrif Incwm a Gwariant y CRT | | (36,562) | |
| (7,173) | Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y statud | 7.3 | 38,404 | |
| (7,042) | Cynnydd neu (ostyngiad) net cyn trosglwyddiadau i neu o | | 1,842 | |
| 104 | Trosglwyddiadau (i) neu o gronfeydd | 7.4 | (34) | |
| (6,938) | (Cynnydd) neu ostyngiad yn y flwyddyn ar y CRT | | | 1,808 |
| **(21,252)** | **Balans ar y CRT ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol** | | | **(19,444)** |

## 7.3 Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifyddu a'r Sail Ariannu yn unol â'r rheoliadau stadud

| 2019-20 £'000 | | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Amorteiddio Premimau a Disgowntiau | 0 |
| (3) | Trosglwyddiadau i / (o'r) Cyfrif Absoneldebau Cronedig | (30) |
| 66 | Cynnydd neu ostyngiad ar werthu Asedau CRT anghyfredol | 59 |
| (821) | Cyfran CRT o'r cyfraniadau i / o'r Gronfa Pensiynau | (882) |
| 0 | Gwariant Cyfalaf cyllidwyd gan CRT | 9,856 |
| (6,415) | Trosglwyddiadau i / o'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf | 29,401 |
| **(7,173)** | | **38,404** |

## 7.4 Trosglwyddiadau i neu (o'r) Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

| 2019-20 | | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 Tros. o | £'000 Tros. i | £'000 Net | | £'000 Tros. o | £'000 Tros. i | £'000 Net |
| 203 | (83) | 120 | Cronfa Yswiriant | 208 | (242) | (34) |
| 0 | (16) | (16) | Datblygiad Gweithwyr | 0 | 0 | 0 |
| **203** | **(99)** | **104** | | **208** | **(242)** | **(34)** |

## 8 NODIADAU I'R DATGANIAD INCWM A GWARIANT Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

**Cyflwyniad**

Cofnod yw'r Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a'r gwariant refeniw sy'n gysylltiedig â stoc dai awdurdod. Prif ddiben y Cyfrif yw sicrhau bod y rhenti a godir ar denantiaid yn cyfateb i'r gwariant ar reoli tenantiaethau ac ar gynnal a chadw tai. Yn sgil hyn cyfrif statudol yw'r Cyfrif Refeniw Tai, sydd wedi ei neilltuo rhag gweddill Cronfa'r Cyngor, fel na ellir defnyddio arian treth y cyngor i gynorthwyo â rhenti (neu i'r gwrthwyneb).

### 8.1 Incwm Rhenti Grôs

Dyma gyfanswm yr incwm rhent a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu am adeiladau gwag a.y.y.b. Yn 2020/21 y cyfanswm oedd £40.9 miliwn (£40.8 miliwn am 2019/20). Ar 31 Mawrth 2021 roedd 4.34% o'r eiddo a oedd ar gael i'w gosod, yn wag (3.77% ar 31 Mawrth 2020. Cyfartaledd y rhenti oedd £89.56 yr wythnos yn 2020/21 (£86.94 yn 2019/20).

### 8.2 Taliadau Gwasanaethau a Chyfleusterau

Hwn yw incwm yr Awdurdod o daliadau am wasanaethau a chyfleusterau yn gysylltiedig â darparu tai ac eiddo arall o fewn y Cyfrif Refeniw Tai.

### 8.3 Y Stoc Dai

Roedd y Cyngor yn gyfrifol am reoli 9,151 o anheddau ar gyfartaledd yn ystod 2020/21 (9,161 yn 2019/20). Roedd y stoc ar 31 Mawrth fel â ganlyn:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Tai | 5,030 | 5,007 |
| Fflatiau/Rhandai/Fflat un ystafell | 1,949 | 1,949 |
| Byngalos | 2,183 | 2,183 |
| | **9,162** | **9,139** |

Gellir crynhoi'r newid yn y stoc fel â ganlyn:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Y Stoc Agoriadol ar 1 Ebrill | 9,160 | 9,162 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 |
| Dymchweliadau/Dilewyd | (46) | (40) |
| Adeiladu o'r Newydd/Prynu/Trosi | 48 | 17 |
| Y Stoc wrth Gau 31 Mawrth | **9,162** | **9,139** |

### 8.4 Ôl-ddyledion Rhent

| | Ar 31 Mawrth 2020<br>£'000 | Ar 31 Mawrth 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ôl-ddyledion | 2,111 | 2,668 |
| Ôl-ddyledion fel Canran o'r Incwm Gros o Renti | 5.00% | 6.26% |

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol mae yna cynydd o 1.2% yn ôl-ddyledion y tenantiaid presennol, o ran y ganran o ddebyd gros sydd i'w gasglu. Mae'r perfformiad y tu allan i'r ffiniau o ran yr hyn a ystyrir yn lefel arferion da (2%) sef 3.93%. Mae yna leihad o 0.1% yn ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, o ran y ganran o'r debyd gros sydd i'w gasglu. Ar ôl cymeryd y £108,000 dyledion a ddilëir i ystyriaeth, roedd dal i fod lleihad o 0.32% yn y perfformiad.

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer Drwgddyledion ar 31 Mawrth 2021 yn £1,105,394 ar gyfer rhent (£1,210,727 yn cynnwys trethi dŵr). Y rhifau cyfatebol ar gyfer 2019/20 oedd £1,002,661 ar gyfer rhent (£1,079,523 yn cynnwys trethi dŵr).

## 8.5 Comisiwn

Mae'r Awdurdod yn casglu trethi dŵr ar ran Dŵr Cymru Welsh Water ac yn derbyn comisiwn ar yr arian sy'n ddyledus. Yn 2020/21 roedd hwn yn £350,000 (£343,000 yn 2019/20) heb y golled yn sgil eiddo gwag. Gwerth y trethi dwr a gasglwyd oedd £3.4 miliwn yn 2020/21 (£3.4 miliwn yn 2019/20).

## 8.6 Gwariant Cyfalaf

Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf yn 2020/21 ar dir a phreswylfeydd sydd ynghlwm wrth y Cyfrif Refeniw Tai oedd £26.048 miliwn (£28.027 miliwn yn 2019/20).

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Cyllidwyd hyn fel â ganlyn :-** | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol | 6,210 | 6,228 |
| Benthyciadau | 21,497 | 2,998 |
| Derbyniadau Cyfalaf - Gwerthiant Preswylfeydd/Tir | 76 | 65 |
| Cyllid Allanol | 13 | 6,893 |
| Incwm Adran 106 | 231 | 8 |
| Cyllid Refeniw Uniongyrchol | 0 | 9,856 |
| | **28,027** | **26,048** |
| **Gwariwyd ar:** | | |
| Tai | 27,666 | 25,888 |
| Tir | 0 | 0 |
| Eraill | 361 | 160 |
| | **28,027** | **26,048** |

## 8.7 Dibrisiant

Mae dibrisiad a cholledion amharu (yn sgil defnyddio'r asedau) mewn perthynas ag asedau'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael eu debydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn unol â darpariaethau cyffredinol SORP a'u tynnu yn ôl allan yn y Symudiadau ym malans y Cyfrif Refeniw Tai. Yn lle'r tâl dibrisiad, cofnodwyd Darpariaeth Refeniw Isaf y Cyfrif Refeniw Tai ar ffurf credyd o'r Cyfrif Cyllid Cyfalaf i osgoi effeithio lefelau rhenti.

Mae preswylfeydd y Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu hailbrisio bob pum mlynedd, a cafodd hyn eu wneud diwethaf ar 1 Ebrill 2020.

Dibrisiant a Cholledion Amhariad:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Y Dibrisiant o ran Preswylfeydd | 12,508 | 12,493 |
| Amhariadau a Cholledion Adbrisio | 4,734 | (23,486) |
| | **17,242** | **(10,993)** |

Amhariadau a Cholledion Adbrisio ar:

| | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Tai | 1,221 | (23,999) |
| Tir | 0 | (26) |
| Eraill | 3,513 | 539 |
| | **4,734** | **(23,486)** |

## 9 CYFRIF CRONFA'R DEGWM DYFED

Mae Cronfa'r Degwm Dyfed yn gynllun sydd yn bennaf yn rhoi grantiau tuag at gostau cynnal a chadw addoldai. Er hynny, gall elusennau cofrestredig sy'n dod â budd i drigolion wneud cais am gymorth tuag at gostau rhedeg, neu gost prosiect penodol neu gost prynu offer. Yn ogystal â chynorthwyo elusennau cenedlaethol, mae'r Gronfa'n cefnogi elusennau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleusterau hamdden neu wasanaethau eraill sydd o les i'r Gymuned.

Adeg Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1996 rhannwyd y Gronfa ymhlith yr Awdurdodau Unedol newydd. Roedd y swm a oedd ar gael i bob Awdurdod yn cael ei gyfrifo yn ôl y canrannau canlynol y cytunwyd arnynt:

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 41% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 25% |
| Cyngor Sir Benfro | 34% |

Cytunwyd mai Cyngor Sir Caerfyrddin fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r portffolio buddsoddiadau.

Gweddill Sir Gaerfyrddin yn y gronfa ar 31 Mawrth 2021 oedd £1.929 miliwn (£1.769 miliwn ar 31 Mawrth 2020).

## 10 CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETHAU 2020/21

Mae'r cyngor yn gweithredu cronfeydd ymddiriedolaeth ar gyfer gwasanaethau addysg, gwasanaethau diwylliannol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynrychioli cyfanswm asedau net o £775,000 ar 31 Mawrth 2021 (£741,000 ar 31 Mawrth 2020).

## 11 GOFAL CYMDEITHASOL / GWASANAETHAU PLANT – EIDDO PRESWYLWYR, CYFRIFON A GEDWIR YN DDIOGEL, CRONFEYDD AMWYNDER A CHYFRIFON BUDDION I'R STAFF

### 11.1 Eiddo Preswylwyr

Caniateir pobl mewn cartrefi preswyl i gael lwfans personol a delir iddynt bob wythnos. Os nad yw'r preswylydd yn dymuno gwario'r holl lwfans mewn wythnos telir yr hyn sy'n weddill i gyfrif Cadwmigei y Preswylwyr. Roedd y balans ar 31 Mawrth 2021 yn £539,841 (£523,044 ar 31 Mawrth 2020) ac mae hyn yn adlewyrchu swm y lwfansau personol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod ar ran ei drigolion.

### 11.2 Cyfrifon a Gedwir yn Diogel

Mae'r Adran Cymunedau yn cadw Cyfrifon a Gedwir yn Ddiogel ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth sy'n byw yn y gymuned nad ydynt yn gallu delio â'u materion ariannol oherwydd analluedd meddyliol. Y Cyfarwyddwr Cymunedau yw'r sawl sydd wedi'i enwebu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer bob un o'r rhai hyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Y balans ar 31 Mawrth 2021 oedd £1,267,328 (£1,188,324 ar 31 Mawrth 2020) ac mae hyn yn adlewyrchu'r swm arian a ddelir gan yr Awdurdod ar ran defnyddwyr ei wasanaeth.

### 11.3 Cronfeydd Amwynder

Cronfeydd *a* gedwir ar ran sefydliadau, megis canolfannau dydd, chartrefi preswyl a canolfannau plant/cylchoedd chwarae yw cronfeydd amwynder. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau a brynir er budd preswylwyr a chleientiaid y sefydliadau hyn, a daw'r incwm o roddion ac anrhegion ac ati gan deuluoedd y cleientiaid, a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig.

Cronfeydd a gedwir ar ran staff sy'n gweithio mewn sefydliadau penodol a geir yn y Cyfrifon Buddion i'r Staff. Daw'r incwm o roddion gan deuluoedd cleientiaid a chymynroddion o ystadau cleientiaid ymadawedig. Mae'r taliadau ar gyfer eitemau sydd o fudd i'r holl staff sy'n gweithio mewn sefydliad penodol.

Roedd y balans ar 31 Mawrth 2021 yn £117,168 (£100,800 ar 31 Mawrth 2020).

### 11.4 Cyfrifon a Reolir – Taliadau uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth dderbyn taliadau arian parod gan yr awdurdod lleol yn hytrach na gwasanaethau gofal. Gall hyn roi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth o'i becyn cymorth. Mae Diverse Cymru yn sefydliad a gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau cymorth a chyngor i'r rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol gan gynnwys bancio rheoledig, a gwasanaethau cyflogres i'r Cynorthwywyr Personol sy'n darparu gofal.

O 2021/22, ni fydd Diverse Cymru bellach yn rheoli'r gwasanaeth hwn a fydd yn cael ei gyflwyno'n fewnol. Bydd cyfrifon a reolir yn cael eu rheoli gan dîm yn yr Adran Gymunedau, a fydd yn ymgymryd â'r tasgau a gwblhawyd yn flaenorol gan Diverse Cymru.

Fel rhan o'r broses o sefydlu'r trefniant newydd hwn, talodd Diverse Cymru £1,775,642 i Gyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â'r arian a gadwyd ar ran defnyddwyr gwasanaeth yn barod i'r trefniadau newydd ddechrau ar 1 Ebrill 2021. Nid oedd unrhyw falansau ar 31 Mawrth 2020.

## 12 GEIRFA

Mae'r adran ganlynol yn ceisio esbonio ystyr rhai o'r termau technegol sy'n cael eu defnyddio yn y Datganiadau. Mae'r adran wedi'i rhannu yn dermau Cyffredinol a'r rhai hynny sy'n ymwneud â Chyfrifon y Gronfa Bensiwn.

***<u>Cyffredinol</u>***

***Amrywiad***
Y gwahaniaeth rhwng yr union wariant a'r gyllideb – a fynegir fel arian neu ganran.

***Archwiliad***
Archwiliad annibynnol ar ein gweithgareddau yw'r archwiliad hwn

***Asedau a Ddelir i'w Gwerthu***
Mae'r rhain yn asedau na ddefnyddir mwyach i ddarparu gwasanaeth ac sydd wrthi'n cael eu marchnata ac sy'n debygol iawn o gael eu gwerthu cyn pen blwyddyn.

***Asedau Cyfredol***
Asedau tymor byr yw'r rhain, sydd ar gael i'r Awdurdod defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifydda ganlynol.

***Asedau/Rhwymedigaethau Pensiynau Net (Nodiadau ar y Symudiad mewn Rhwymedigaethau Pensiwn Net)***

***Costau Gwasanaeth Presennol*** – gwerth y codiad yn rhwymedigaethau'r aelodau sy'n gweithio o ganlyniad i gynnydd o flwyddyn yn eu gwasanaeth (h.y. o ddechrau'r flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn), llai unrhyw gyfraniadau gan weithwyr.

***Cyfraniadau'r Cyflogwyr*** – Cyfraniadau'r cyflogwr yw'r symiau a delir gan y cyflogwr yn ystod y flwyddyn. Maent yn cynnwys unrhyw symiau a delir mewn perthynas â phwysau ymddeoliadau cynnar ac unrhyw gostau a adenillir o ran budd-daliadau blynyddoedd ychwanegol gorfodol.

***Costau Gwasanaeth Blaenorol*** – Cyfyd costau gwasanaeth blaenorol pan fo cyflogwr yn gwneud ymrwymiad i ddarparu lefel uwch o fudd-dâl na'r hyn a addawyd yn flaenorol, er enghraifft creu budd-dâl pensiwn ar gyfer cymar lle nad oedd y cyfryw fudd-dâl yn bodoli neu ganiatáu ymddeoliad cynnar gyda blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth.

***Costau Llog*** – Mae cost y llog yn seiliedig ar gyfradd y disgownt a gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod. Ffordd arall o edrych ar y "llog ar rwymedigaethau" yw dad-ddirwyn blwyddyn o ddisgownt mewn perthynas â rhwymedigaethau.

***Enillion a Cholledion Actiwaraidd*** – Yn yr achos hwn y gwahaniaeth rhwng yr union elw ar yr asedau a'r elw a ddisgwylir.

***Yr Elw Disgwyliedig ar Asedau*** – Mae'r elw a ddisgwylir ar asedau yn seiliedig ar ddisgwyliadau hir dymor ar ddechrau'r cyfnod.

***Enillion neu Golledion ar Gytundebau neu Gwtogiadau*** – Pan fo rheolau'r Cynllun yn caniatau gweithwyr i ymddeol yn gynnar neu drosglwyddo allan o'r Cynllun, cyfrifir am y cyfryw gytundebau neu gwtogiadau yn y rhagdybiaethau demograffig arferol a wneir gan yr actiwari a bydd unrhyw enillion neu golledion a achosir yn enillion a cholledion actiwaraidd. Mae unrhyw golledion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad yw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraidd yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae'r cyflogwr yn dangos ei ymrwymiad i'r trafodion ac mae'n cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled ar gyfer y dyddiad hwnnw. Mae unrhyw enillion a achosir gan gytundeb neu gwtogiad nad ydyw wedi'i gyfrif yn y rhagdybiaethau actiwaraidd yn cael ei fesur ar y dyddiad y mae pob parti y mae angen eu caniatâd wedi ymrwymo yn ddi-droi'n ôl i'r trafodion ac fe'i cydnabyddir yn y cyfrif elw a cholledion am y dyddiad hwnnw.

***Asedau Treftadaeth***
Yn ôl y diffiniad, Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sy'n cael eu dal a'u cynnal yn bennaf oherwydd eu cyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

***Awdurdod Bilio***
Awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gasglu treth y cyngor a threthi annomestig.

***Awdurdodau Praesept***
Yr awdurdodau hynny sydd heb fod yn awdurdodau bilio, h.y. nid ydynt yn casglu treth y cyngor a threthi annomestig. O ran Cyngor Sir Caerfyrddin yr awdurdodau praesept yw Heddlu Dyfed-Powys a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

***Balans***
Y gwarged neu'r diffyg mewn unrhyw gyfrif ar unrhyw adeg.

***Blwyddyn Ariannol***
Dyma gyfnod y cyfrifon. Yn achos yr awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol.

***Budd-daliadau Tai***
Lwfans i bobl ar incwm isel (neu ddim incwm) i dalu am eu rhent yn gyfan neu am gyfran ohono. Awdurdodau lleol sy'n caniatau neu'n talu'r budd-dâl ond ad-delir rhan o gost y budd-daliadau a'r gost o redeg y gwasanaeth gan lywodraeth ganolog. Gelwir y budd-daliadau a delir i denantiaid yr awdurdod yn 'gostyngiad yn y dreth'ac enw'r budd-dâl a delir i denantiaid y sector preifat yn 'lwfans rhent'.

***Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus (BBGC) (PWLB)***
Un o asiantaethau'r Llywodraeth yw hon ac mae'n darparu benthyciadau tymor hir ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n codi cyfraddau llog sydd ychydig yn unig yn uwch na'r cyfraddau y mae'r Llywodraeth yn eu talu am fenthyca.

***Côd Darbodus***
Côd ymddygiad proffesiynol yw'r Côd Darbous i gefnogi awdurdodau lleol mewn gwneud penderfyniadau buddsoddi cyfalaf.

***Credydwr***
Mae credydwr yn rhywun y mae arnom arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am waith sydd wedi'i wneud, nwyddau sydd wedi dod i law neu wasanaethau sydd wedi'u rhoi.

***Cronfa Bensiwn***
Y gronfa a gynhelir i dalu taliadau pensiwn ar ymddeoliad y cyfranogwyr

***Cronfa'r Cyngor***
Prif gronfa refeniw yr awdurdod lleol. Defnyddir y gronfa hon i dalu am wariant beunyddiol ar wasanaethau.

***Cronfa Wrth Gefn***
Symiau yw'r rhain sydd wedi'u neilltuo ond sydd heb fod yn disgyn o fewn diffiniad darpariaethau ac maent yn cynnwys cronfeydd wrth gefn cyffredinol (balansau) y mae'n rhaid i bob awdurdod eu cynnal fel mater o ddarbodaeth.

***Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi***
Dyma'r cronfeydd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer diben penodol.

***Croniad***
Mae croniad yn swm a ddangosir yn ein cyfrifon ar gyfer incwm neu wariant yn ystod cyfnod y cyfrifon ond sydd heb gael ei dalu ar ddyddiad y fantolen.

***Cyfrif Refeniw***
Cyfrif yw hwn sy’n cofnodi ein gwariant a’n hincwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau wythnosol a misol, costau rhedeg gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

***Cyfrif Refeniw Tai (HRA)***
Y cyfrif hwn sy’n cynnwys ein holl incwm a gwariant ym maes tai.

***Cyllideb***
Cynllun ar gyfer gwario yw cyllideb, a hynny at y flwyddyn ariannol nesaf fel rheol.

***Cyllido Refeniw yn Uniongyrchol***
Adnoddau a ddarperir o gyllideb refeniw yr awdurdod i gyllido costau prosiectau cyfalaf.

***Dadansoddiad Goddrychol***
Dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl math. Mae’r cyfryw benawdau yn cynnwys costau gweithwyr, eiddo a thrafnidiaeth. Mae’r incwm yn cynnwys grantiau llywodraeth, ffioedd a thaliadau.

***Darpariaeth***
Ystyr darpariaeth yw swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer y rhwymedigaethau neu’r colledion sy’n debygol neu’n sicr o ddigwydd, ond nid oes sicrwydd ynghylch y symiau na’r dyddiadau.

***Derbyniadau Cyfalaf***
Dyma'r derbyniadau a geir drwy werthu tir ac adeiladau y mae statudau'n cyfyngu ar y defnydd a wneir ohonynt. Dim ond i gyllido gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo er mwyn cyllido gwariant cyfalaf hanesyddol y gellir eu defnyddio.

***Dibrisiant***
Dull o ddyrannu cost Eiddo, Offeriant a Chyfarpar dros eu bywydau defnyddiol yw dibrisiant.

***Dyledwr***
Mae dyledwr yn rhywun y mae arno arian i ni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

***Eiddo Buddsoddi***
Mae'r rhain yn eiddo a gedwir dim ond er mwyn cael rhent amdanynt neu er mwyn y cynnydd yn eu gwerth, neu at y ddau ddiben hyn, yn hytrach nag er mwyn darparu gwasanaethau.

***Eiddo, Offeriant a Chyfarpar***
Mae'r asedau hyn yn asedau sydd â sylwedd ffisegol ac fe'u cedwir i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, i'w gosod ar rent i eraill (fel rhan o wasanaeth) neu at ddibenion gweinyddol. Y disgwyl yw y bydd unrhyw ased a gaiff ei gynnwys yn y categori hwn yn cael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol.

***Y Fantolen***
Datganiad o’n hasedau, ein rhwymedigaethau a’n balansau eraill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

***Ffioedd a Thaliadau***
Incwm a enillir drwy godi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am y cyfleusterau, e.e. defnyddio offer hamdden, parcio ceir, casglu gwastraff masnachol, ac ati.

***Grant Cynnal Refeniw***
Y prif grant a delir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyllideb awdurdodau lleol.

***Gwarannau***
Buddsoddiadau megis stociau, cyfrannau a bondiau yw’r rhain.

***Gwariant Cyfalaf***
Ystyr gwariant cyfalaf yw gwario ar asedau anghyfredol megis Eiddo, Offeriant a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi ac Asedau Treftadaeth. Byddai hyn yn cynnwys prynu neu adeiladu asedau newydd, ynghyd â'r gwariant dilynol ar waith cynnal a chadw/datblygu mawr.

***Gwariant Gros***
Cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau’r Cyngor cyn ystyried unrhyw incwm megis ffioedd a thaliadau am wasanaethau, ac ati.

***Gwerth Realeiddiadwy Net***
Pris gwerthu yr ased, llai’r gost berthnasol ei werthu.

***IFRS***
Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

***IFRIC***
Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Safonau cyfrifyddu yw'r ddau uchod sy'n rhoi canllaw ar gyfer cyfrifyddu ariannol.

***Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw (MRP***)
Dyma’r swm mae’r Awdurdod wedi ei neilltuo i ad-dalu benthyciadau.

***Praeseptau***
Dyma’r swm bydd yr Awdurdod yn ei dalu i Awdurdod Nad yw’n Bilio (er enghraifft Cyngor Cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl caniatáu ar gyfer ei incwm).

***Pris Cynnig***
Y pris y byddai trydydd parti yn ei dalu i'r cynllun am y buddsoddiad ar ffurf trafodyn hyd braich.

***Prydlesi Ariannol***
Dull o brynu eitemau cyfalaf. (Wrth ddefnyddio prydlesi ariannol mae’r Awdurdod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o’r risgiau (a’r enillion) o fod yn berchen ar asedau.)

***Prydlesi Gweithredol***
Dull o brynu eitemau cyfalaf.
Gyda’r prydlesi hyn mae’r risgiau (a’r enillion) o fod yn berchen ar yr ased yn aros gyda’r perchennog.

***Rhwymedigaeth***
Swm sy’n daladwy rywbryd yn y dyfodol yw rhwymedigaeth.

***Rhwymedigaethau Cyfredol***
Rhwymedigaethau tymor byr yw’r rhain, sydd i gael eu talu gennym yn ystod y flwyddyn gyfrifydda nesaf.

***Stocrestrau***
Ystyr stocrestrau yw deunyddiau crai a brynir i’w defnyddio o ddydd i ddydd. Mae gwerth yr eitemau hynny a oedd heb eu defnyddio gennym ar ddyddiad y fantolen yn cael ei ddangos yn yr asedau cyfredol yn y fantolen.

***Swyddfa Archwilio Cymru***
Corff annibynnol yn cael ei arwain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benodi archwilwyr allanol i awdurdodau lleol.

***Treth y Cyngor***
Prif ffynhonnell treth leol i awdurdodau lleol. Codir treth y cyngor ar gartrefi yn ei ardal gan yr Awdurdod Bilio a defnyddir yr arian i fodloni gofynion treth y cyngor yr Awdurdod Bilio ac i dalu'r awdurdodau praesept.

***Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR***)
Yr NNDR, neu'r Trethi Busnes, yw'r tâl y bydd deiliaid safleoedd busnes yn ei dalu er mwyn cyllido rhan o wariant yr awdurdodau lleol. Y Llywodraeth sy'n pennu'r NNDR ac mae'n ganran o'r gwerthoedd trethol. Yr un yw y ganran drwy Gymru gyfan. Mae'r cyfanswm sy'n cael ei gasglu yn cael ei rannu rhwng yr awdurdodau unigol yn ôl eu cyfran hwy o'r oedolion yn y boblogaeth.